



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2003**

**Wednesday 2 July 2003**

**Cynnwys  
Contents**

- 3 Ethol i'r Pwyllgorau Rhanbarth  
Elections to the Regional Committees
- 5 Cynnig Trefniadol  
Procedural Motion
- 6 Ethol i Bwyllgor y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru)  
Elections to the Public Audit (Wales) Bill Committee
- 7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth  
Questions to the Minister for Economic Development and Transport
- 19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 29 Datganiad ar Negodiadau ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin  
Statement on the Common Agricultural Policy Reform Negotiations
- 42 Pwynt o Drefn  
Point of Order
- 47 Cymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a  
Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003  
Approval of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), the Feeding Stuffs  
(Enforcement) and the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries)  
(Amendment) (Wales) Regulations 2003
- 56 Caffael Cynnyrch o Gymru yn y Sector Cyhoeddus  
The Procurement of Welsh Produce in the Public Sector
- 80 Cynigion i Wella Diogelwch ar y Ffyrdd ger Ysgolion  
Proposals to Improve Road Safety around Schools
- 97 Dadl Fer: Cynllun Trafnidiaeth Caerdydd  
Short Debate: Cardiff's Transport Plan

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

### **Ethol i'r Pwyllgorau Rhanbarth Elections to the Regional Committees**

**Y Llywydd:** Os yw Aelodau yn gytûn, byddwn yn delio â'r mater hwn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4A, sy'n caniatáu i'r Cynulliad bleidleisio ar y cynigion gyda'i gilydd heb ddadl. Gan nad oes gwrthwynebiad, gweithredwn felly.

**The Presiding Officer:** If Members agree, we will deal with this matter in accordance with Standing Order No. 8.4A, which allows the Assembly to vote on the motions together without debate. Given that there are no objections, we will proceed in that manner.

**The Business Minister (Karen Sinclair):** I propose that

*the National Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 10.3, elects the following Assembly electoral region Members, Eleanor Burnham, Mark Isherwood, Janet Ryder and Brynle Williams, to its North Wales Regional Committee. (NDM1521)*

I propose that

*the National Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 10.3, elects the following Assembly electoral region Members, Nicholas Bourne, Glyn Davies, Lisa Francis, and Helen Mary Jones, to its Mid Wales Regional Committee. (NDM1522)*

I propose that

*the National Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 10.3, elects the following Assembly electoral region Members, Nicholas Bourne, Peter Black, Alun Cairns, Glyn Davies, Janet Davies, Lisa Francis, Helen Mary Jones and David Lloyd, to its South West Wales Regional Committee. (NDM1523)*

I propose that

*the National Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 10.3, elects the following Assembly electoral region*

**Y Trefnydd (Karen Sinclair):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad, Eleanor Burnham, Mark Isherwood, Janet Ryder, Brynle Williams, ar Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd. (NDM1521)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad, Nicholas Bourne, Glyn Davies, Lisa Francis, Helen Mary Jones, ar Bwyllgor Rhanbarth y Canolbarth. (NDM1522)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad, Nicholas Bourne, Peter Black, Alun Cairns, Glyn Davies, Janet Davies, Lisa Francis, Helen Mary Jones a Dai Lloyd, ar Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin. (NDM1523)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad,*

*Members, Peter Black, Alun Cairns, Janet Davies, Jocelyn Davies, William Graham, Michael German, Laura Anne Jones, David Lloyd, David Melding, Jonathan Morgan, Owen John Thomas and Leanne Wood, to its South East Wales Regional Committee. (NDM1524)*

*Peter Black, Alun Cairns, Janet Davies, Jocelyn Davies, William Graham, Michael German, Laura Anne Jones, Dai Lloyd, David Melding, Jonathan Morgan, Owen John Thomas, Leanne Wood, ar Bwyllgor Rhanbarth y De-Ddwyrain. (NDM1524)*

*Cynnig (NDM1521): O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM1521): For 44, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

## Cynnig Trefniadol Procedural Motion

**The Business Minister (Karen Sinclair):** I propose that

*the National Assembly, acting under Standing Order No. 34.4, agrees to suspend Standing Order No. 6.12 to enable no named day motion NNDM1535, tabled on 1 July 2003, to be debated in Plenary today. (NDM1545)*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 34.4, yn cytuno i ohirio Rheol Sefydlog Rhif 6.12 er mwyn caniatáu i gynnig heb ddyddiad trafod NNDM1535, a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2003, gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn heddiw. (NDM1545)*

**Y Llywydd:** Atgoffaf y Cynulliad fod angen mwyafrif o ddwy ran o dair i basio'r cynnig hwn.

**The Presiding Officer:** I remind the Assembly that a two-thirds majority is required to carry this motion.

*Cynnig (NDM1545): O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion (NDM1545): For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri

Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Ethol i Bwyllgor y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru)  
Elections to the Public Audit (Wales) Bill Committee**

**The Business Minister (Karen Sinclair):** I **Y Trefnydd (Karen Sinclair):** Cyngiaf fod propose that

*the National Assembly, acting under Standing Order No. 8.1, elects the following Members to the Public Audit (Wales) Committee: Leighton Andrews (Labour), Ann Jones (Labour), Janet Davies (Plaid Cymru), Alun Cairns (Conservative), Mick Bates (Liberal Democrat), and elects Janet Davies (Plaid Cymru) to be the Chair of the Committee. (NNDM1535)*

*y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 8.1, yn ethol yr Aelodau a ganlyn i'r Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Leighton Andrews (Llafur), Ann Jones (Llafur), Janet Davies (Plaid Cymru), Alun Cairns (Ceidwadwyr), Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) yn Gadeirydd ar y Pwyllgor. (NNDM1535)*

*Cynnig (NNDM1535): O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NNDM1535): For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise

James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport**

### **Mentrau Marchnata Twristiaeth Tourism Marketing Initiatives**

**Q1 Lisa Francis:** Will the Minister make a statement on tourism marketing initiatives introduced by the Wales Tourist Board? (OAQ26432) [R]

**C1 Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mentrau marchnata twristiaeth a gyflwynwyd gan Fwrdd Croeso Cymru? (OAQ26432) [R]

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** The Wales Tourist Board delivers a number of marketing campaigns, in the UK and overseas, aimed at increasing the awareness of Wales as a tourism destination and increasing tourism growth in Wales. Most of the board's marketing activity is aimed at the vital UK market, from where over 90 per cent of visitors to Wales come.

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn cyflwyno nifer o ymgyrchoedd marchnata, yn y DU a thramor, sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan twristiaeth a chynyddu twf twristiaeth yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o weithgaredd marchnata'r bwrdd wedi'i anelu at farchnad hollbwysig y DU, sy'n cyfrif am fwy na 90 y cant o'r bobl sy'n ymweld â Chymru.

**Lisa Francis:** You will be aware of the destination management system, or DMS, which was set up last year by the Wales Tourist Board as an online booking service for accommodation providers in Wales. Information from last February reveals that £2 million was spent on the system; an uptake of only 200 or so participants meant

**Lisa Francis:** Byddwch yn ymwybodol o'r system rheoli cyrchfannau, neu'r DMS, a sefydlwyd y llynedd gan Fwrdd Croeso Cymru fel gwasanaeth archebu ar-lein ar gyfer darparwyr llety yng Nghymru. Mae gwybodaeth o fis Chwefror diwethaf yn datgelu bod £2 miliwn wedi'i wario ar y system; yr oedd y ffaith mai dim ond tua 200

that the initiative was an expensive failure—it cost around £10,000 per business. In addition, the system was not up and running until 17 June 2002, which was well after the start of the tourism season. That is scandalous in the year following the foot and mouth disease outbreak and 11 September. What steps will the Government take to ensure that these money-wasting failures are not repeated?

**Andrew Davies:** The destination management system was, as you rightly said, a huge and complex project, which involved a great deal of investment. Clearly, concerns have been raised with me, by the industry, the British Hospitality Association and others. I raised those issues with the Wales Tourist Board at one of our regular meetings, and I will continue to do so.

**Christine Chapman:** Would you join me in congratulating the community of Cefn Pennar which, in conjunction with Groundwork, is regenerating its environment—[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. The Welsh Conservative group appears to be causing consternation on the Minister's left wing.

**Christine Chapman:** The community is regenerating its environment, developing activity tourism and promoting itself as a gateway to mountain-based leisure activities. Do you also agree that there is huge potential and an economic opportunity to develop tourism in the Valleys, as the recent Bevan Foundation report concluded? Will you press the Wales Tourist Board to strengthen its development plan for the area, which is unique?

**Andrew Davies:** I give that commitment. There is a huge opportunity to develop tourism in the Valleys. As you know, the Wales Tourist Board has launched a new initiative—the First Minister, in fact, launched it some months ago—and we will seek to maximise the opportunities tourism offers in the Valleys.

**Elin Jones:** Gan fod Awdurdod Twristiaeth Prydain a Bwrdd Twristiaeth Lloegr wedi'u

o ddarparwyr a ddefnyddiodd y system yn golygu bod y fenter yn fethiant costus—costiodd tua £10,000 fesul busnes. Yn ogystal, nid oedd y system ar waith tan 17 Mehefin 2002, a oedd ymhell ar ôl dechrau'r tymor twristiaeth. Mae hynny'n warthus yn y flwyddyn yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau a 11 Medi. Pa gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad yw'r methiannau hyn, sy'n wastraff arian, yn digwydd eto?

**Andrew Davies:** Yr oedd y system rheoli cyrchfannau, fel y dywedaso, yn brosiect enfawr a chymhleth, a oedd yn golygu llawer iawn o fuddsoddiad. Yn amlwg, codwyd pryderon gyda mi, gan y diwydiant, Cymdeithas Lletygarwch Prydain ac eraill. Codais y materion hynny gyda Bwrdd Croeso Cymru yn un o'n cyfarfodydd rheolaidd, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

**Christine Chapman:** A wnewch ymuno â mi i longyfarch cymuned Cefn Pennar sy'n adfywio ei hamgylchedd mewn cydweithrediad â Groundwork—[*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Ymddengys bod grŵp Ceidwadwyr Cymru yn peri dryswch ar adain chwith y Gweinidog.

**Christine Chapman:** Mae'r gymuned yn adfywio ei hamgylchedd, yn datblygu twristiaeth gweithgareddau ac yn hyrwyddo ei hun fel porth i weithgareddau hamdden yn y mynyddoedd. A gytunwch hefyd fod potensial enfawr a chyfle economaidd i ddatblygu twristiaeth yn y Cymoedd, fel y nododd casgliadau adroddiad diweddar Sefydliad Bevan? A wnewch bwysu ar Fwrdd Croeso Cymru i gryfhau ei gynllun datblygu ar gyfer yr ardal, sy'n unigryw?

**Andrew Davies:** Ymrwymaf i hynny. Mae cyfle enfawr i ddatblygu twristiaeth yn y Cymoedd. Fel y gwyddoch, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi lansio menter newydd—yn wir, fe'i lanswyd gan y Prif Weinidog rai misoedd yn ôl—a byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan dwristiaeth yn y Cymoedd.

**Elin Jones:** With the merging of the British Tourist Authority and the England Tourist



cyfuno, pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau bod Cymru'n cael ei marchnata'n effeithiol dramor gan y corff newydd?

**Andrew Davies:** When the new Visit Britain arrangements were made we had concerns, as did the Scottish Executive, and our concerns were accepted. I will meet with the senior manager of Visit Britain, as well as with the Department for Culture, Media and Sport, to see how arrangements are progressing. The work of Visit Britain is vital. When I visited America and Dublin last year I saw at first hand what the then British Tourist Authority was doing to market Wales. Its commitment was exemplary and we want to ensure that that activity is, if anything, stepped up.

**Eleanor Burnham:** Despite the fact that we have been lagging behind for years, I understand that our marketing budget is now the same as Scotland's. Should we not be doing more to market cultural tourism and should we not look to market to high-spending tourists, such as Americans and Japanese, who have a great deal of money? We should attract those kind of tourists to Wales rather than those who do not have much to spend.

**Andrew Davies:** Cultural tourism is vital and that is why we have developed a cultural tourism strategy. In conjunction with my colleague Alun Pugh, the Minister for Culture, the Welsh Language and Sport, I am considering developing a national events strategy, in which cultural events will clearly play a leading role.

Board, what arrangements have been made to ensure that Wales is marketed abroad effectively by the new body?

**Andrew Davies:** Pan wnaethpwyd y trefniadau Visit Britain newydd yr oedd gennym bryderon, ac felly hefyd Weithrediaeth yr Alban, a derbyniwyd ein pryderon. Byddaf yn cwrdd ag uwch reolwr Visit Britain, yn ogystal â chyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, er mwyn gweld sut y mae'r trefniadau yn mynd rhagddynt. Mae gwaith Visit Britain yn hollbwysig. Pan ymwelais ag America a Dulyn y llynedd cefais weld yr hyn yr oedd Awdurdod Twristiaeth Prydain bryd hynny yn ei wneud i farchnata Cymru. Yr oedd ei ymrwymiad yn rhagorol ac yr ydym am sicrhau bod y gweithgaredd hwnnw, os rhywbeth, yn cynyddu.

**Eleanor Burnham:** Er gwaethaf y ffaith inni fod ar ei hôl hi ers blynyddoedd, deallaf fod ein cyllideb marchnata bellach yr un faint â chyllideb yr Alban. Oni ddylem wneud mwy i farchnata twristiaeth ddiwylliannol ac oni ddylem ystyried marchnata ar gyfer twristiaid sy'n gwario llawer, fel Americanwyr a phobl o Siapan, sydd â llawer iawn o arian? Dylem ddenu'r math hwnnw o dwristiaid i Gymru yn hytrach na'r rhai nad oes ganddynt lawer i'w wario.

**Andrew Davies:** Mae twristiaeth ddiwylliannol yn hollbwysig a dyna pam yr ydym wedi datblygu strategaeth twristiaeth ddiwylliannol. Mewn cydweithrediad â'm cyd-Weinidog Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, yr wyf yn ystyried datblygu strategaeth ddigwyddiadau genedlaethol, y bydd digwyddiadau diwylliannol yn amlwg yn chwarae rhan flaenllaw ynddi.

### Gwasanaethau Rheilffyrdd Rail Services

**Q2 Laura Anne Jones:** Could the Minister explain why rail services in Wales are getting worse? (OAQ26492)

**Andrew Davies:** I do not accept that they are. The Strategic Rail Authority publishes performance figures every six months. The

**C2 Laura Anne Jones:** A all y Gweinidog egluro pam mae gwasanaethau rheilffyrdd Cymru'n gwaethygu? (OAQ26492)

**Andrew Davies:** Ni dderbyniaf eu bod yn gwaethygu. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn cyhoeddi ffigurau perfformiad

latest data show that, although the performance of First Great Western is poorer, the regional operators First North Western and Wales and Borders, which operate the majority of the services in Wales, now have more trains arriving on time than they did a year ago. Customer satisfaction with punctuality, reliability and the quality of the journey on each of these operators' services has also improved over the past year. In addition, we have succeeded in securing five Virgin Trains a day in each direction between Holyhead and London, and are pressing for delivery of the original promise of seven trains each way.

**Laura Anne Jones:** Last week, Network Rail announced enormous pay-outs for its directors, yet, this week said that train punctuality could not reach 90 per cent until 2010. Rail services have been worsening under Labour. Taxpayers and passengers have to pay more for a lower standard of service. [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. Members should not seek to intervene when a Member is about to ask a question.

**Laura Anne Jones:** Customer complaints are soaring, as are service cuts. What is the Minister doing to reverse the current trend of worsening rail services in Wales?

**Andrew Davies:** Massive investment is being made in the railways in the UK, after decades of under-investment under the previous Conservative administration. We also have to deal with the system resulting from the privatisation of British Rail.

2.10 p.m.

**Jeff Cuthbert:** It is unclear whether Laura's question was motivated by complaints about the train operating companies or about the infrastructure maintenance companies, or both. Does the Minister agree that one of the principal reasons for public concern about the

bob chwe mis. Dengys y data diweddaraf, er bod perfformiad First Great Western yn waeth, fod mwy o drenau y gweithredwyr rhanbarthol First North Western a Wales and Borders, sy'n gweithredu mwyafrif y gwasanaethau yng Nghymru, yn cyrraedd yn brydlon nag a wnâi flwyddyn yn ôl. Mae boddhad cwsmeriaid mewn perthynas â phrydlondeb, dibynadwyedd ac ansawdd y daith ar bob un o wasanaethau'r gweithredwyr hyn wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd. Yn ogystal, yr ydym wedi llwyddo i sicrhau bod pump o drenau Virgin Trains y dydd yn rhedeg i'r ddau gyfeiriad rhwng Caerdybi a Llundain, ac yr ydym yn pwysu arno i gadw'r addewid wreiddiol o redeg saith trên y dydd i'r ddau gyfeiriad.

**Laura Anne Jones:** Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Network Rail daliadau enfawr i'w gyfarwyddwyr, ond yr wythnos hon, dywedodd na allai prydlondeb trenau gyrraedd 90 y cant tan 2010. Bu gwasanaethau rheilffyrdd yn gwaethgu o dan Lafur. Rhaid i drethdalwyr a theithwyr dalu mwy am wasanaeth o safon is. [*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Ni ddylai Aelodau geisio ymyrryd pan fydd Aelod ar fin gofyn cwestiwn.

**Laura Anne Jones:** Mae cwynion gan gwsmeriaid yn codi'n ddychrynlyd, fel y mae nifer y toriadau i wasanaethau. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i wyrdroi'r duedd bresennol o wasanaethau rheilffyrdd yn gwaethgu yng Nghymru?

**Andrew Davies:** Gwneir buddsoddiad enfawr yn rheilffyrdd y DU, ar ôl degawdau o danfuddsoddi o dan weinyddiaeth flaenorol y Ceidwadwyr. Rhaid inni ddelio hefyd â'r system sy'n deillio o breifateiddio British Rail.

**Jeff Cuthbert:** Mae'n aneglur a ysgogwyd cwestiwn Laura gan gwynion am y cwmnïau gweithredu trenau neu am y cwmnïau cynnal a chadw seilwaith, neu'r ddau. A yw'r Gweinidog yn cytuno mai un o'r prif resymau dros bryder y cyhoedd ynghylch y

services provided by the train network is the way in which the rail service was denationalised by the former Conservative Government? This led to confusion and conflict between train operating companies and the infrastructure maintenance companies about responsibility.

**Andrew Davies:** Members will not be surprised that I agree with the thrust of your question. Together with the UK Government, we must manage the system. The Assembly Government has shown its commitment to the development of rail services in Wales by substantially investing over and above the existing commitment, by investing in the Vale of Glamorgan line, the Valleys lines, and the Ebbw valley line.

**Janet Davies:** You have already mentioned the lack of investment over more than 30 years that led to the parlous state of these railways. The National Assembly can only tinker at the edges. When will you call for, and fight for this Assembly to have powers over the railways in Wales?

**Andrew Davies:** We are already doing a great deal within our existing powers. Shortly, the SRA will announce the winner of the new Wales and borders franchise. We are working closely with the SRA. One of my first meetings after the election was with the chair and chief executive of the SRA, Richard Bowker. We are doing a great deal to improve the rail infrastructure and rail services in Wales.

**Peter Law:** Minister, you know that I and the people of Blaenau Gwent greatly appreciated the work of your predecessor, Sue Essex, and that we appreciate the work that you are doing to reopen the Ebbw Vale to Cardiff passenger rail service. I am concerned that the opening date of late 2005 is slipping. Have you had, or will you have, discussions with Network Rail and with the SRA to ensure that this line opens on time as promised by the Assembly Government?

gwasanaethau a ddarperir gan y rhwydwaith trenau yw'r modd y cafodd y gwasanaeth rheilffyrdd ei ddadwladoli gan y cyn Lywodraeth Geidwadol? Arweiniodd hyn at ddryswch a gwrthdaro rhwng cwmnïau gweithredu trenau a'r cwmnïau cynnal a chadw seilwaith mewn perthynas â chyfrifoldeb.

**Andrew Davies:** Ni fydd Aelodau yn synnu fy mod yn cytuno â byrdwn eich cwestiwn. Ynghyd â Llywodraeth y DU, rhaid inni reoli'r system. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos ei hymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru drwy fuddsoddi'n sylweddol uwch na'r ymrwymiad presennol, drwy fuddsoddi yn lein Bro Morgannwg, rheilffyrdd y Cymoedd, a lein glyn Ebwy.

**Janet Davies:** Yr ydych eisoes wedi crybwyll y diffyg buddsoddi dros fwy na 30 blynedd a arweiniodd at gyflwr enbyd y rheilffyrdd hyn. Dim ond mân welliannau y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu gwneud. Pryd y byddwch yn galw am roi pwerau dros y rheilffyrdd yng Nghymru i'r Cynulliad hwn, ac yn brwydro dros hynny?

**Andrew Davies:** Yr ydym eisoes yn gwneud llawer iawn o fewn ein pwerau presennol. Yn fuan, bydd yr SRA yn cyhoeddi enillydd masnachfaint newydd Cymru a'r gororau. Yr ydym yn cydweithio'n agos â'r SRA. Un o'm cyfarfodydd cyntaf ar ôl yr etholiad oedd cyfarfod gyda chadeirydd a phrif weithredwr yr SRA, Richard Bowker. Yr ydym yn gwneud llawer iawn i wella'r seilwaith rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.

**Peter Law:** Weinidog, gwyddoch fy mod i a phobl Blaenau Gwent wedi gwerthfawrogi gwaith eich rhagflaenydd, Sue Essex, yn fawr a'n bod yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gennych i ailagor y gwasanaeth rheilffordd i deithwyr o Lynebwy i Gaerdydd. Yr wyf yn pryderu na fydd yn barod erbyn y dyddiad agor a osodwyd, sef diwedd 2005. A ydych wedi cynnal, neu'n bwriadu cynnal, trafodaethau gyda Network Rail a chyda'r SRA er mwyn sicrhau bod y lein hon yn agor mewn pryd yn unol ag addewid Llywodraeth y Cynulliad?

**Andrew Davies:** You were the greatest champion of this project and I commend your commitment. We are committed to developing the line from Ebbw Vale to Cardiff. We have made a substantial investment and are working with all the partners to ensure delivery. I will be meeting Ian McAllister, the chair of Network Rail, in the near future, and this will be one of the major items that I will discuss with him.

**Jenny Randerson:** Minister, you will be aware of today's announcement that the National Union of Rail, Maritime and Transport Workers is switching its financial support to Plaid Cymru. Do you think that this will help to ensure that trains run on time?

**The Presiding Officer:** Order. As far as I am aware the Minister for Economic Development and Transport has no responsibility for any other political group in the Chamber.

**Andrew Davies:** As a member of the Transport and General Workers Union, I would be loath to comment on the actions of another trade union.

**Andrew Davies:** Chi oedd yr eiriolwr mwyaf brwd dros y prosiect hwn a chymeradwyaf eich ymrwymiad. Yr ydym yn ymrwymedig i ddatblygu'r lein o Lynebwy i Gaerdydd. Yr ydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol ac yr ydym yn gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau y caiff hyn ei gyflawni. Byddaf yn cwrdd ag Ian McAllister, cadeirydd Network Rail, yn y dyfodol agos, a dyma fydd un o'r prif bynciau a drafodaf gydag ef.

**Jenny Randerson:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad heddiw bod Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffyrdd, y Gweithwyr Morwrol a'r Gweithwyr Cludiant yn trosglwyddo ei gymorth ariannol i Blaid Cymru. A gredwch y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod trenau yn rhedeg yn brydlon?

**Y Llywydd:** Trefn. Hyd y gwn, nid yw'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn gyfrifol am unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn y Siambr.

**Andrew Davies:** Fel aelod o Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, byddwn yn anfodlon gwneud sylwadau ar weithredoedd undeb llafur arall.

### **Economi Gogledd-orllewin Cymru The Economy of North-west Wales**

**C3 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella cefnogaeth y Llywodraeth i economi gogledd-orllewin Cymru? (OAQ26498)

**Andrew Davies:** 'A Winning Wales' identifies how we intend to support economic development throughout Wales, including north-west Wales. We will continue to build on the successes that these policies have delivered. The Assembly Government has, since 1999, supported 135 regional selective assistance and Assembly investment grant projects, with grant values of over £45 million in north-west Wales. These projects are expected to create and safeguard almost 3,800 jobs. European Objective 1 funding is making a real difference in north-west Wales: 106 local projects have been awarded

**Q3 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** What steps is the Minister taking to increase the Government's support for the economy of north-west Wales? (OAQ26498)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn nodi'r modd y bwriadwn gefnogi datblygu economaidd ledled Cymru, gan gynnwys yng ngogledd-orllewin Cymru. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd yn sgîl y polisiau hyn. Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi 135 o brosiectau cymorth rhanbarthol dewisol a phrosiectau grant buddsoddi'r Cynulliad, gyda grantiau gwerth dros £45 miliwn yng ngogledd-orllewin Cymru. Disgwylir i'r prosiectau hyn greu a diogelu bron 3,800 o swyddi. Mae arian Amcan 1 Ewrop yn gwneud gwir wahaniaeth yng ngogledd-

funding of almost £58 million, representing nearly £155 million investment. These projects have created almost 2,700 new jobs and safeguarded almost 3,500 others.

**Ieuan Wyn Jones:** Mae'n debyg bod y Gweinidog yn ymwybodol bod lefel cyflogau yng ngogledd-orllewin Cymru, ac yn y Gorllewin yn gyffredinol, yn is nag mewn rhannau eraill o Gymru a'r Deyrnas Gyfunol. Ar hyn o bryd, gosodir lefel cyflogau ar gyfer pob rhan o'r sector cyhoeddus. Mae lefel cyflogau yn y sector cyhoeddus tua'r un lefel â chyflogau yn y sector preifat. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder, pe bai'r Llywodraeth yn Llundain yn rhanbartholi cyflogau yn y sector cyhoeddus, y byddai hynny yn niweidio'r economi yn y rhannau hynny o Gymru ymhellach? A all y Gweinidog fy argyhoeddi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthwynebu unrhyw gynllun gan y Llywodraeth yn Llundain i ranbartholi cyflogau yn y sector cyhoeddus?

**Andrew Davies:** I am aware of the concerns and the arguments for and against the proposals. As you have indicated, there are concerns that introducing regional pay levels could adversely affect people in some parts of the UK, such as Wales. However, I take issue with any assertion that employment and development in north-west Wales and other parts of the country are lagging behind. One of the greatest problems that we face in terms of the Objective 1 areas is raising the level of demand because of previous high levels of unemployment. North-west Wales has probably seen the fastest fall in unemployment in the whole of Wales.

**Brynle Williams:** Do you agree that closing small schools is having an adverse effect on the rural economy, with local post offices and small shops going out of business? What are you, as the Minister for Economic Development and Transport, doing to protect smaller schools so that those communities can enjoy the economic benefits?

**Andrew Davies:** School closures is an issue for local authorities. The issue is not within

orllewin Cymru: dyfarnwyd bron £58 miliwn i 106 o brosiectau lleol, sef buddsoddiad o bron £155 miliwn. Mae'r prosiectau hyn wedi creu bron 2,700 o swyddi newydd ac wedi diogelu bron 3,500 o swyddi eraill.

**Ieuan Wyn Jones:** The Minister is probably aware that wage levels in north-west Wales, and in west Wales in general, are lower than in other parts of Wales and the United Kingdom. Currently, wage levels are set for all parts of the public sector. Wage levels in the public sector correspond roughly to wages in the private sector. Does the Minister share my concern that, if the Government in London regionalises wages in the public sector, that would further damage the economy in those parts of Wales? Can the Minister assure me that the Assembly Government will oppose any plans by the Government in London to regionalise public sector wages?

**Andrew Davies:** Yr wyf yn ymwybodol o'r pryderon a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynigion. Fel yr ydych wedi nodi, mae pryderon y gallai cyflwyno cyflogau rhanbarthol gael effaith andwyol ar bobl mewn rhai rhannau o'r DU, fel Cymru. Fodd bynnag, anghytunaf ag unrhyw haeriad bod cyflogaeth a datblygiad yng ngogledd-orllewin Cymru a rhannau eraill o'r wlad ar ei hôl hi. Un o'r problemau mwyaf a wynebwn o ran ardaloedd Amcan 1 yw cynyddu'r galw oherwydd lefelau uchel o ddiweithdra yn y gorffennol. Yn ôl pob tebyg, gogledd-orllewin Cymru sydd wedi gweld y cwmp cyflymaf mewn diweithdra yng Nghymru gyfan.

**Brynle Williams:** A gytunwch fod cau ysgolion bach yn cael effaith andwyol ar yr economi wledig, gyda swyddfeydd post lleol a siopau bach yn mynd i'r wal? Beth yr ydych chi, fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yn ei wneud i ddiogelu ysgolion llai er mwyn i'r cymunedau hynny allu manteisio ar y buddiannau economaidd?

**Andrew Davies:** Mae ysgolion yn cau yn fater i awdurdodau lleol. Nid yw'r mater hwn

my portfolio. However, in terms of education and training in rural areas, the Government has committed increasing levels of public investment to upskill our children and young people to ensure that, when employers move to an area, or when employers in an area wish to expand, there is a highly-skilled and adaptable workforce available.

o fewn fy mhorthffolio i. Fodd bynnag, o ran addysg a hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig, mae'r Llywodraeth wedi neilltuo lefelau cynyddol o fuddsoddiad cyhoeddus er mwyn gwella sgiliau ein plant a'n pobl ifanc er mwyn sicrhau bod gweithlu hyfedr a hyblyg ar gael pan fydd cyflogwyr yn symud i ardal neu pan fydd cyflogwyr mewn ardal yn dymuno ehangu.

### **Gwasanaethau Rheilffyrdd Rail Services**

**Q4 Janet Davies:** What steps is the Minister taking to put in place a strong overarching rail strategy in Wales? (OAQ26487)

**Andrew Davies:** The Assembly Government is working closely with the Strategic Rail Authority and Network Rail to ensure that the operator of the new Wales and borders franchise will, over time, be able to introduce improved services. We have made it clear to the SRA that our strategy is based on a commitment to secure an efficient and reliable rail service for Wales over the lifetime of the franchise.

**Janet Davies:** As the Assembly has no say in awarding that franchise, how would your strong, overarching rail strategy cope should there be reductions in services, frequency of services and so on, under the new rail franchise?

**Andrew Davies:** As I made clear in my reply to an earlier question on railways, we have a good, close working relationship with the SRA. It has taken on board our input into the scope of the franchise, it has closely involved us in its delivery and has kept us informed. I am sure that that relationship will continue to develop, as will the relationship with Network Rail, as I indicated earlier.

**Alun Cairns:** Is the Minister concerned that, according to data in the House of Commons library, the Conservative Government, during its last 10 years in power, spent more on transport than the amount proposed by the UK Government for the next 10 years? Is the

**C4 Janet Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sefydlu strategaeth reilffyrdd gadarn a chynhwysol yng Nghymru? (OAQ26487)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a Network Rail i sicrhau y gall gweithredwr masnachfrait newydd Cymru a'r gororau gyflwyno gwell gwasanaethau dros amser. Yr ydym wedi egluro i'r SRA bod ein strategaeth yn seiliedig ar ymrwymiad i sicrhau gwasanaeth rheilffyrdd effeithlon a dibynadwy i Gymru dros gyfnod y fasnachfrait.

**Janet Davies:** Gan nad oes gan y Cynulliad unrhyw ddylanwad ar y broses o ddyfarnu'r fasnachfrait honno, sut y byddai eich strategaeth reilffyrdd gadarn a chynhwysol yn ymdopi pe bai gostyngiadau mewn gwasanaethau, amllder gwasanaethau ac ati, o dan y fasnachfrait reilffyrdd newydd?

**Andrew Davies:** Fel yr eglurais yn fy ateb i gwestiwn cynharach ar reilffyrdd, mae gennym berthynas waith agos, dda gyda'r SRA. Mae wedi gwrandao ar ein sylwadau ar gwmpas y fasnachfrait, wedi ein cynnwys yn y broses o'i darparu ac wedi'n hysbysu o ddatblygiadau. Yr wyf yn siŵr y bydd y berthynas honno yn parhau i ddatblygu, yn yr un modd â'r berthynas â Network Rail, fel y nodais yn gynharach.

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog yn pryderu bod y Llywodraeth Geidwadol, yn ôl data yn llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, wedi gwario mwy ar drafnidiaeth yn ystod ei 10 mlynedd olaf mewn grym na'r swm y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wario dros y 10 mlynedd

Minister equally troubled by the report published yesterday by the Confederation of British Industry, which states that we are about to experience a decade of transport misery?

**Andrew Davies:** Commentators across the political divide have accepted that there has been underinvestment in our transport infrastructure for many years. I am not denying that non-Labour Governments have secured investment. However, the issue is the scale of that investment. The present UK Government and the Assembly Government are increasing the level of support, which is largely needed to upgrade what was a crumbling infrastructure. That is one reason why it is, and will be, a long job.

nesaf? A yw'r Gweinidog yn bryderus hefyd ynghylch yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe gan Gyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, sy'n nodi ein bod ar drothwy degawd o ddiflastod mewn perthynas â thrafnidiaeth?

**Andrew Davies:** Mae sylwebwyr ar draws y rhaniad gwleidyddol wedi derbyn y bu tanfuddsoddi yn ein seilwaith trafndiaeth ers blynnyddoedd lawer. Nid wyf yn gwadu bod Llywodraethau nad ydynt yn rhai Llafur wedi sicrhau buddsoddiad. Fodd bynnag, maint y buddsoddiad hwnnw sy'n bwysig. Mae Llywodraeth bresennol y DU a Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu lefel y gefnogaeth, sydd ei hangen yn bennaf i ddiweddarau seilwaith a oedd mewn cyflwr gwael. Dyna un rheswm pam ei bod, a pham y bydd, yn dasg hir.

#### **Ffordd Liniaru'r M4 M4 Relief Road**

**Q5 William Graham:** Will the Minister make a statement on the need for an M4 relief road? (OAQ26493)

**C5 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen am ffordd liniaru'r M4? (OAQ26493)

**Andrew Davies:** The M4 relief road is one of a range of options, which can contribute to alleviating the congestion on the motorway at Newport. That is in the 'on hold' category of the trunk road forward programme announced in March 2002 because, before making a decision, we must consider all the factors, including the economic, environmental and social effects.

**Andrew Davies:** Mae ffordd liniaru'r M4 yn un opsiwn o amrywiaeth o opsiynau a all gyfrannu at leihau'r tagfeydd ar y draffordd yng Nghasnewydd. Mae'r opsiwn hwnnw yn un elfen o'r flaenraglen cefnffyrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002 nad ydym yn gweithredu arno ar hyn o bryd oherwydd bod rhaid inni ystyried yr holl ffactorau, gan gynnwys yr effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, cyn gwneud penderfyniad.

2.20 p.m.

**William Graham:** Thank you for your reply, Minister, but you must know from your own journeys along the M4 that the road creates misery for everybody. Last Tuesday, seven and eight-mile queues prevented people from getting to work or completing their journeys. This is a vital economic tool for south-east Wales. When will you insist that the road be built?

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Weinidog, ond mae'n rhaid eich bod yn gwybod o'ch teithiau eich hun ar hyd yr M4 bod y ffordd yn peri diflastod i bawb. Ddydd Mawrth diwethaf, rhwystrwyd pobl rhag mynd i'r gwaith neu gyrraedd pen eu taith oherwydd tagfeydd o saith ac wyth milltir. Mae hwn yn arf economaidd hollbwysig i dde-ddwyrain Cymru. Pryd y byddwch yn mynnu bod y ffordd yn cael ei hadeiladu?

**Andrew Davies:** I am aware of the congestion problems and we are doing all that we can to manage traffic flows during

**Andrew Davies:** Yr wyf yn ymwybodol o'r problemau o ran tagfeydd ac yr ydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i reoli llif

peak hours. There are issues to be addressed. We are preparing a scheme to widen the M4 between Castleton and Coryton but, as I said in my initial response, the M4 relief road in Newport raises huge and complex economic, environmental and social issues.

**John Griffiths:** Far too many accidents still occur on the M4 around Newport, particularly in the area of the Brynglas tunnels. Work has been done and is ongoing to address those problems. Will you assure me that an effective system of signage and road safety measures will be put in place as speedily as possible, to stop that terrible toll of accidents?

**Andrew Davies:** Yes, John. Accidents do occur on that stretch of motorway, which have a disproportionate effect given the volume of traffic on that road. I will visit the new traffic management centre soon to see how the system operates and what more can be done to manage that process.

**Jocelyn Davies:** Minister, is there not also a danger that, over time, this development may attract other developments and increase congestion in the coastal area? Would it not be better to improve the infrastructure in the Valleys?

**Andrew Davies:** We are doing that. Your basic thrust is right; evidence shows that building more roads or bigger roads increases capacity which, in turn, increases usage of those roads. That is an argument against widening the M25, for example, and was an argument against building it in the first place. We are improving the infrastructure in the Valleys; an extensive dualling programme of the A465, the Heads of the Valleys road, is underway. We are also investing in rail infrastructure, particularly the Ebbw Vale and the Mountain Ash train lines. By supporting public transport, we are encouraging people to get out of their cars and use more trains and buses.

traffig yn ystod oriau brig. Mae materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy. Yr ydym yn paratoi cynllun i ledu'r M4 rhwng Cas-bach a Coryton ond, fel y dywedais yn fy ymateb gwreiddiol, mae ffordd liniaru'r M4 yng Nghasnewydd yn codi materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol enfawr a chymhleth.

**John Griffiths:** Mae gormod o ddamweiniau o lawer yn digwydd o hyd ar yr M4 o amgylch Casnewydd, yn enwedig yn ardal twnneli Brynglas. Gwnaethpwyd gwaith ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i ymdrin â'r problemau hynny. A wnewch chi roi sicrwydd imi y caiff system effeithiol o arwyddion a mesurau diogelwch ffyrdd eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r nifer uchel o ddamweiniau, sy'n ofnadwy?

**Andrew Davies:** Gwnaf, John. Mae damweiniau yn digwydd ar y rhan honno o'r draffordd, sy'n cael effaith anghymesur o ystyried faint o draffig sydd ar y ffordd honno. Byddaf yn ymweld â'r ganolfan rheoli traffig newydd yn fuan er mwyn gweld sut y mae'r system yn gweithredu a beth arall y gellir ei wneud i reoli'r broses honno.

**Jocelyn Davies:** Weinidog, onid oes perygl hefyd y gallai'r datblygiad hwn, dros amser, ddenu datblygiadau eraill a chynyddu tagfeydd yn yr ardal arfordirol? Oni fyddai'n well gwella'r seilwaith yn y Cymoedd?

**Andrew Davies:** Yr ydym yn gwneud hynny. Mae prif fyrddwn eich pwynt yn gywir; dengys tystiolaeth fod adeiladu mwy o ffyrdd neu ffyrdd mwy yn cynyddu'r capasiti sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r defnydd o'r ffyrdd hynny. Mae hynny yn ddadl yn erbyn lledu'r M25, er enghraifft, ac yr oedd yn ddadl yn erbyn ei hadeiladu yn y lle cyntaf. Yr ydym yn gwella'r seilwaith yn y Cymoedd; mae rhaglen ddeuoli helaeth yr A465, sef ffordd Blaenau'r Cymoedd, yn mynd rhagddi. Yr ydym hefyd yn buddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd, yn arbennig yn rheilffyrdd Glynebwy ac Aberpennar. Drwy gefnogi trafndiaeth gyhoeddus, yr ydym yn annog pobl i adael eu ceir a defnyddio mwy o drenau a bysiau.



**Rosemary Butler:** The M4 relief road is a vital piece of the jigsaw of transportation, not only for south-east Wales but further on, towards west Wales. I am pleased with the progress of the southern distributor road: another piece of that jigsaw. However, you referred to the Ebbw valley rail line, which is a vital piece of my jigsaw analogy. Can you give us a progress report on when the Ebbw Vale to Newport railway line will open?

**The Presiding Officer:** Order. That supplementary might have been designed for an earlier question.

**Rosemary Butler:** No, it was not.

**The Presiding Officer:** The M4 is not directly related to the Ebbw valley railway line, although they may cross each other at some point.

**Andrew Davies:** I will write to the Member on that point.

**Rosemary Butler:** Mae ffordd liniaru'r M4 yn elfen hollbwysig o'r rhwydwaith trafniadaeth, nid unig i dde-ddwyrain Cymru ond ymhellach tuag at orllewin Cymru hefyd. Yr wyf yn fodlon ar y cynnydd a wneir ar y ffordd ddsbarthu ddeheuol: darn arall o'r rhwydwaith hwnnw. Fodd bynnag, bu ichi gyfeirio at linell reilffordd glyn Ebwy, sy'n elfen hollbwysig o'r rhwydwaith. A allwch roi adroddiad cynnydd inni ar ba bryd y bydd y rheilffordd o Lynebwy i Gasnewydd yn agor?

**Y Llywydd:** Trefn. Efallai fod y cwestiwn ategol hwnnw wedi'i gynllunio ar gyfer cwestiwn cynharach.

**Rosemary Butler:** Nac oedd.

**Y Llywydd:** Nid yw'r M4 yn unionyrchol gysylltiedig â rheilffordd glyn Ebwy, er ei bod yn bosibl y byddant yn croesi ei gilydd mewn rhyw fan.

**Andrew Davies:** Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod mewn perthynas â'r pwynt hwnnw.

### **Deuli Ffordd Blaenau'r Cymoedd Dualling the Heads of the Valleys Road**

**Q6 Huw Lewis:** What plans does the Minister have to study the potential economic spin-offs from the dualling of the Heads of the Valleys road? (OAQ26418)

**Andrew Davies:** As with all major transport projects, a broad assessment of the potential economic benefits associated with the scheme was made as part of the appraisal process. The economic development strategies of the Welsh Development Agency and local authorities will naturally seek to exploit the potential economic benefits unlocked by the progressive improvement of the route.

**Huw Lewis:** You will know of the great anticipation in the northern Valleys concerning the potential economic spin-offs of that work. It was one of the suggestions of a study conducted by the Bevan Foundation, outlined in its report 'Ambitions for the Future'. It is one of the foundation's most important suggestions regarding the future of

**C6 Huw Lewis:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i astudio manteision economaidd posibl deuli ffordd Blaenau'r Cymoedd? (OAQ26418)

**Andrew Davies:** Fel gyda phob prosiect trafniadaeth mawr, gwnaed asesiad bras o fanteision economaidd posibl sy'n gysylltiedig â'r cynllun fel rhan o'r broses arfarnu. Bydd strategaethau datblygu economaidd Awdurdod Datblygu Cymru a'r awdurdodau lleol yn naturiol yn ceisio elwa ar y manteision economaidd posibl a ddaw yn sgîl y gwelliant cynyddol i'r ffordd.

**Huw Lewis:** Byddwch yn ymwybodol o'r disgwyl mawr yn y Cymoedd gogleddol ynglŷn â manteision economaidd posibl y gwaith hwnnw. Yr oedd yn un o awgrymiadau astudiaeth a gynhaliwyd gan Sefydliad Bevan, a amlinellir yn ei adroddiad 'Ambitions for the Future'. Mae'n un o awgrymiadau pwysicaf y sefydliad ynglŷn â

the upper and northern Valley communities. Will you undertake to meet representatives from the Bevan Foundation to discuss how the study might be taken forward?

**Andrew Davies:** Yes, I am more than happy to do that, as well as consider the wider issues of economic development and regeneration.

**David Davies:** Minister, do you realise that many residents in that area have suffered years of delays in receiving compensation after their property was compulsorily purchased to build that road? Do you agree that the economic benefits of the scheme will not be realised if people feel that they have been ripped off?

**Andrew Davies:** As I said in response to William Graham, major road schemes always have an impact, be it environmental, social—as is the case here—or economic. All these issues must be taken into account. If you know of any compensation problems that Sue Essex, as the Minister previously responsible, or I have not addressed, please inform me and I will follow them up.

**Leanne Wood:** We welcome the dualling of the Heads of the Valleys road, providing that it will result in jobs and prosperity being spread throughout the Valleys. Will you commit to ensuring that the road is effectively integrated with existing road networks in the Valleys, such as those in the Rhondda valley, so that more businesses will be attracted to the area? Such a move would also take pressure away from the M4 corridor.

**Andrew Davies:** The A465 Heads of the Valleys road is a crucial route in and out of Wales, and of the Valleys in particular. Too much emphasis has been placed in the past on considering the road in terms of the M4. The road has huge potential, as it means that heads of the Valleys communities, such as Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent and Ebbw Vale, are placed on a direct strategic route into the midlands, rather than simply being placed at the head of a valley. This relates to the point raised by Huw Lewis. One major

dyfodol cymunedau'r Cymoedd uchaf a gogleddol. A wnewch addo cwrdd â chynrychiolwyr o Sefydliad Bevan i drafod sut y gellir gweithredu ar yr astudiaeth?

**Andrew Davies:** Gwnaf, byddaf yn fwy na pharod i wneud hynny, yn ogystal ag ystyried materion ehangach datblygu economaidd ac adfywio.

**David Davies:** Weinidog, a ydych yn sylweddoli bod llawer o drigolion yn yr ardal honno wedi dioddef blynyddoedd o oedi cyn cael iawndal ar ôl i'w heiddo gael ei brynu'n orfodol i adeiladu'r ffordd honno? A gytnwch na wireddir manteision economaidd y cynllun os bydd pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu twyllo?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais mewn ymateb i William Graham, caiff cynlluniau ffyrdd o bwys effaith bob amser, boed yn amgylcheddol, yn gymdeithasol—fel yn yr achos hwn—neu'n economaidd. Rhaid i'r holl faterion hyn gael eu hystyried. Os gwyddoch am unrhyw broblemau iawndal nad yw Sue Essex, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb yn flaenorol, na minnau wedi mynd i'r afael â hwy, rhowch wybod imi, a byddaf yn ymchwilio iddynt.

**Leanne Wood:** Croesawn ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd, ar yr amod y bydd yn arwain at wasgaru swyddi a ffyniant ledled y Cymoedd. A wnewch ymrwymo i sicrhau bod y ffordd wedi'i hintegreiddio yn effeithiol gyda rhwydweithiau ffyrdd presennol yn y Cymoedd, megis y rhai yng nghwm Rhondda, fel y bydd mwy o fusnesau yn cael eu denu i'r ardal? Byddai yn lleihau'r pwysau ar goridor yr M4.

**Andrew Davies:** Mae Ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465, yn ffordd hollbwysig i mewn ac allan o Gymru, ac o'r Cymoedd yn enwedig. Rhoddwyd gormod o bwyslais yn y gorffennol ar ystyried y ffordd mewn perthynas â'r M4. Mae gan y ffordd bosibiliadau enfawr, gan ei bod yn golygu bod cymunedau yn y Cymoedd, megis Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Glynebwy ar lwybr strategol uniongyrchol i ganolbarth Lloegr, yn hytrach na bod ar ben uchaf cwm. Mae hyn yn ymwneud â'r pwynt a godwyd

challenge that we face is to enable those communities to see themselves as being well placed strategically, rather than being at the end of a valley. The point raised by the Bevan Foundation was well made, and I agree with it.

gan Huw Lewis. Un her fawr a wynebwn yw galluogi'r cymunedau hynny i weld eu hunain fel cymunedau mewn lleoliad da yn strategol, yn hytrach na bod ar ben cwm. Gwnaed y pwynt yn dda gan Sefydliad Bevan, a chytunaf ag ef.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration**

### **Gosod Tai yng Nghefn Gwlad Cymru Letting Houses in Rural Wales**

**Q1 Glyn Davies:** Will the Minister make a statement on the letting policy of local authorities and housing associations in rural Wales? (OAQ26464)

**C1 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi'r awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai ar gyfer gosod tai yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ26464)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** Councils must take account of the statutory code of guidance when letting properties. Housing associations must comply with regulatory requirements, which are currently under review and will be reissued as a regulatory code later this year.

**Y Gweinidog Dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Rhaid i gynghorau ystyried y cod cyfarwyddo statudol wrth osod tai. Rhaid i gymdeithasau tai gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, sydd ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu ac a gânt eu hailgyflwyno fel cod rheoleiddio yn ddiweddarach eleni.

**Glyn Davies:** My supplementary question relates to a sensitive issue. Do you accept that social housing can become unwelcome in communities where letting policy is based wholly on need, which often creates great social disruption? Do you agree that social housing providers must consider the link between applicants and the area where the social housing is located in order to prevent the creation of social housing that begets ghettos, social problems and local resentment?

**Glyn Davies:** Mae fy nghwestiwn atodol yn ymwneud â mater sensitif. A dderbyniwch y gall tai cymdeithasol ddod yn rhywbeth annerbyniol mewn cymunedau lle mae polisi gosod wedi'i seilio'n llwyr ar angen, sydd yn aml yn creu tarfu cymdeithasol mawr? A gytnwch fod rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol ystyried y cyswllt rhwng ymgeiswyr a'r ardal lle mae'r tai cymdeithasol wedi'u lleoli er mwyn peidio â chreu tai cymdeithasol sy'n arwain at ghettos, problemau cymdeithasol a drwgdeimlad lleol?

**Edwina Hart:** The code of guidance and the regulatory requirements currently contain sufficient flexibility to enable social landlords to work in partnership to develop letting policies to suit the areas in which they operate. However, the wider issues that you raised must also be taken into account. I think that all Members are in favour of social housing, but we all understand that there are wider issues. One example is priority being given to the children of elderly parents in terms of social housing needs. If you want to raise specific issues, please write to me and I will be delighted to follow them up.

**Edwina Hart:** Mae'r cod cyfarwyddo a'r gofynion rheoleiddio ar hyn o bryd yn cynnwys digon o hyblygrwydd i alluogi landlordiaid cymdeithasol i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu polisiau gosod sy'n addas i'r ardaloedd y maent yn gweithredu ynddynt. Fodd bynnag, rhaid ystyried y materion ehangach a godwyd gennych hefyd. Credaf fod yr holl Aelodau o blaid tai cymdeithasol, ond yr ydym i gyd yn deall bod materion ehangach yn gysylltiedig â hyn. Un enghraifft yw rhoi blaenoriaeth i blant rhieni hŷn o ran anghenion cymdeithasol penodol. Os hoffech godi materion penodol,

ysgrifennwch ataf a byddaf yn falch o'u codi ymhellach.

**Brian Gibbons:** I am sure that you are aware of the draft housing Bill currently being considered. Do you agree that this Bill goes some way to address the issues raised by Glyn, particularly in relation to the private sector, which is equally problematic? There is provision in the Bill for action to be taken in areas of particular difficulty. Such action includes registering landlords and asking them to demonstrate their competence in managing their facilities and so on.

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r Mesur tai drafft sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. A gytunwch fod y Mesur hwn yn mynd rhan o'r ffordd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Glyn, yn arbennig mewn perthynas â'r sector preifat, sydd yr un mor anodd? Mae darpariaeth yn y Mesur i gymryd camau mewn ardaloedd lle mae anhawster arbennig. Mae camau o'r fath yn cynnwys cofrestru landlordiaid a gofyn iddynt ddangos eu cymhwysedd i reoli eu cyfleusterau ac yn y blaen.

**Edwina Hart:** Wide-ranging issues arise from the draft housing Bill, and we have discussed these issues in Committee.

**Edwina Hart:** Mae materion eang yn codi o'r Mesur tai drafft, ac yr ydym wedi trafod y materion hyn yn y Pwyllgor.

**Janet Ryder:** Some areas in England have moved away from waiting lists and are experimenting with a system of advertising properties as they become available, and setting criteria for applicants. That is one way to ensure greater choice for tenants. Will you consider establishing such pilot schemes in Wales?

**Janet Ryder:** Mae rhai ardaloedd yn Lloegr wedi rhoi'r gorau i restrau aros ac maent yn arbrofi â system o hysbysebu eiddo wrth iddynt fod ar gael, a gosod meini prawf i ymgeiswyr. Mae hynny yn un ffordd o sicrhau mwy o ddewis i denantiaid. A wnewch ystyried sefydlu cynlluniau peilot o'r fath yng Nghymru?

**Edwina Hart:** One local authority is currently considering this issue. I would be delighted to update the Committee on issues arising from that.

**Edwina Hart:** Mae un awdurdod lleol yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd. Byddwn yn fwy na pharod i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar faterion sy'n codi o hynny.

2.30 p.m.

### **Strategaeth ar gyfer Adfywio Cymunedau The Community Regeneration Strategy**

**Q2 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on the community regeneration strategy of the Assembly Government? (OAQ26460)

**C2 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer adfywio cymunedau? (OAQ26460)

**Edwina Hart:** There is a range of approaches to community regeneration in Wales, some of which I am reviewing.

**Edwina Hart:** Mae nifer o ffyrdd o adfywio cymunedau yng Nghymru, ac yr wyf yn adolygu rhai ohonynt ar hyn o bryd.

**Lynne Neagle:** Are you aware of the success of community groups in my constituency in accessing funding from the Communities First trust fund? Examples of this success include the expansion of neighbourhood watch schemes in Trevechin and the building of gardens for older people in residential

**Lynne Neagle:** A ydych yn ymwybodol o lwyddiant grwpiau cymunedol yn fy etholaeth i gael arian o gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf? Mae enghreifftiau o'r llwyddiant hwn yn cynnwys ehangu cynlluniau gwarchod cymdogol yn Nhreffdyn a chreu gerddi i bobl

homes. Do you agree that initiatives like these make a real difference in Communities First areas across Wales? Will you give a commitment to continuing the trust fund in the long term, and will you consider whether more resources could be made available to the fund during the next budget planning round?

**Edwina Hart:** The Communities First trust fund has been an enormous success, and such small-scale local projects are the proof. I am reviewing the fund, but I have been pleased with the projects that have emerged from it.

**Owen John Thomas:** Last week, Cardiff County Council claimed in writing that it had not received Communities First funding from the Assembly. However, in answer to written questions, you advised me that the council has received almost £0.75 million: £320,000 for 2002-03 and £409,000 for 2003-04. Of the £320,000 allocated for 2002-03, only £16,000 has been spent, and this was on a consultation exercise in Ely. In view of Cardiff County Council's inexplicable handling of the National Assembly's funding and the delay suffered by people in deprived wards such as Butetown, which have been waiting a long time to develop their community centre, what action will you take to put the financial record straight and speed up the use of the much-needed Communities First funding?

**Edwina Hart:** I stand by my answer to your written questions in respect of the allocation of funds to Cardiff council. I am mindful of the way in which all local authorities spend their money, and I am regularly updated on local authorities' progress on Communities First projects. I will pursue these matters. The Social Justice and Regeneration Committee asked me this morning to consider the issue of Communities First funding, and the Deputy Minister for Communities, Huw Lewis, will prepare a detailed report for the Committee when he undertakes the review of Communities First.

hŷn mewn cartrefi preswyl. A gytunwch fod mentrau fel y rhain yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru? A roddwch ymrwymiad i barhau â'r gronfa ymddiriedolaeth yn yr hirdymor, ac a wnewch ystyried a ellid rhoi mwy o adnoddau i'r gronfa yn ystod y cylch cynllunio cyllideb nesaf?

**Edwina Hart:** Bu cronfa Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiant enfawr, ac mae prosiectau lleol bach o'r fath yn brawf o hynny. Yr wyf yn adolygu'r gronfa, ond yr wyf wedi fy modloni gan y prosiectau sydd wedi deillio ohoni.

**Owen John Thomas:** Yr wythnos diwethaf, honnodd Cyngor Sir Caerdydd mewn llythyr nad oedd wedi cael arian Cymunedau yn Gyntaf gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mewn ateb i gwestiynau ysgrifenedig, dywedasoeh wrthyf fod y cyngor wedi cael bron £0.75 miliwn: £320,000 ar gyfer 2002-03 a £409,000 ar gyfer 2003-04. O'r £320,000 a ddyrannwyd ar gyfer 2002-03 dim ond £16,000 a wariwyd, a hynny ar ymgynghoriad yn Nhrelái. O ystyried y ffordd anesboniadwy y mae Cyngor Sir Caerdydd wedi trafod arian y Cynulliad Cenedlaethol a'r oedi a ddioddefodd pobl mewn wardiau difreintiedig megis Butetown, sydd wedi bod yn aros am amser maith i ddatblygu eu canolfan gymunedol, pa gamau a gymerwch i gadarnhau beth yw'r sefyllfa ariannol yn union a sicrhau bod arian Cymunedau yn Gyntaf y mae angen mawr amdano yn cael ei ddefnyddio'n gyflymach?

**Edwina Hart:** Glynaf at fy ateb i'ch cwestiynau ysgrifenedig mewn perthynas â dyrannu arian i gyngor Caerdydd. Yr wyf yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r holl awdurdodau lleol yn gwario eu harian, a chaf y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson ar gynnydd awdurdodau lleol ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Byddaf yn mynd ar drywydd y materion hyn. Gofynnodd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio imi y bore yma ystyried arian Cymunedau yn Gyntaf, a bydd Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Gymunedau, yn paratoi adroddiad manwl ar gyfer y Pwyllgor pan fydd yn cynnal adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf.

**John Griffiths:** Just as politicians are not always recognised as the fine, upstanding, loveable people we undoubtedly are, it is not fully realised that lawyers, solicitors and barristers are keen to give freely of their time and expertise without charge. Will you attempt to ensure that all community regeneration groups in Wales are aware of the pro bono scheme, which offers free legal advice and assistance?

**Edwina Hart:** I am happy to take your point forward and to ask officials to send appropriate information to Communities First areas.

**Mick Bates:** Minister, I am sure that we all share your good intentions with regard to community regeneration in Wales. Lynne Neagle gave examples of the good work that has been done in her constituency; there are many such projects throughout Wales. However, many voluntary community groups face significant problems in accessing the funding that you tell us is available. Will you undertake to ensure that the application process is as simple as possible and remove the red tape and bureaucracy that is a barrier to these groups' accessing the money that you are making available?

**Edwina Hart:** In terms of my current portfolio, with regard to applications for Communities First grants, I have some of the most accessible arrangements. Accessing funds is a wider issue and Huw Lewis will consider it as part of the Communities First review, as well as whether we can establish a helpline or other arrangements for community groups. My portfolio also includes the voluntary sector, to which you alluded, and I will be making a statement on funding for this sector. However, I am concerned that small voluntary-sector groups do not seem to be able to access the funds properly.

**John Griffiths:** Yn union fel na fydd gwleidyddion bob amser yn cael eu cydnabod fel y bobl wych, union, hoffus yr ydym yn ddi-ddadl, ni sylweddolir yn llawn fod cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn awyddus i roi o'u hamser a'u harbenigedd am ddim. A wnewch ymdrechu i sicrhau bod pob grŵp adfywio yng Nghymru yn ymwybodol o'r cynllun pro bono, sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfreithiol am ddim?

**Edwina Hart:** Byddaf yn falch o weithredu ar eich pwynt, a gofyn i swyddogion anfon y wybodaeth briodol i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Mick Bates:** Weinidog, yr wyf yn siŵr bod pob un ohonoch yn rhannu eich bwriadau da mewn perthynas ag adfywio cymunedol yng Nghymru. Rhoddodd Lynne Neagle enghreifftiau o'r gwaith da a wnaed yn ei hetholaeth; mae llawer o brosiectau o'r fath ledled Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau cymuned gwirfoddol yn wynebu problemau sylweddol o ran cael gafael ar yr arian sydd ar gael meddech chi. A wnewch addo sicrhau bod y broses gwneud cais yn un mor syml â phosibl a dileu'r fiwrocratiaeth sy'n rhwystro'r grwpiau hyn rhag cael gafael ar yr arian yr ydych yn ei ddarparu?

**Edwina Hart:** O ran fy mhortffolio presennol, ynglŷn â cheisiadau am grantiau Cymunedau yn Gyntaf, mae fy nhrefniadau i gyda'r trefniadau mwyaf hygyrch. Mae cael gafael ar arian yn fater ehangach a bydd Huw Lewis yn ei ystyried fel rhan o'i adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal ag a allwn sefydlu llinell gymorth neu wneud trefniadau eraill ar gyfer grwpiau cymuned. Mae fy mhortffolio hefyd yn cynnwys y sector gwirfoddol, y bu ichi gyfeirio ato, a byddaf yn gwneud datganiad ar arian ar gyfer y sector hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu nad yw grwpiau bach yn y sector gwirfoddol fel petaent yn gallu hawlio'r arian yn gywir.

### **Cau Gorsafoedd Tân yng Nghefn Gwlad The Closure of Rural Fire Stations**

**Q3 Lisa Francis:** Will the Minister make a statement about the closure of rural fire stations? (OAQ26379)

**C3 Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cau gorsafoedd tân yng Nghefn gwlad? (OAQ26379)

**Edwina Hart:** Policy responsibility for the fire service in Wales, including the location of rural and other fire stations, is currently a non-devolved matter, which falls within the remit of the Office of the Deputy Prime Minister. I refer you to the statement I made yesterday about future arrangements.

**Lisa Francis:** I note what you said yesterday. It seems possible, or highly likely, that the UK Government will still seek power to order fire authorities to dispose of assets. As this could mean the transfer of assets from one fire authority to another, which could lead to the sale of rural fire stations, what steps will the Welsh Assembly Government take to ensure that this does not happen? We need more fire officers in rural areas, and to retain our fire stations there, particularly during the summer months when the population expands because of tourists.

**Edwina Hart:** I am mindful of the points that were made in yesterday's debate as well as those you raise today. When the responsibility for the fire service is devolved to Wales, I will discuss these issues with fire officers and authorities. I made it clear yesterday that I look for a quality service for the people of Wales and for all the wonderful tourists who visit Wales and enhance our economy.

**Leanne Wood:** I asked you yesterday to commit to not reducing fire cover or closing fire stations. While I accept your answer, in that we can never say never, are you prepared to undertake not to implement the Bain proposals on downsizing the fire service?

**Edwina Hart:** I will be advised in all these matters by the people who have operational control of the fire service, namely the fire officers.

**Edwina Hart:** Mae'r cyfrifoldeb polisi dros y gwasanaeth tân yng Nghymru gan gynnwys lleoliad gorsafoedd tân yng nghefn gwlad a gorsafoedd tân eraill ar hyn o bryd, yn fater nas datganolwyd, sy'n rhan o gylich gwaith Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad a wneuthum ddoe am y trefniadau at y dyfodol.

**Lisa Francis:** Nodaf yr hyn a ddywedwyd gennych ddoe. Mae'n ymddangos yn bosibl, neu'n debygol iawn, y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio'r pŵer i orchymyn awdurdodau tân i waredu asedau. Gan y gallai hyn olygu trosglwyddo asedau o un awdurdod tân i'r llall, a allai arwain at werthu gorsafoedd tân yng Nghefn Gwlad, pa gamau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd? Mae angen inni gael rhagor o swyddogion tân mewn ardaloedd gwledig, a chadw ein gorsafoedd tân yno, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan fydd y boblogaeth yn chwyddo oherwydd ymwelwyr.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o'r pwyntiau a wnaed yn y ddadl ddoe ynghyd â'r rhai a godwch heddiw. Pan gaiff y cyfrifoldeb dros y gwasanaeth tân ei ddatganoli i Gymru, byddaf yn trafod y materion hyn gyda swyddogion tân ac awdurdodau tân. Eglurais ddoe fy mod am gael gwasanaeth o safon i bobl Cymru ac i'r holl ymwelwyr gwych sy'n ymweld â Chymru ac yn ychwanegu at ein heconomi.

**Leanne Wood:** Gofynnais ichi ddoe ymrwymo i beidio â lleihau darpariaeth gwasanaethau tân na chau gorsafoedd tân. Er y derbyniaf eich ateb, yn yr ystyr na allem fyth ddweud na all rhywbeth byth ddigwydd, a ydych yn barod i roi addewid i beidio â gweithredu argymhellion Bain ar leihau maint y gwasanaeth tân?

**Edwina Hart:** Byddaf yn cael cyngor ar yr holl faterion hyn gan y bobl sydd â rheolaeth weithredol dros y gwasanaeth tân, sef y swyddogion tân.

### Cam-drin Cyffuriau ac Alcohol Drug and Alcohol Abuse

**Q4 Kirsty Williams:** Will the Minister make

**C4 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog

a statement on plans to tackle drug and alcohol abuse in mid Wales? (OAQ26384)

**Q6 Alun Cairns:** What new initiatives is the Minister planning to combat drug abuse? (OAQ26395)

**Q7 Peter Black:** What discussions has the Minister had with the UK Government on the Welsh Assembly Government's policy on substance misuse? (OAQ26398)

**Edwina Hart:** I will continue to press ahead with the work I started last year. My main focus will remain on the delivery of the four key aims of the Welsh substance misuse strategy: children, young people and adults; families and communities; treatment; and availability. The new substance misuse advisory regional teams will work closely with community safety partnerships to develop local strategies to help achieve these aims. Both myself and other Assembly officials are represented on a number of UK-wide substance misuse groups.

**Kirsty Williams:** Do you agree with me, and officials at the British Medical Association, that the new provisions for local enhanced services under the GP contract offer an opportunity to improve aspects and the availability of care in the primary care sector and could potentially lead to a consistent all-Wales strategy on prescribing methadone? What discussions have you had with Jane Hutt to ensure that that money is invested in primary care?

**Edwina Hart:** Your point is well made. I have ongoing discussions with the Minister for Health and Social Services, and I will return to this issue after the development of this policy agenda is discussed in Committee in September.

**Alun Cairns:** Are you concerned that, under the current regime, those who are convicted of drug offences have the option of immediate treatment whereas those who seek help out of their own motivation are forced to

ddatganiad ar gynlluniau i fynd i'r afael â cham-drin cyffuriau ac alcohol yn y Canolbarth? (OAQ26384)

**C6 Alun Cairns:** Pa fentrau newydd y mae'r Gweinidog yn eu cynllunio i fynd i'r afael â cham-drin cyffuriau? (OAQ26395)

**C7 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin sylweddau? (OAQ26398)

**Edwina Hart:** Byddaf yn parhau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith a ddechreuais y llynedd. Byddaf yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno pedwar nod allweddol strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru: plant, pobl ifanc ac oedolion; teuluoedd a chymunedau; triniaeth; ac argaeledd. Bydd y timau rhanbarthol ymgynghorol newydd ar gamddefnyddio sylweddau yn gweithio'n glôs gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol i ddatblygu strategaethau lleol i helpu i gyrraedd y nodau hyn. Yr wyf fi a swyddogion eraill yn y Cynulliad wedi ein cynrychioli ar nifer o grwpiau ar gamddefnyddio sylweddau i'r DU gyfan.

**Kirsty Williams:** A gytunwch â mi, a swyddogion yn y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, fod y darpariaethau newydd ar gyfer gwasanaethau lleol gwell o dan y cynnig contract i feddygon teulu yn gyfle i wella agweddau a sicrhau bod mwy o ofal ar gael yn y sector gofal sylfaenol ac y gallent o bosibl arwain at strategaeth gyson ac addas i Gymru gyfan ar gyfer rhagnodi methadon? Pa drafodaethau a gawsoch gyda Jane Hutt i sicrhau y bydd yr arian hwnnw'n cael ei fuddsoddi mewn gofal sylfaenol?

**Edwina Hart:** Gwnewch eich pwynt yn dda. Caf drafodaethau parhaus gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a byddaf yn dychwelyd at y mater ar ôl i ddatblygiad yr agenda polisi hon gael ei drafod yn y Pwyllgor ym mis Medi.

**Alun Cairns:** A ydych yn pryderu bod gan y rhai a gollfernir o droseddau yn ymwneud â chyffuriau y dewis, o dan y drefn bresennol, o gael triniaeth ar unwaith, ond bod yn rhaid i'r rhai sy'n gofyn am gymorth o'u gwirfodd



join a waiting list? Do you agree that, of all the treatments in the NHS and social services, this should not be subject to a waiting list because of the enormous social cost of drug abuse?

**Edwina Hart:** I made it clear when I took over responsibility for this that my aim is that, if anyone wants treatment, they should receive it immediately. As part of my ongoing review of the service, on which I will report to the Committee in September, I will address some of these issues in terms of funding needs and requirements across Wales.

**Peter Black:** When you report to the Social Justice and Regeneration Committee in September, will you place particular emphasis on the shortage of rehabilitation beds for substance misusers? This situation is acute in large parts of Wales and requires urgent attention.

**Edwina Hart:** Hopefully, the report will draw out these issues for us to consider, because needs across Wales often vary. Some people raise concerns relating to a lack of beds, whereas some professionals say that that is not the issue. We need to get the right balance and we need a proper discussion, which can only take place when I deliver this report.

**Leighton Andrews:** Are you aware that there are rumours in the Rhondda that the local council has changed its view on whether additional detox beds are needed for drug treatment? Do you have a view on those rumours?

**Edwina Hart:** The rumours have come to my attention. I have asked officials to liaise with Rhondda Cynon Taf County Borough Council, because I have had many representations from council members, and Assembly Members, on issues relating to Rhondda Cynon Taf. When I receive a formal response, I will place it in the Library.

**Helen Mary Jones:** When you report to the Committee in September, will you ensure that the strategy that you propose includes

ymuno â rhestr aros? A gytunwch, o blith holl driniaethau'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol, na ddylai neb orfod bod ar restr aros oherwydd cost gymdeithasol anferth camddefnyddio cyffuriau?

**Edwina Hart:** Eglurais pan ymgymerais â'r cyfrifoldeb dros hyn mai fy nod yw y dylai unrhyw rai, os oes angen triniaeth arnynt, ei chael ar unwaith. Fel rhan o'm hadolygiad parhaus o'r gwasanaeth, y byddaf yn rhoi adroddiad arno i'r Pwyllgor ym mis Medi, byddaf yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn o ran anghenion ariannu a gofynion ledled Cymru.

**Peter Black:** Pan fyddwch yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Medi, a roddwch bwyslais arbennig ar brinder gwelyau ailsefydlu ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau? Mae'r sefyllfa hon yn ddwys mewn rhannau helaeth o Gymru ac mae'n gofyn am sylw brys.

**Edwina Hart:** Bydd yr adroddiad, gobeithio, yn codi'r materion hyn inni eu hystyried, gan fod anghenion ar draws Cymru, yn aml, yn amrywio. Bydd rhai pobl yn codi pryderon yn ymwneud â diffyg gwelyau, tra bydd rhai gweithwyr proffesiynol yn dweud nad yw hynny'n broblem. Mae angen inni gael cydbwysedd iawn ac mae angen inni gael trafodaeth iawn, na all ddigwydd ond pan gyflwynaf yr adroddiad hwn.

**Leighton Andrews:** A ydych yn ymwybodol bod sibrydion yn y Rhondda bod y cyngor lleol wedi newid ei farn pa un a oes angen gwelyau diddyfnu ar gyfer triniaeth cyffuriau? A oes gennych farn ar y sibrydion hynny?

**Edwina Hart:** Daeth y sibrydion i'm sylw. Gofynnais i swyddogion gydlynw â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gan imi gael llawer o sylwadau gan aelodau'r cyngor, a chan Aelodau'r Cynulliad, ar faterion yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf. Pan gaf ateb ffurfiol, byddaf yn ei osod yn y Llyfrgell.

**Helen Mary Jones:** Pan fyddwch yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Medi, a wnewch sicrhau bod y strategaeth a

services and treatment for dealing with those who become inappropriately dependent on prescription drugs like tranquillisers? That often happens to people who have undergone treatment for illegal drug use or alcohol abuse.

gynigiwch yn cynnwys gwasanaethau a thriniaeth ar gyfer delio â'r rhai sy'n dod yn amhriodol ddibynnol ar gyffuriau wedi'u rhagnodi fel tawelyddion? Bydd hynny'n digwydd yn aml i bobl sydd wedi cael triniaeth am ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon neu gamddefnyddio alcohol.

2.40 p.m.

**Edwina Hart:** I will certainly consider that, Helen. I will not make any promises, because the report is wide ranging. I will consider what I can do in terms of discussions, possibly with the Minister for Health and Social Services as well.

**Edwina Hart:** Byddaf yn sicr yn ystyried hynny, Helen. Ni roddaf unrhyw addewidion, oherwydd bod yr adroddiad yn eang ei gwmpas. Byddaf yn ystyried yr hyn y gallaf ei wneud o ran trafodaethau, o bosibl gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** I thank the Minister for her undoubted commitment, but she has previously mentioned the need for rehabilitation centres and beds. There is a dire shortage of both in mid Wales. Will the Minister consider that, as there is a crying need for it?

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Diolchaf i'r Gweinidog am ei hymrwymiad diamheuol, ond mae yn flaenorol wedi sôn am yr angen am ganolfannau a gwelyau ailsefydlu. Mae prinder mawr o'r ddau yn y Canolbarth. A wnaiff y Gweinidog ystyried hynny, gan fod angen dybryd am hyn?

**Edwina Hart:** I would be happy to consider that. I am considering the whole issue across Wales. We must get this right for future generations. It is important that, when people make the decision that they no longer want to take drugs, or be an alcoholic, the appropriate treatment facilities are available to them.

**Edwina Hart:** Byddwn yn barod i ystyried hynny. Yr wyf yn ystyried y mater cyfan ar draws Cymru. Rhaid inni gael hyn yn iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n bwysig bod y cyfleusterau triniaeth addas ar gael i bobl pan fyddant yn gwneud y penderfyniad nad ydynt bellach am gymryd cyffuriau, na bod yn alcoholig.

**Leanne Wood:** The sum of £1.4 billion is spent on enforcement on a UK level. That money goes towards police, prisons, customs and courts. Around 70 per cent of all drugs offences relate to cannabis. Do you agree that, if we decriminalised cannabis, the money currently spent on enforcement could be ploughed into securing more rehabilitation beds, which are so badly needed in Wales?

**Leanne Wood:** Mae'r swm o £1.4 biliwn yn cael ei wario ar orfodi ar lefel y DU. Gwerir yr arian hwnnw ar yr heddlu, carchardai, y tollau a'r llysoedd. Mae tua 70 y cant o'r holl droseddau cyffuriau yn ymwneud â chanabis. A gytunwch, pe baem yn cyfreithloni canabis, y gellid defnyddio'r arian a werir ar orfodi ar hyn o bryd i sicrhau rhagor o welyau ailsefydlu, y mae dirfawr angen amdanynt yng Nghymru?

**Edwina Hart:** I do not agree with the decriminalisation of cannabis.

**Edwina Hart:** Ni chytunaf â chyfreithloni canabis.

#### **Gweithgor Diogelwch Tân Fire Safety Working Group**

**Q5 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on the forward work programme of

**C5 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flaenraglen waith gweithgor

the Assembly Government's fire safety working group? (OAQ26381)

**Edwina Hart:** The community fire safety working group has now fulfilled its remit with the publication of 'Wired for Safety' and 'Up in Flames', which considered the issue of domestic fires and arson respectively. There are no further plans for the group to undertake additional work. However, it is due to meet again shortly to discuss how best to take forward the recommendations contained in 'Up in Flames' and the composition of a strategic steering group to oversee that development.

We continue to foster close working relationships with the fire services and others working in the field and, with the establishment of the Wales community fire safety trust, that will be much easier. That means that we will be able to effectively take forward our fire policy objectives in the future on the back of those reports.

**Ann Jones:** Will you join me in praising the work that the North Wales Fire Service is currently undertaking with the Young Firefighters Association? Another scheme has opened recently in Prestatyn. It brings the whole community together, including the industrial fire services, such as Warwick International Group Ltd, which are sometimes forgotten. More importantly, those schemes involve young people. Do you agree that such schemes are vital to promoting fire safety among young people, and also to highlighting the dangers of the actions of a small minority in our society who take pleasure in committing arson and making hoax calls? Will you ask the fire safety working group to consider how such schemes can be rolled out across Wales?

**Edwina Hart:** I welcome the North Wales Fire Service's initiatives; it is an excellent scheme. I have also seen some wonderful examples in south Wales. It is a positive development in making young people aware of fire safety issues. I will not ask the groups concerned, but I will ask my officials to discuss with the fire service how we can further assist with the development of these schemes. The fact that young people are

diogelwch tân Llywodraeth y Cynulliad? (OAQ26381)

**Edwina Hart:** Mae'r gweithgor diogelwch tân cymunedol bellach wedi cyflawni ei gylch gwaith gyda chyhoeddiad 'Wired for Safety' a 'Up in Flames', a ystyriodd danau yn y cartref a chynnau tân yn fwriadol yn y drefn honno. Nid oes cynlluniau pellach i'r grŵp ymgymryd â gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, bydd y gweithgor yn cyfarfod eto yn fuan i drafod y ffordd orau o ddatblygu'r argymhellion a geir yn 'Up in Flames' ac aelodaeth grŵp llywio strategol i arolygu'r datblygiad hwnnw.

Parhawn i feithrin perthynas waith agos â'r gwasanaethau tân ac eraill sy'n gweithio yn y maes a, phan gaiff ymddiriedolaeth diogelwch tân cymunedol Cymru ei sefydlu, bydd hynny yn llawer haws. Golyga hynny y byddwn yn gallu datblygu ein hamcanion polisi tân yn effeithiol yn y dyfodol ar sail yr adroddiadau hynny.

**Ann Jones:** A ymunwch â mi i longyfarch y gwaith a wna Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar hyn o bryd gyda'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc? Agorodd cynllun arall yn ddiweddar ym Mhrestatyn. Mae'n dwyn y gymuned gyfan ynghyd, gan gynnwys y gwasanaethau tân diwydiannol megis y Warwick International Group Cyf, a anghofir weithiau. Yn bwysicach na hynny, mae'r cynlluniau hynny yn cynnwys pobl ifanc. A gytunwch fod cynlluniau o'r fath yn hollbwysig i hyrwyddo diogelwch tân ymhlith pobl ifanc, a hefyd i danlinellu peryglon gweithredoedd lleiafrif bach yn ein cymdeithas, sy'n mwynhau cynnau tanau yn fwriadol a gwneud galwadau ffug? A wnewch ofyn i'r gweithgor diogelwch tân ystyried sut y gall cynlluniau o'r fath gael eu cyflwyno ledled Cymru?

**Edwina Hart:** Croesawaf fentrau Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru; mae'n gynllun ardderchog. Yr wyf hefyd wedi gweld enghreifftiau ardderchog yn y De. Mae'n ddatblygiad cadarnhaol i wneud pobl ifanc yn ymwybodol o faterion diogelwch tân. Ni ofynnaf i'r grwpiau perthnasol, ond gofynnaf i'm swyddogion drafod gyda'r gwasanaeth tân sut y gallwn gynorthwyo ymhellach gyda datblygiad y cynlluniau hyn.

becoming involved with the fire service, which provides excellent role models, is good news for communities.

**Mark Isherwood:** I support all practical proposals for cohesive and sustainable north Wales transport links. However, coaches need a modern and efficient road network. Given Alun Cairns's comments—sorry, I am asking the wrong question. How will the Minister involve voluntary, charitable and private stakeholders as true partners in the delivery of public education on fire safety and fire prevention, so that practical measures may be taken on the frontline to prevent fire-related deaths and injuries?

**Edwina Hart:** The community fire safety trust will deal with many of those issues. Now that responsibility for the fire service will be devolved, the Assembly will have a more hands-on approach to these issues. I know that my colleagues in education also reiterate that. You only need to consider the number of arson attacks on schools to realise that this is also a key education issue. I am also hopeful that our policies regarding sprinklers in schools will move forward.

**Brian Gibbons:** You will be aware that the school holidays are approaching. Hopefully, we will have a long, hot summer, but that increases the risks of mountain and forest fires. Will you ensure that the prevention group considers this issue, as it is important in many communities, particularly the upper-valley communities across south Wales?

**Edwina Hart:** I know that the fire service is concerned about that, and I will take the matter up. Schoolchildren must be educated about the dangers of fire. Anyone who sees at first hand the consequences of a fire would understand that it is not a matter of idly playing with matches or creating havoc; it can cause grief and death.

Mae'r ffaith bod pobl ifanc yn ymwneud â'r gwasanaeth tân, sy'n batrwm ardderchog iddynt, yn newyddion da i gymunedau.

**Mark Isherwood:** Cefnogaf bob cynnig ymarferol ar gyfer cysylltiadau trafniadaeth cydlynus a chynaliadwy yn y Gogledd. Fodd bynnag, mae angen rhwydwaith ffyrdd modern ac effeithlon ar fysiau. O gofio sylwadau Alun Cairns—mae'n ddrwg gennyf, yr wyf yn gofyn y cwestiwn anghywir. Sut y bydd y Gweinidog yn cynnwys rhanddeiliaid gwirfoddol, elusennol a phreifat fel gwir bartneriaid yn y gwaith o addysgu'r cyhoedd ar ddiogelwch tân ac atal tân, fel y gellir cymryd camau ymarferol ar y rheng flaen i atal marwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â than.

**Edwina Hart:** Bydd yr ymddiriedolaeth diogelwch tân cymunedol yn ymdrin â llawer o'r materion hynny. Gan fod y cyfrifoldeb dros y gwasanaeth tân yn cael ei ddatganoli bellach, bydd y Cynulliad yn ymdrin yn fwy uniongyrchol â'r materion hyn. Gwn fod fy nghydweithwyr mewn addysg hefyd yn ategu hynny. Nid oes ond rhaid ichi ystyried nifer yr achosion o gynnuau tân yn fwriadol mewn ysgolion i sylweddoli bod hyn hefyd yn fater addysgol allweddol. Yr wyf hefyd yn obeithiol y bydd ein polisiau ynglŷn â thaenellwyr mewn ysgolion yn datblygu.

**Brian Gibbons:** Byddwch yn ymwybodol bod y gwyliau ysgol yn dynesu. Gobeithiaf y cawn haf hirfelyn tesog, ond mae hynny'n cynyddu'r risg o danau mynydd a choedwig. A wnewch sicrhau bod y grŵp atal yn ystyried y mater hwn, gan ei fod yn bwysig mewn sawl cymuned, yn enwedig cymunedau blaenau'r cymoedd ar draws y De?

**Edwina Hart:** Gwn fod y gwasanaeth tân yn pryderu am hynny, a byddaf yn codi'r mater. Rhaid i blant ysgol gael eu haddysgu am beryglon tân. Bydd unrhyw un sy'n cael profiad personol o ganlyniadau tân yn deall nad mater o chwarae yn ddi-hid gyda matsys neu greu llanastr ydyw; gall achosi galar a marwolaeth.

## **Datganiad ar Negodiadau ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin** **Statement on the Common Agricultural Policy Reform Negotiations**

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** The common agricultural policy was originally framed in the decades after the second world war, when the goal was to increase domestic food production to avoid food shortages. However, the globalisation of world trade and earlier attempts to reform the CAP have left European Union farmers more exposed to global competition, dependent upon subsidies for their income, isolated from consumers and hide-bound by red tape and bureaucracy.

In November 2001, we launched the Welsh Assembly's strategy document, 'Farming for the Future: A New Direction for Farming in Wales'. One of its key objectives was to influence the UK Government and the EU to secure a trading and subsidy framework that would develop a sustainable agricultural industry for Wales. The CAP reforms that were agreed in Luxembourg last week meet that objective and will benefit the industry and rural communities in Wales. The centrepiece of the new package is the decoupling of subsidies from production based payments. From January 2005 member states, and regions of member states such as ourselves, will have the opportunity to break the link between farm subsidies and production. The plethora of existing CAP direct subsidy schemes, including the arable, cattle and sheep schemes, will be replaced by a single farm payment. Whereas farmers currently have to maintain a particular level of production, such as a certain number of animals or the area of land that is under crop, and comply with rules and regulations on retention periods, quotas and so on, decoupling means that farmers will no longer have to do this. They will be free to focus on what consumers and the markets want. Farmers will no longer be caught in the trap of having to chase subsidies to secure an income. Instead, they will be able to concentrate on further improving the quality of their produce and the environment.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Lluniwyd y polisi amaethyddol cyffredin yn wreiddiol yn y degawdau wedi'r ail ryfel byd. Bryd hynny y nod oedd cynyddu lefelau cynhyrchu bwyd mewnwladol er mwyn osgoi prinder bwyd. Fodd bynnag, yn sgîl globaleiddio masnach y byd a'r ymdrechion cynharach i ddiwygio'r PAC mae ffermwyr yr Undeb Ewropeaidd yn fwy agored i gystadleuaeth fyd-eang, yn dibynnu ar gymorthdaliadau am eu hincwm, wedi'u hynysu oddi wrth y defnyddwyr ac wedi'u llyffetheirio gan fïwrocratiaeth.

Ym mis Tachwedd 2001, lanswyd dogfen strategaeth Llywodraeth y Cynulliad gennym: 'Ffermio i'r Dyfodol: Cyfeiriad Newydd i Ffermio yng Nghymru'. Un o'i phrif amcanion oedd dylanwadu ar Lywodraeth y DU a'r UE i sicrhau fframwaith masnach a chymhorthdal a fyddai'n datblygu diwydiant amaethyddol cynaliadwy i Gymru. Mae'r diwygiadau i'r PAC y cytunwyd arnynt yn Lwcsembwrg yr wythnos diwethaf yn cyflawni'r amcan hwnnw a byddant o fudd i'r diwydiant ac i gymunedau gwledig yng Nghymru. Conglfaen y pecyn newydd yw datgysylltu cymorthdaliadau oddi wrth daliadau sy'n seiliedig ar gynhyrchu. O fis Ionawr 2005 bydd gan aelod wladwriaethau, a rhanbarthau o fewn aelod wladwriaethau fel ni, y cyfle i dorri'r cysylltiad rhwng cymorthdaliadau i ffermwyr a chynhyrchu. Bydd un taliad i ffermwyr yn disodli'r lluo o gynlluniau cymhorthdal uniongyrchol, gan gynnwys cynlluniau tir â'r, gwartheg a defaid, o dan y PAC presennol. Tra bod yn rhaid i ffermwyr ar hyn o bryd gynhyrchu lefel benodol, megis nifer benodol o anifeiliaid neu'r arwynebedd o dir y tyfir cnwd arno, a chydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfnodau cadw, cwotâu ac yn y blaen, o ganlyniad i ddatgysylltu ni fydd yn rhaid i ffermwyr wneud hyn mwyach. Bydd rhyddid ganddynt i ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r defnyddwyr a'r marchnadoedd am ei gael. Ni fydd ffermwyr mwyach yn y fagl o orfod mynd ar drywydd cymorthdaliadau er mwyn cael incwm. Yn hytrach, gallant ganolbwyntio ar wella ansawdd eu cynnyrch

a'r amgylchedd ymhellach.

The single farm payment will be based on historic CAP claims in the three-year period from 2000 to 2002. A national reserve of 3 per cent will be established to cover payments for farmers who otherwise might not be able to demonstrate their entitlement in relation to this period. The new payment will be subject to farmers meeting minimum standards, referred to as cross compliance. The standards must be met in key areas such as the environment and animal health and welfare. Farmers will also have to keep the land in good agricultural and environmental condition.

There is a provision relating to a national envelope, which enables member states, or regions such as Wales, to retain up to 10 per cent of payments to develop targeted schemes to promote sustainable and environmentally-friendly farming. For example, this could be used to encourage the retention of suckler cows in the less favoured areas of Wales. It will also be open to member states to choose, at a national or regional level, to maintain payments coupled to production for up to 25 per cent of arable payments, for up to 50 per cent of sheep annual premium and the less favoured area supplement, and, for beef, for up to 100 per cent of the suckler cow premium and 40 per cent of the slaughter premium, or 100 per cent of the slaughter premium, or 75 per cent of the beef special premium payments.

It has been agreed to retain milk quotas until 2014, but there is a commitment to review future milk quota allocation in 2008. Some market support price cuts were agreed, but at a lower rate than expected. The dairy premium scheme, due to commence in 2004, will remain as a production-linked payment until the dairy reforms are fully implemented in 2008. However, if member states opt for the single farm payment to be implemented on a regional basis, the dairy premium could be decoupled before 2008.

There will also be EU-wide compulsory modulation commencing in 2005, switching some support away from production-based

Bydd un taliad i ffermwyr yn seiliedig ar geisiadau PAC hanesyddol yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2000 a 2002. Caiff cronfa wrth gefn genedlaethol o 3 y cant ei sefydlu ar gyfer taliadau i ffermwyr na allent fel arall brofi eu hawl mewn perthynas â'r cyfnod hwn. Bydd yn rhaid i ffermwyr fodloni safonau gofynnol, y cyfeirir atynt fel trawsgydymffurfio, cyn cael y taliad newydd. Rhaid cyrraedd y safonau mewn meysydd allweddol megis yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid. Bydd yn rhaid i ffermwyr hefyd gadw'r tir mewn cyflwr da yn amaethyddol ac yn amgylcheddol.

Mae amod sy'n ymwneud ag amlen genedlaethol, sy'n galluogi aelod wladwriaethau, neu ranbarthau megis Cymru, i gadw hyd at 10 y cant o daliadau er mwyn datblygu cynlluniau wedi'u targedu i hyrwyddo dulliau ffermio cynaliadwy sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Er enghraifft, gellid defnyddio hyn i annog ffermwyr i gadw buchod sugno yn ardaloedd llai ffafriol Cymru. Bydd rhyddid hefyd gan aelod wladwriaethau, ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, i ddewis parhau â thaliadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu am hyd at 25 y cant o daliadau tir â'r, am hyd at 50 y cant o'r premiwm blynyddol defaid a'r taliad atodol i ardaloedd llai ffafriol, ac, ar gyfer cig eidion, am hyd at 100 y cant o'r premiwm buchod sugno a 40 y cant o'r premiwm lladd, neu 100 y cant o'r premiwm lladd, neu 75 y cant o'r taliadau premiwm arbennig eidion.

Cytunwyd i gadw'r cwotâu llaeth tan 2014, ond mae ymrwymiad i adolygu'r ffordd y caiff cwotâu llaeth eu dyrannu yn y dyfodol yn 2008. Cytunwyd i dorri ar rai prisiau cymorth i'r farchnad, ond ar gyfradd is na'r disgwyl. Bydd y cynllun premiwm llaeth, a fydd yn dechrau yn 2004, yn parhau'n daliad sy'n gysylltiedig â chynhyrchu hyd nes y caiff y diwygiadau llaeth eu gweithredu'n llawn yn 2008. Fodd bynnag, os bydd aelod wladwriaethau yn dewis gweithredu un taliad i ffermwyr yn rhanbarthol, gellid datgysylltu'r premiwm llaeth cyn 2008.

Bydd modiweiddio gorfodol ar draws yr UE cyfan yn dechrau yn 2005 hefyd, gan droi cymorth o gymorthdaliadau sy'n seiliedig ar

I am sure that you would agree that a period of more than three months, even with the Assembly elections, has passed since the Assembly made the resolution on 4 February. I have asked the Business Minister repeatedly to make time for the Minister for Health and Social Services to bring forward this Order. To date, that request has not been fulfilled. Will you rule on whether a breach of Standing Orders has occurred in this instance?

**The Presiding Officer:** I am grateful to you for giving me advance notice of this point of order. As a result, I have been able to confirm that a no named day motion in accordance with Standing Order No. 29 was tabled on 20 December 2002 and was passed in Plenary on 4 February. Standing Orders prescribe that, if a motion under Standing Order No. 29 is approved by the Assembly,

‘that Minister shall as soon as may be prepare a draft Order (or other instrument),’

as appropriate. There is no definite timescale in the Standing Order, but the published guidance relating to Standing Order No. 29 goes further and specifies, as you have quoted, that the Minister should bring forward the Order within three months. The guidance was approved by myself as Presiding Officer in January 2000, following

cyfarwyddo’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno Gorchymyn drafft a fyddai’n sicrhau y byddai pobl sy’n dioddef o salwch cronig hirdymor yn cael presgripsiynau am ddim. Noda’r canllawiau sy’n cyd-fynd â Rheol Sefydlog 29

‘Os bydd y Cynulliad yn penderfynu felly, bydd y Gweinidog Cynulliad yn dod â’r Gorchymyn drafft gerbron o fewn cyfnod o 3 mis o ddyddiad penderfyniad y Cynulliad. Os bydd y Gweinidog Cynulliad yn methu â gwneud hyn o fewn yr amser bydd rhaid i’r Gweinidog hwnnw esbonio i’r Cynulliad y rhesymau am yr oedi a dweud pryd fydd y Gorchymyn drafft yn barod.’

Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod cyfnod o fwy na thri mis, hyd yn oed gan gynnwys etholiadau’r Cynulliad, wedi mynd heibio ers i’r Cynulliad wneud y penderfyniad ar 4 Chwefror. Yr wyf wedi gofyn i’r Trefnydd dro ar ôl tro i neilltuo amser i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno’r Gorchymyn hwn. Hyd yma, ni chyflawnwyd y cais hwnnw. A wnewch chi ddyfarnu pa un a dorrwyd y Rheolau Sefydlog yn yr achos hwn?

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi rhybudd ymlaen llaw imi ynglŷn â’r pwynt hwn o drefn. O ganlyniad, yr wyf wedi gallu cadarnhau i gynnig heb ddyddiad trafod gael ei gyflwyno, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 29, ar 20 Rhagfyr 2002, ac a dderbyniwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Chwefror. Mae Rheolau Sefydlog yn pennu, os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 29,

‘y bydd y Gweinidog cyn gynted ag y bo modd yn paratoi Gorchymyn drafft (neu offeryn arall),’

fel y bo’n briodol. Nid oes amserlen benodol yn y Rheol Sefydlog, ond mae’r canllawiau cyhoeddiedig sy’n ymwneud â Rheol Sefydlog Rhif 29 yn fanylach ac yn nodi, fel y bu ichi ddyfynnu ohoni, y dylai’r Gweinidog fod wedi cyflwyno’r Gorchymyn o fewn tri mis. Fel Llywydd cymeradwyais y canllawiau ym mis Ionawr 2000, ar ôl

consultations with the Business Committee. However, it has not been approved formally by Plenary. I confirm that that is the position.

ymgyngori â'r Pwyllgor Busnes. Fodd bynnag, nis cymeradwywyd yn ffurfiol mewn Cyfarfod Llawn. Cadarnhaf mai dyna yw'r sefyllfa.

3.20 p.m.

**Kirsty Williams:** Further to that point of order, do you agree therefore that there has been a breach of Standing Orders? I ask for your guidance on how I can ensure that the will of the Assembly, as stated on 4 February, is enacted.

**Kirsty Williams:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, a gytunwch felly i Reol Sefydlog gael ei thorri? Gofynnaf am eich arweiniad ar sut y gallaf sicrhau bod ewyllys y Cynulliad, fel y'i nodwyd ar 4 Chwefror yn cael ei rhoi ar waith.

**The Presiding Officer:** There is no breach of Standing Orders. As far as I can see, the guidance has not been complied with, but, as I made clear, that guidance has been approved by myself, and is therefore guidance, but has not been approved by Plenary. However, the position is as you have set it out.

**Y Llywydd:** Ni thorwyd y Rheolau Sefydlog. Hyd y gwelaf, ni chydymffurfiwyd â'r canllawiau, ond, fel yr eglurais, yr wyf wedi cymeradwyo'r canllawiau hynny, ac felly canllawiau ydynt, ond nis cymeradwywyd mewn Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa fel y'i nodwyd gennych.

**David Davies:** Further to that point of order, is it therefore in order for the Assembly to vote on whether or not that guidance that you set out should become the will of the Assembly? Clearly, the spirit of the Standing Orders has been broken, if not the letter.

**David Davies:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, a yw mewn trefn felly i'r Cynulliad bleidleisio pa un a ddylai'r canllawiau hynny ichi eu nodi ddod yn ewyllys y Cynulliad ai peidio? Yn amlwg, aethpwyd yn groes i ysbryd y Rheolau Sefydlog, os nad llythyren y rheolau.

**The Presiding Officer:** There is no difference—and I speak as a former literary scholar—between the spirit and the letter of anything. I go by the letter; that is the only way in which I can operate. If the Assembly wishes to approve guidance, then that must be done by means of a motion, which would be tabled by the Business Committee and proposed, normally under Standing Orders, by the Business Minister. If the Business Committee wishes to discuss this matter further, it can do so.

**Y Llywydd:** Nid oes gwahaniaeth—a siaradaf fel cyn-ysgolhaig llenyddol—rhwng ysbryd a llythyren unrhyw beth. Ufuddhaf i'r llythyren; dyna'r unig ffordd y gallaf weithredu. Os hoffai'r Cynulliad gymeradwyo canllawiau, rhaid gwneud hynny drwy gynnig, a fyddai'n cael ei gyflwyno gan y Pwyllgor Busnes a'i gynnig, fel arfer o dan y Rheolau Sefydlog, gan y Trefnydd. Os hoffai'r Pwyllgor Busnes drafod y mater hwn ymhellach, gall wneud hynny.

**Nick Bourne:** Further to that point of order, this is a serious issue and I am sure that the Minister for Health and Social Services would not want to fall foul of the guidelines. Given that she is present, can she give us an idea of when she intends to bring this forward? Clearly, we are in danger of falling foul of our guidelines, which is not desirable. Can Jane Hutt give us an indication of her

**Nick Bourne:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, mae hwn yn fater difrifol ac yr wyf yn siŵr na hoffai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithas fynd yn groes i'r canllawiau. O gofio ei bod yn bresennol, a all roi amcan inni pryd y bwriada gyflwyno hyn? Yn amlwg, yr ydym mewn perygl o fynd yn groes i'n canllawiau, ac nid ydym am wneud hynny. A all Jane Hutt roi amcan inni o'i

thoughts on this issue?

**The Presiding Officer:** Order. I do not wish to prolong this matter. However, given that the Business Committee has approved the guidance, I assume that it has the agreement of all parties represented on that Committee, which means all parties in the Assembly.

**Glyn Davies:** Further to that point of order, I also think that this is an important issue for all of us. I would like to clarify a matter in relation to your interpretation of the Standing Orders. Should the Government decide that a matter is so difficult that it will not bring it forward at any stage, can it, in contempt of us, and of guidelines, do that for an entire Assembly?

**The Presiding Officer:** We have rehearsed the point and established the facts. I cannot add much to that.

**Alun Cairns:** Further to that point of order, what action is available to Assembly Members when the Government fails to react to motions that are carried in Plenary, and when a vote has been cast and a mandate has been demanded of the Government? Surely this brings the Assembly into disrepute in that, when demands are placed on the Government, it is not prepared to act according to the vote.

**The Presiding Officer:** Order. No-one is bringing the Assembly into disrepute yet.

**Brian Gibbons:** Further to that point of order, my comment will probably not be helpful, but Kirsty spoke about lifelong conditions, and one of the problems is that it is impossible to define what that means. The practicality—[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. It is not for me to reopen the debate on the substance of a motion that has been carried by the Assembly. I have been somewhat concerned during the first and second Assembly that this Standing Order does not provide as effective a means for private Members' motions, business and Bills—to use the equivalent Westminster terminology—as I would have liked. It is important, in that sense, that the

syniadau am y mater hwn?

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf am rygnu ar y mater hwn. Fodd bynnag, o gofio bod y Pwyllgor Busnes wedi cymeradwyo'r canllawiau, tybiaf fod ganddo gytundeb pob plaid a gynrychiolir ar y Pwyllgor hwnnw, sy'n golygu pob plaid yn y Cynulliad.

**Glyn Davies:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, credaf innau hefyd fod hwn yn fater pwysig i bob un ohonom. Hoffwn gael eglurhad ynglŷn ag un mater yn ymwneud â'ch dehongliad o'r Rheolau Sefydlog. Pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu bod mater mor anodd fel na fydd yn ei gyflwyno o gwbl, a all wneud hynny am dymor llawn y Cynulliad, gan ein dirmygu ni a'r canllawiau?

**Y Llywydd:** Yr ydym wedi trafod y pwynt ac wedi cadarnhau'r ffeithiau. Ni allaf ychwanegu llawer at hynny.

**Alun Cairns:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, pa gamau y gall Aelodau'r Cynulliad eu cymryd pan fydd y Llywodraeth yn methu ag ymateb i gynigion a dderbyniwyd mewn Cyfarfod Llawn, a phan fo pleidlais wedi'i bwrw a phan fo mandad wedi'i roi i'r Llywodraeth? Onid yw hyn yn dwyn anfri ar y Cynulliad, yn yr ystyr nad yw'r Llywodraeth yn barod i weithredu yn unol â'r bleidlais pan fo gofyn iddi.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes neb yn dwyn anfri ar y Cynulliad eto.

**Brian Gibbons:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, ni fydd fy sylwadau o gymorth fwy na thebyg, ond soniodd Kirsty am gyflyrau gydol oes, ac un o'r problemau a gyfyd yw nad oes modd diffinio beth yw ystyr hynny. Y broblem ymarferol—[*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Nid mater i mi yw ailagor y ddadl ar sylwedd cynnig a dderbyniwyd gan y Cynulliad. Bûm yn bryderus braidd yn ystod y Cynulliad cyntaf, a'r ail, nad yw'r Rheol Sefydlog hon yn fodd mor effeithiol ag y byddwn wedi hoffi i ganiatáu i Aelodau gyflwyno cynigion, busnes a Mesurau preifat—â defnyddio terminoleg San Steffan. Mae'n bwysig, o ran hynny, y cydymffurfir â'r Rheol Sefydlog yn

Standing Order is complied with according to the guidance. I cannot say more at this stage.

**David Davies:** Further to that point of order, I also put on record that we have yet to see any legislation from the Minister for Education and Lifelong Learning on—

**The Presiding Officer:** Order. We are not discussing the Minister for Education and Lifelong Learning.

**Michael German:** Further to that point of order, you have clearly ruled that guidance and Standing Orders which applied in the first Assembly still apply in the second. That being the case, and since the motion was carried in the first Assembly, a response from the Government is required. I ask you to rule on whether such an announcement is therefore required by the guidance, which has been agreed by all parties, whether or not the Government wanted to pursue the matter.

**The Presiding Officer:** I am able to respond—[*Interruption.*]. Order. It is not appropriate to interrupt when I am trying to provide a reasonable and balanced answer on this issue.

**Alun Cairns:** I apologise.

**The Presiding Officer:** I am grateful.

I have ruled that guidance, motions relating to guidance, the actions of the previous Business Committee, and any relevant motions that have been carried by the first Assembly, are still in force in the second Assembly, unless there has been further discussion in the Business Committee and a further view taken. On issues such as this, where there is a carry over from one Assembly to the other, it is important that that carry over should happen.

**Leighton Andrews:** Point of order. I seek your guidance, as the enforcer of the right of Assembly Members to make representations on behalf of their constituents, on what is a reasonable time for Assembly Members to expect to wait for responses from local authorities or Assembly sponsored public

unol â'r canllawiau. Ni allaf ddweud rhagor ar hyn o bryd.

**David Davies:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, hoffwn hefyd gofnodi nad ydym wedi gweld unrhyw ddeddfwriaeth gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd yma ynglŷn â—

**Y Llywydd:** Trefn. Nid ydym yn trafod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Michael German:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, yr ydych yn amlwg wedi dyfarnu bod canllawiau a Rheolau Sefydlog a oedd yn gymwys yn y Cynulliad cyntaf, yn dal i fod yn gymwys yn yr ail. Gan mai dyna yw'r sefyllfa, a chan fod y cynnig wedi'i dderbyn yn y Cynulliad cyntaf, mae angen i'r Llywodraeth ymateb. Gofynnaf ichi ddyfarnu a oes angen cyhoeddiad o fath felly o dan y canllawiau, y cytunwyd arnynt gan bob plaid, pa un a yw'r Llywodraeth am weithredu ar y mater hwn ai peidio.

**Y Llywydd:** Gallaf ymateb—[*Torri ar draws*]. Trefn. Nid yw'n briodol torri ar draws a minnau'n ceisio rhoi ateb rhesymol a chytbwys ar y mater hwn.

**Alun Cairns:** Ymddiheuraf.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar.

Yr wyf wedi dyfarnu bod canllawiau, cynigion yn ymwneud â chanllawiau, gweithredoedd y Pwyllgor Busnes blaenorol, ac unrhyw gynigion perthnasol a dderbyniwyd yn ystod y Cynulliad cyntaf, yn dal mewn grym yn yr ail Gynulliad, oni bai bod y Pwyllgor Busnes wedi trafod ymhellach ac wedi dod i gasgliad arall. Ar faterion o'r fath, lle mae trosglwyddo o un Cynulliad i'r llall, mae'n bwysig i hynny ddigwydd.

**Leighton Andrews:** Pwynt o drefn. Gofynnaf am eich arweiniad, gan mai chi sy'n gorfodi hawl Aelodau'r Cynulliad i wneud sylwadau ar ran eu hetholwyr, ynghylch faint o amser sy'n rhesymol i Aelodau'r Cynulliad aros am atebion oddi wrth awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus a

bodies. I have waited nearly two months for a reply from a senior officer of Rhondda Cynon Taf County Borough Council, and in the case of one ASPB, nearly six weeks.

**The Presiding Officer:** I do not have direct authority over correspondence, but when an ASPB is contacted by an Assembly Member, I assume that that Member is contacting that body in the pursuance of his or her role of scrutiny, whether formally, as in Committee, or informally. I would therefore urge our ASPBs to show courtesy by responding as soon as possible, and, indeed, by giving priority to correspondence from Assembly Members. The same would apply to local authorities. I regularly e-mail Conwy County Borough Council and Gwynedd Council, and they respond quicker when I do so.

The Business Minister wished to speak on the previous point of order, but I did not see her. I call her now.

**The Business Minister (Karen Sinclair):** I wish to note that I will raise the guidance issue in the Business Committee next week.

**The Presiding Officer:** Thank you. We will move on.

**Cymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi)  
a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfyngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003  
Approval of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), the Feeding Stuffs  
(Enforcement) and the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries)  
(Amendment) (Wales) Regulations 2003**

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** I propose that

*the National Assembly for Wales considers the principle of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), the Feeding Stuffs (Enforcement) and the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations 2003, laid in the Table Office on 17 June 2003. (NDM1526)*

I propose that

*the National Assembly for Wales:*

noddir gan y Cynulliad. Bu imi aros bron deufis am ateb gan un o uwch swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yn achos un CCNC, bron chwe wythnos.

**Y Llywydd:** Nid oes gennyf awdurdod uniongyrchol dros ohebiaeth, ond pan fydd Aelod Cynulliad yn cysylltu â CCNC, cymeraf fod yr Aelod yn cysylltu â'r corff hwnnw yng nghyd-destun ei rôl graffu, boed hynny yn ffurfiol, fel aelod o Bwyllgor, neu'n anffurfiol. Felly apelïaf ar y CCNC i fod yn gwrtais drwy ymateb mor fuan â phosibl, ac, yn wir, drwy roi blaenoriaeth i ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad. Byddai hynny'n wir hefyd am awdurdodau lleol. Yr wyf yn anfon negeseuon e-bost at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd yn rheolaidd, ac maent yn ymateb yn gyflymach pan wnaif hynny.

Yr oedd y Trefnydd am siarad ar y pwynt o drefn blaenorol, ond nis gwelais. Fe'i galwaf yn awr.

**Y Trefnydd (Karen Sinclair):** Hoffwn nodi y byddaf yn codi mater y canllawiau yn y Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr. Symudwn ymlaen.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried egwyddorion Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfyngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003. (NDM1526)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. considers the report of the Legislation Committee which does not draw the special attention of the Assembly to any matter under Standing Order No. 11.5, in relation to the draft Order, the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), the Feeding Stuffs (Enforcement) and the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations 2003, laid in the Table Office on 24 June 2003; and

2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 17 June 2003 and the regulatory appraisal laid in the Table Office on 17 June 2003. (NDM1527)

These regulations will implement European Commission directive 2002/70, and introduce community-wide criteria for the testing of animal feeding stuffs for the presence of dioxins and dioxin-like polychlorinated biphenyls. Dioxins are ever-present substances produced during various combustion and incineration processes. They are also unwanted by-products in the manufacture of certain chemicals. PCBs are man-made contaminants that have been used since the early 1930s, mainly in electrical equipment. Their manufacture and general use stopped in the 1970s and is no longer permitted in the UK. Both dioxins and PCBs are persistent organic pollutants that degrade slowly and are therefore widespread in the environment. They are known to accumulate in the food and feed chain. Current levels of dioxin and PCB contamination generally reflect historical emissions.

In 1998, elevated levels of dioxins were found in citrus pulp pellets imported from Brazil. In 1999, it was discovered that recovered vegetable oils intended for use in Belgian animal feed had been mixed with transformer oil. That prompted the European Commission to introduce maximum permitted levels for dioxins in a range of feed materials. In July 2002, the National Assembly approved legislation for Wales that

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog rhif 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfyngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2003; ac sydd

2. yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003. (NDM1527)

Bydd y rheoliadau hyn yn gweithredu cyfarwydddeb 2002/70 y Comisiwn Ewropeaidd, ac yn cyflwyno meini prawf i'r gymuned gyfan ar gyfer profi porthiant anifeiliaid i ganfod a oes diocsinau a biffenylau polyclorinedig tebyg i ddiocsinau yn bresennol. Mae diocsinau yn sylweddau sydd bob amser yn bresennol ac fe'u cynhyrchir yn ystod amryw brosesau hyllogi a llosgi. Maent hefyd yn is-gynnyrch nas dymunir wrth gynhyrchu rhai cemegolion. Mae biffenylau polyclorinedig yn ddifwynwyr gwneuthuredig a ddefnyddiwyd ers dechrau'r 1930au, a hynny yn bennaf mewn offer trydanol. Rhoddwyd y gorau i'w cynhyrchu a'u defnyddio'n eang yn yr 1970au ac ni chaniateir hynny mwyach yn y DU. Mae diocsinau a biffenylau polyclorinedig yn llygrwyr organig parhaus sy'n dirywio'n araf ac felly sydd ar gael yn gyffredin yn yr amgylchedd. Gwyddys eu bod yn cronni yn y gadwyn fwyd a phorthiant. Mae lefelau presennol difwyno o ganlyniad i ddiocsinau a biffenylau polyclorinedig yn gyffredinol yn adlewyrchu natur gollyngiadau yn y gorffennol.

Yn 1998, canfuwyd lefelau uchel o ddiocsinau mewn peledi mwydion sitrws a fewnforiwyd o Frasil. Yn 1999, canfuwyd bod olew llyisiau wedi'u hadfer y bwriadwyd eu defnyddio mewn porthiant anifeiliaid yng Ngwlad Belg wedi'u cymysgu ag olew trawsffurfwyr. Bu hynny'n ysgogiad i'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno uchafswm lefelau o ddiocsinau a ganiateir mewn amrywiaeth o borthiant. Ym mis Gorffennaf



transposed the requirements of the European council directive setting these limits. The European Commission is also considering setting maximum limits for dioxin-like PCBs in feed.

2002, cymeradwywyd deddfwriaeth i Gymru gan y Cynulliad Cenedlaethol a drawsosododd ofynion cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd sy'n pennu'r terfynau hyn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn ystyried pennu terfynau ar gyfer lefel uchaf biffenylau polychlorinedig tebyg i ddiocsinau mewn porthiant.

3.30 p.m.

The regulations before you today implement an EC directive. These regulations complement existing legislation by introducing statutory procedures for how samples are to be prepared, analysed and reported upon. These regulations will help to reduce inconsistencies in the sampling and analysis of feeding stuffs for dioxins and dioxin-like PCBs and remove uncertainty or dispute in the interpretation of results, benefiting the industry and consumers. The measures set out in the proposed regulations relate to the enforcement of existing legislation and, as a consequence, businesses are unlikely to be directly affected by it.

Mae'r rheoliadau sydd ger eich bron heddiw yn gweithredu cyfarwyddeb y CE. Mae'r rheoliadau hyn yn ategu'r ddeddfwriaeth bresennol drwy gyflwyno gweithdrefnau statudol ynghylch sut y dylid paratoi, dadansoddi a chyflwyno adroddiadau ar samplau. Bydd y rheoliadau hyn yn helpu i wneud y broses o samplu a dadansoddi porthiant i ganfod diocsinau a biffenylau polychlorinedig tebyg i ddiocsinau yn fwy cyson ac yn dileu ansicrwydd neu anghytuno wrth ddehongli canlyniadau, a fydd o fudd i'r diwydiant a'r defnyddiwr. Mae'r mesurau a nodir yn y rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ac, o ganlyniad, mae'n annhebyg y bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau.

The main impact of compliance will be felt by enforcement authorities—the local authorities—and the laboratories. I am aware that the cost of analysis for dioxins is substantial, averaging £1,000 per sample. However, the number of samples and the frequency of sampling are not prescribed in the proposed legislation; that will be a matter for local authorities, depending upon circumstances. For example, an authority may have reason to believe that a batch of animal feedstuffs is worthy of further investigation. Some local authorities may rarely need to exercise these powers but, in recognition of the potential costs, we have made funds available to all local authorities in this year's revenue support grant. The £110,000 that has been made available roughly equates to the analysis of five samples per local authority per year. The Food Standards Agency monitors local authorities' enforcement of animal feeding stuffs legislation and it will keep under review the impact on local authorities of the requirements of this legislation.

Ar yr awdurdodau gorfodi—yr awdurdodau lleol—a'r labordai y bydd prif effaith cydymffurfio. Yr wyf yn ymwybodol bod y gost o ddadansoddi diocsinau yn sylweddol, sef, ar gyfartaledd, £1,000 fesul sampl. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhagnodi nifer y samplau na pha mor aml y dylid samplu; bydd hynny'n fater i'r awdurdodau lleol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, efallai fod gan awdurdod reswm dros gredu ei bod yn werth ymchwilio ymhellach i swp penodol o borthiant anifeiliaid. Efallai mai anaml y bydd angen i rai awdurdodau lleol arfer y pwerau hyn ond, gan gydnabod y costau posibl, yr ydym wedi neilltuo arian ar gyfer pob awdurdod lleol yng ngrant cynnal refeniw eleni. Mae'r £110,000 a sicrhawyd yn cyfateb yn fras i gostau pob awdurdod lleol yn dadansoddi pum sampl y flwyddyn. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn monitro sut y mae awdurdodau lleol yn gorfodi deddfwriaeth ar borthiant anifeiliaid a bydd yn parhau i adolygu effaith gofynion y ddeddfwriaeth hon ar awdurdodau lleol.

**Brynle Williams:** The motion before us this afternoon seeks Members' approval of the feeding stuffs regulations. It is a sensible proposal that states that there will be agreed European Community criteria for the testing of animal feeding stuffs for the presence of dioxins and dioxin-like PCBs. It is important that the regulations lay out the requirements for laboratories, sample preparation, analytical procedures and the reporting of the results.

Until recently, there was no legal limit to the level of dioxins that could be present in animal feeding stuffs or food for human consumption, therefore analysis was not required. Everyone should welcome this change in policy. It will provide data that can be used to assess the levels of dioxins, with a view to possibly revising legislation in future if necessary. I note that no small businesses responded to the consultation. It is important to consult widely, using as many means as possible—the telephone, internet, post or face-to-face—to encourage more people to take part. This could perhaps be considered for future consultations.

Local authorities have stated that they are concerned about the lack of money available to undertake sampling. We need to liaise with local authorities to see whether they can exercise their duties within the funding that has been made available; if they cannot, then the National Assembly must reconsider the funding arrangements. I am content with the regulations, and hope that you will take my comments and suggestions on board.

**Mick Bates:** These regulations only apply in Wales, I believe. We all welcome this testing programme. However, no matter how good the regulation is and how much we welcome it, I would like you to confirm, Minister, that sufficient funding will be available to ensure that the tests take place. I am aware that the testing equipment is expensive—you mentioned a cost of £1,000 per sample—therefore you must assure us that testing will be done and that there is sufficient capital

**Brynle Williams:** Mae'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r rheoliadau porthiant. Mae'n gynnig synhwyrol sy'n nodi y bydd meini prawf y cytunwyd arnynt gan y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer profi porthiant anifeiliaid i ganfod a oes diocsinau a biffenylau polychlorinedig tebyg i ddiocsinau yn bresennol. Mae'n bwysig bod y rheoliadau yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan labordai, a gofynion paratoi samplau, gweithdrefnau dadansoddi a rhoi adroddiadau ar y canlyniadau.

Tan yn ddiweddar, nid oedd terfyn cyfreithiol ar lefel y diocsinau a allai fod yn bresennol mewn porthiant anifeiliaid neu fwyd ar gyfer lluniaeth dynol, felly nid oedd angen dadansoddi samplau. Dylai pawb groesawu'r newid hwn i'r polisi. Bydd yn rhoi data y gellir ei ddefnyddio i asesu lefelau diocsinau, gyda'r bwriad o ddiwygio deddfwriaeth yn y dyfodol o bosibl yn ôl yr angen. Nodaf nad ymatebodd unrhyw fusnesau bach i'r ymgynghoriad. Mae'n bwysig ymgynghori'n eang, gan ddefnyddio cymaint o ffyrdd â phosibl—dros y ffôn, y rhyngwyd, drwy'r post neu wyneb yn wyneb—er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan. Efallai y gellid ystyried hyn ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Nododd awdurdodau lleol eu bod yn pryderu nad oes digon o arian ar gael i ymgymryd â'r gwaith samplu. Mae angen inni gysylltu ag awdurdodau lleol i weld a allant gyflawni eu dyletswyddau gyda'r arian sydd ar gael; os na allant, yna rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ailystyried y trefniadau ariannu. Yr wyf yn fodlon ar y rheoliadau, a gobeithiaf y byddwch yn ystyried fy sylwadau a'm hawgrymiadau.

**Mick Bates:** Credaf mai dim ond i Gymru y mae'r rheoliadau hyn yn gymwys. Mae pob un ohonom yn croesawu'r rhaglen brofi hon. Fodd bynnag, waeth pa mor dda y mae'r rheoliad, a waith faint o groeso a roddwn iddo, hoffwn pe baech yn cadarnhau, Weinidog, y bydd digon o arian ar gael er mwyn sicrhau y caiff y profion eu cynnal. Yr wyf yn ymwybodol bod yr offer profi yn gostus—bu ichi sôn am gost o £1,000 fesul sampl—felly rhaid ichi roi sicrwydd inni y

funding available to ensure that laboratories in Wales can undertake this work.

**The Deputy Presiding Officer (John Marek):** I rise not to talk about the political impact of these regulations, but to talk about procedure. The Legislation Committee considers procedure and every statutory instrument, and I hope that it will consider regulatory appraisals, to ensure that they fulfil the requirements of the Government of Wales Act 1998. The Business Committee meets to consider the procedure to examine each statutory instrument in detail. Part of its job is to advise me on what route a statutory instrument should take before it comes before Plenary and is made. That has placed me in a quandary, because Standing Orders state that the Business Committee should meet in private. That does not necessarily mean that all papers or minutes must be private. Minutes are in fact published, but they are published six weeks after the meeting, and we are discussing this legislation two weeks after it was raised in the Business Committee, and therefore before the minutes are published. I would risk being ruled out of order if I were to quote from as yet unpublished minutes. I will raise that matter in the Business Committee next Tuesday because it is a dilemma. Standing Orders state that the Business Committee meets in private, therefore I cannot comment on documents that I do not think should be confidential, but which have been treated as confidential until now. Should we therefore be debarred from repeating anything that has been agreed in the Business Committee's final minutes before they are published? I think not: we must have all the information available to us in Plenary before we decide how to vote on any piece of legislation. That must be the principal concern.

I want to refer to this particular instrument, because there were irregularities in it. However, I will do so in such a way as to avoid being ruled out of order for divulging what happened in the Business Committee. Having said that, the Business Committee

caiff profion eu cynnal a bod digon o arian cyfalaf ar gael er mwyn sicrhau y gall labordai yng Nghymru ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Codaf ar fy nhraed i siarad am weithdrefn yn hytrach nag effaith wleidyddol y rheoliadau hyn. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn ystyried gweithdrefn a phob offeryn statudol, a gobeithiaf y bydd yn ystyried arfarniadau rheoliadol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod i ystyried y weithdrefn ar gyfer archwilio pob offeryn statudol yn fanwl. Rhan o'i waith yw dweud wrthyf pa lwybr y dylai offeryn statudol ei ddilyn cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn a'i dderbyn. Mae hynny wedi achosi penbleth imi, gan fod y Rheolau Sefydlog yn nodi y dylai'r Pwyllgor Busnes gyfarfod yn breifat. Nid yw hynny yn golygu o reidrwydd bod yn rhaid i bob papur a chofnod fod yn breifat. Yn wir, cyhoeddir y cofnodion, ond fe'u cyhoeddir chwe wythnos ar ôl y cyfarfod, ac yr ydym yn trafod y ddeddfwriaeth hon bythefnos ar ôl iddi gael ei chodi yn y Pwyllgor Busnes, ac felly cyn i'r cofnodion gael eu cyhoeddi. Byddai perygl o ddyfarniad yn fy erbyn am fod allan o drefn pe bawn yn dyfynnu o gofnodion nas cyhoeddwyd eto. Codaf y mater hwnnw yn y Pwyllgor Busnes ddydd Mawrth nesaf am ei fod yn achosi penbleth. Noda'r Rheolau Sefydlog fod y Pwyllgor Busnes yn cyfarfod yn breifat, felly, ni allaf wneud sylwadau ar ddogfennau na ddylent fod yn rhai cyfrinachol yn fy marn i, ond sydd wedi cael eu trin fel dogfennau cyfrinachol hyd yma. Felly a ddylem gael ein gwahardd rhag ailadrodd unrhyw beth y cytunwyd arno yng nghofnodion terfynol y Pwyllgor Busnes cyn iddynt gael eu cyhoeddi? Na ddylem, yn fy marn i: rhaid i'r holl wybodaeth fod ar gael inni mewn Cyfarfod Llawn cyn inni benderfynu sut i bleidleisio ar unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth. Rhaid mai hynny yw'r prif fater.

Hoffwn gyfeirio at yr offeryn penodol hwn, am fod pethau afreoleidd ynddo. Fodd bynnag, gwnaf hynny yn y fath fodd fel na ellid dyfarnu fy mod allan o drefn am ddatgelu'r hyn a ddigwyddodd yn y Pwyllgor Busnes. Wedi dweud hynny, mae angen i'r

needs to discuss this issue, and I will put the matter on the agenda for next Tuesday's meeting. After the recent meeting of the Business Committee, I had to decide what route this legislation should take. We have heard from Brynle and Mick that there is nothing wrong with this legislation. However, there is the matter of additional funding. The Government laid information before me to the effect that there were no additional costs to this legislation, when that was patently not true. A week later, that information changed slightly. The Government laid information before me to the effect that there were perhaps additional costs, but that they had been budgeted for. If Members read the regulatory appraisal, which is publicly available as it is published on the internet, they will see that it states in paragraph 11 that

'[t]he potential costs to enforcement authorities of sampling and analysing for dioxins, and the impact this could have on other feed enforcement work, could be significant.'

These costs could be significant, and money does not grow on trees. Any money spent by local authorities or any other body to this end, however worthy it may be, may deprive other worthy causes. It is important that Plenary and the Business Committee have accurate information before it to make the right judgment. The Government advice must not be misleading, incomplete or plainly wrong. It must be accurate, and it must be right.

I do not intend to ask Plenary to vote against these proposals. They have been passed and the Business Committee has not issued any advice other than to say that, if we so see fit, we should vote for these regulations. However, I am not happy about the procedure. I want better Government advice and, with your help, Presiding Officer, and the help of the Business Committee, we will ensure that on future occasions.

**Glyn Davies:** I wish to address the same point as the Deputy Presiding Officer. I am concerned to learn that costs are associated

Pwyllgor Busnes drafod y mater hwn, a byddaf yn rhoi'r mater ar agenda cyfarfod dydd Mawrth nesaf. Ar ôl cyfarfod diweddar y Pwyllgor Busnes, bu'n rhaid imi benderfynu pa lwybr y dylai'r ddeddfwriaeth hon ei ddilyn. Clywsom gan Brynle a Mick nad oes dim o'i le ar y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, cyfyd mater arian ychwanegol. Gosododd y Llywodraeth wybodaeth ger fy mron i'r perwyl nad oedd i'r ddeddfwriaeth hon gostau ychwanegol, er bod hynny'n amlwg yn anghywir. Wythnos yn ddiweddarach, newidiwyd y wybodaeth honno ychydig. Gosodwyd y Llywodraeth wybodaeth ger fy mron i'r perwyl bod costau ychwanegol o bosibl, ond bod cyllideb ar eu cyfer. Os darllena yr Aelodau yr arfarniad rheoliadol, sydd ar gael yn gyhoeddus gan y cyhoeddwyd ef ar y rhynggrwyd, gwelant ei fod yn nodi ym mharagraff 11

y gallai costau posibl samplu a dadansoddi diocsinau i awdurdodau gorfodi, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar waith gorfodi arall mewn cysylltiad â phorthiant, fod yn sylweddol.

Gallai'r costau hyn fod yn sylweddol, ac nid yw'r arian yn ddiderfyn. Gall unrhyw arian a werir gan awdurdodau lleol neu unrhyw gorff arall i'r perwyl hwn, pa mor deilwng bynnag ydyw, amddifadu achosion teilwng eraill. Mae'n bwysig bod gan y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor Busnes wybodaeth gywir ger eu bron er mwyn gwneud y penderfyniad cywir. Rhaid i gyngor y Llywodraeth beidio â bod yn gamarweiniol, yn anghyflawn nac yn anghywir. Rhaid iddo fod yn gywir, a rhaid iddo fod yn iawn.

Ni fwriadaf ofyn i'r Cyfarfod Llawn bleidleisio yn erbyn y cynigion hyn. Cawsant eu derbyn ac ni chyhoeddodd y Pwyllgor Busnes unrhyw gyngor heblaw dweud y dylem bleidleisio o blaid y rheoliadau hyn, os gwelwn yn dda. Fodd bynnag, nid wyf yn fodlon ar y weithdrefn. Yr wyf am gyngor gwell gan y Llywodraeth a, chyda'ch cymorth chi, Lywydd, a chymorth y Pwyllgor Busnes byddwn yn sicrhau hynny yn y dyfodol.

**Glyn Davies:** Hoffwn godi'r un pwynt â'r Dirprwy Lywydd. Mae'n achos pryder imi glywed bod costau yn gysylltiedig â'r

with this procedure and that we have not had sight of the full regulatory appraisal. However, the issue that has concerned me for some time, particularly since I became Chair of the Legislation Committee and began taking a keen interest in how we deal with legislation, is that we do not deal with it properly. We have dealt already with the issue of executive procedure, and its appallingly frequent use. There is also the issue of regulatory appraisals. The Government has been more than casual in not necessarily carrying out regulatory appraisals, or in going through the motions. There is a purpose to the requirement to have regulatory appraisals, which is to ensure that we all know the implications, not only of particular pieces of legislation, but for the opportunity cost elsewhere, to which John Marek referred. We need to see every piece of legislation that comes before us in order to go through the proper procedure; the executive procedure should only be used if it is absolutely necessary. There must be a full regulatory appraisal that we all know about before we take any decision. That should have applied in this case.

3.40 p.m.

**Jenny Randerson:** The Business Committee is aware of, and has been contacted by the Chair of the Legislation Committee about, the concerns regarding the practices adopted in relation to the various forms of legislation that come before us. There are different practices in different departments between different Ministers. We seek not only clarity and a clear set of rules, but also to ensure that the same rules and regulations are applied in every aspect of the Government's business. I know that the Minister has agreed to tackle this issue, which I am sure will be done as a matter of urgency. Some Ministers provide a regulatory appraisal; others do not. Once we have rules, we need to ensure that they are applied across the board. The Committee is considering this, and I am sure that the Minister will deal with it in the near future.

**The Presiding Officer:** I call on the Minister for Health and Social Services to reply on the

weithdrefn hon ac nad ydym wedi gweld yr arfarniad rheoliadol llawn. Fodd bynnag, y mater sy'n bryder i mi ers peth amser, yn enwedig ers imi ddod yn Gadeirydd y Pwyllgor Deddfau a dechrau ymddiddori'n fawr yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â deddfwriaeth, yw'r ffaith nad ydym yn ymdrin â hi yn gywir. Yr ydym eisoes wedi trafod y weithdrefn weithredol, a'r defnydd arswydus o fynych a wneir ohoni. Cyfyd mater arfarniadau rheoliadol hefyd. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ddidaro wrth beidio â chynnal arfarniadau rheoliadol bob amser, neu wrth gymryd arni ei bod yn dilyn y weithdrefn. Mae diben i'r gofyniad i gynnal arfarniadau rheoliadol, sef sicrhau bod y goblygiadau yn hysbys i bawb ohonom, nid yn unig goblygiadau darnau penodol o ddeddfwriaeth, ond o ran y cyfle cost rywle arall, y cyfeiriodd John Marek ato. Mae angen inni weld pob darn o ddeddfwriaeth sy'n dod ger ein bron i sicrhau ei bod yn dilyn y weithdrefn gywir; dim ond os oes rhaid y dylid defnyddio'r weithdrefn weithredol. Rhaid cynnal arfarniad rheoliadol llawn sy'n hysbys i bawb ohonom cyn inni wneud unrhyw benderfyniad. Dylai hynny fod wedi digwydd yn yr achos hwn.

**Jenny Randerson:** Mae'r Pwyllgor Busnes yn ymwybodol o'r pryderon ynglŷn â'r arferion a fabwysiadwyd o ran y gwahanol fathau o ddeddfwriaeth sy'n dod ger ein bron ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau wedi cysylltu â'r pwyllgor yn eu cylch. Ceir arferion gwahanol mewn adrannau gwahanol rhwng Gweinidogion gwahanol. Yr ydym nid yn unig am gael eglurder a rheolau pendant, ond hefyd sicrhau y caiff yr un rheolau a rheoliadau eu cymhwyso ym mhob agwedd ar fusnes y Llywodraeth. Gwn fod y Gweinidog wedi cytuno i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac yr wyf yn siŵr y caiff hynny ei wneud ar fyrder. Mae rhai Gweinidogion yn darparu arfarniad rheoliadol; ni wna eraill. Unwaith y bydd gennym reolau, mae angen inni sicrhau y cânt eu cymhwyso yn yr un ffordd gan bawb. Mae'r Pwyllgor yn ystyried hyn, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymdrin â'r mater yn y dyfodol agos.

**Y Llywydd:** Galwaf ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i

substance of the Order, if possible, although I followed the debate on procedure with great interest.

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** I thank Members for their positive contributions, including those by Brynle Williams and Mick Bates. I take on board your points about small businesses and how we can reach them, Brynle. We had full consultation with the industry and with farming unions, and the enforcement authorities and local authority representatives were also fully consulted. On your concerns, Mick, about ensuring that local authorities implement their enforcement responsibilities, the £110,000 that I mentioned, which is in the revenue support grant in this financial year to enable them to undertake that sampling and testing, has come as a result of the Food Standards Agency convincing us of the importance of putting that money in with the enforcement authorities. That is crucial.

The Business Committee will respond more fully to John Marek's points. I hope that my opening speech gave a clear explanation of the financial issues. The regulatory appraisal is, and will be, available to the public, although the Business Committee is held in camera. I hope that my fuller explanation of the financial impact gave a proper explanation for appropriate scrutiny. It is not my place to dwell further on these issues. However, the Welsh Assembly Government is concerned to ensure that the full legislative procedure is carried out. We carefully scrutinise in Cabinet anything that comes before us that is deemed to need procedure through the executive route.

ymateb ar sylwedd y Gorchymyn, os oes modd, er imi ddilyn y ddadl ar weithdrefn gyda diddordeb mawr.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau cadarnhaol, gan gynnwys cyfraniadau Brynle Williams a Mick Bates. Derbyniaf eich pwyntiau ynglŷn â busnesau bach a sut y gallwn eu cyrraedd, Brynle. Bu inni ymgynghori'n llawn â'r diwydiant ac undebau'r amaethwyr, ac ymgynghorwyd yn llawn hefyd â'r awdurdodau gorfodi a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. O ran eich pryderon, Mick, ynglŷn â sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau gorfodi, neilltuwyd y £110,000 y cyfeiriais ato, sydd yn y grant cynnal refeniw yn y flwyddyn ariannol hon i'w galluogi i gymryd samplau a chynnal profion, am fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ein hargyhoeddi o bwysigrwydd rhoi'r arian hwnnw i'r awdurdodau gorfodi. Mae hynny'n hollbwysig.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ymateb yn fanylach i bwyntiau John Marek. Gobeithiaf fod fy araith agoriadol wedi rhoi esboniad clir o'r materion ariannol. Mae, a bydd, yr arfarniad rheoliadol ar gael i'r cyhoedd, ond cynhelir y Pwyllgor Busnes yn y dirgel. Gobeithiaf i'm hesboniad llawnach o'r effaith ariannol roi eglurhad ar gyfer craffu priodol. Nid fy lle i yw ymhelaethu ar y materion hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i sicrhau bod y weithdrefn ddeddfwriaethol lawn yn cael ei chynnal. Yn y Cabinet yr ydym yn craffu'n ofalus ar unrhyw beth sy'n dod ger ein bron y tybir bod angen iddo ddilyn y weithdrefn weithredol.

*Cynnig (NDM1526): O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM1526): For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine

Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Laura Anne  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Marek, John  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

*Cynnig (NDM1527): O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM1527): For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David

Davies, Glyn  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gibbons, Brian  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 Isherwood, Mark  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Laura Anne  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

### **Caffael Cynnyrch o Gymru yn y Sector Cyhoeddus The Procurement of Welsh Produce in the Public Sector**

**Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 6.3(v), y mae'n rhaid i'r ddadl fer gychwyn hanner awr cyn diwedd y Cyfarfod Llawn. Oherwydd prinder amser heddiw, bydd cyfyngiad ar hyd areithiau yn y ddadl hon a'r ddadl sydd i ddilyn. Ac eithrio areithiau'r Aelodau sy'n agor a chau'r dadleuon ac yn cynnig gwelliannau, cyfyngir pob araith i dri munud.

Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 5 yn enw Jonathan Morgan, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 6 a 7 yn enw Kirsty Williams.

**The Presiding Officer:** Under Standing Order No. 6.3(v), the short debate must commence half an hour before the end of Plenary. Due to time restraints today, there will be a restriction on the length of speeches in this debate and in the next debate. Apart from speeches given by Members opening or closing the debates and proposing amendments, all speeches will be limited to three minutes.

I have selected amendments 1 and 5 in the name of Jonathan Morgan, amendments 2, 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 6 and 7 in the name of Kirsty Williams.



**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*1. welcomes the collaboration between the Welsh procurement initiative teams and the Welsh Development Agency to explore measures aimed at strengthening local Welsh food supply to the public sector,*

*2. welcomes the progress being made towards helping small and medium-sized food producers win local public sector business; and*

*3. supports the development of pilot projects to test these measures and notes that the Minister will report back to the National Assembly. (NDM1528)*

Total public sector procurement expenditure in Wales is around £4 billion per year. That represents 11 per cent of Wales's gross domestic product. How that is spent is vital to our economy, environment and communities. Procurement has not generally, or traditionally, been seen as a key driver of change. However, that is what it should be. Our duty in terms of sustainable development requires us to place those principles at the core of public sector procurement while also complying with European law on the free movement of goods. That means encouraging local produce suppliers to compete more successfully for the business of schools and hospitals, and ensuring that their money is helping to create jobs and prosperity in our communities, thus making them cleaner and greener and improving health through better nutrition. Edwina Hart, in her previous role as Finance Minister, commissioned a review of public sector procurement in 2000. The resulting report, 'Better Value Wales', calls for improvements to the implementation of its 42 recommendations. Key issues included the need to improve the relationship between public sector procurement and the business sector, to reduce fragmentation through increased collaboration, to improve management data on what is spent and by whom, to increase the contribution of procurement to policies that support sustainable development, the need for the

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn croesawu'r cydweithio sy'n digwydd rhwng timau Menter Gaffael Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i edrych ar fesurau i gryfhau'r cyflenwad bwyd Cymreig lleol i'r sector cyhoeddus;*

*2. yn croesawu'r camau a gymerwyd i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig i ennill busnes lleol yn y sector cyhoeddus; ac*

*3. yn cefnogi datblygiad prosiectau peilot i brofi'r mesurau hyn ac yn nodi y bydd y Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol. (NDM1528)*

Mae cyfanswm gwariant caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru oddeutu £4 biliwn y flwyddyn. Mae hynny'n 11 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru. Mae'r ffordd y gwerir hynny yn hanfodol i'n heconomi, ein hamgylchedd a'n cymunedau. Nid ystyriwyd caffael yn gyffredinol, nac yn draddodiadol, yn symbylydd allweddol ar gyfer newid. Fodd bynnag, dyna beth ddylai fod. Mae ein dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol inni osod yr egwyddorion hynny wrth wraidd caffael yn y sector cyhoeddus tra'n cydymffurfio hefyd â chyfraith Ewrop ar ryddid i symud nwyddau. Golyga hynny annog cyflenwyr cynnyrch lleol i gystadlu'n fwy llwyddiannus am fusnes ysgolion ac ysbytai, a sicrhau bod eu harian yn helpu i greu swyddi a ffyniant yn ein cymunedau, gan eu gwneud yn lanach ac yn wyrddach a gwella iechyd drwy faethiad gwell. Comisiynodd Edwina Hart, yn ei rôl flaenorol fel Gweinidog Cyllid, adolygiad o gaffael yn y sector cyhoeddus yn 2000. Geilw'r adroddiad dilynol, 'Gwell Gwerth Cymru', am welliannau i'r broses o weithredu ei 42 o argymhellion. Ymhlith y materion allweddol yr oedd yr angen i wella'r berthynas rhwng caffael yn y sector cyhoeddus a'r sector busnes, lleihau darnio drwy wella cydweithredu, gwella data rheoli ar yr hyn a werir a chan bwy, cynyddu cyfraniad caffael i bolisiau sy'n cefnogi

growth of professional skills in order to deal with the complex issues involved, and the need to develop an innovative approach to procurement. I am not suggesting that we institute a regime that ignores EU legislation, such as the EU treaty and procurement directives, which protect free trade within the EU and ensure that sourcing does not discriminate or limit competition. The directives also govern how tenders are formed and how suppliers are selected. It is not possible to comply with them and select suppliers on the basis of location. However, recent guidance has indicated a move towards recognising the importance of social and environmental factors as valid contract conditions, if drafted appropriately. Public sector procurement can fulfil many challenges and achieve value for money while acting to support policies to provide wider benefit to the community.

We established the Welsh procurement initiative to address those recommendations. It has been in operation since August 2002 and its role is to act as the catalyst to achieving those goals by improving the value for money obtained from procurement and supporting the delivery of public services while benefiting the Welsh economy, its environment and its communities. The initiative is running 21 pathfinder projects, which address the key issues identified. Those projects pilot innovative approaches and work closely with our agencies, such as the Welsh Development Agency, to provide real benefits to Welsh business and our small and medium-sized enterprise sector. These include the establishment of a national procurement website, building on the Assembly's 'Winning Our Business' website, the establishment of a central database of all public sector expenditure, which allows us to understand and track Welsh public sector spending, splitting collaborative cross-sector contracts into lots to allow the SME sector to bid for individual regions, and the production of best practice procurement guidance in dealing with SMEs based on the work in the food sector.

3.50 p.m.

datblygu cynaliadwy, yr angen am dwf sgiliau proffesiynol er mwyn delio â'r materion cymhleth dan sylw, a'r angen i ddatblygu ymagwedd arloesol tuag at gaffael. Nid wyf yn awgrymu ein bod yn sefydlu cyfundrefn sy'n anwybyddu deddfwriaeth yr UE, fel cytundeb yr UE a chyfarwyddebau caffael, sy'n diogelu masnach rydd o fewn yr UE ac sy'n sicrhau nad yw ffynonellu yn gwahaniaethu nac yn cyfyngu ar gystadleuaeth. Mae'r cyfarwyddebau hefyd yn rheoli'r modd y llunnir tendrau a sut y detholir cyflenwyr. Nid yw'n bosibl cydymffurfio â hwy a dethol cyflenwyr ar sail lleoliad. Fodd bynnag, mae canllawiau diweddar wedi awgrymu newid tuag at gydnabod pwysigrwydd ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol fel amodau contract dilys, os cânt eu drafftio'n briodol. Gall caffael yn y sector cyhoeddus gyflawni sawl her, sicrhau gwerth am arian a gweithredu i gefnogi polisïau i ddod â budd ehangach i'r gymuned yr un pryd.

Bu inni sefydlu menter caffael Cymru i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny. Bu'n weithredol er Awst 2002 a'i rôl yw gweithredu fel catalydd i gyflawni'r nodau hynny drwy wella'r gwerth am arian a geir o gaffael a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gydag economi Cymru, ei hamgylchedd a'i chymunedau yn elwa arni yr un pryd. Mae'r fenter yn rhedeg 21 o brosiectau arloesol, sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd. Mabwysia'dr prosiectau hynny ymagwedd arloesol beilot a gweithiant yn agos gyda'n hasiantaethau, fel Awdurdod Datblygu Cymru, i sicrhau buddiannau gwirioneddol i fusnesau Cymru a'n sector busnesau bach a chanolig eu maint. Yn eu plith mae sefydlu gwefan caffael genedlaethol, gan adeiladu ar wefan 'Gafael ar Gaffael' y Cynulliad, sefydlu cronfa ddata ganolog o holl wariant y sector cyhoeddus, sy'n caniatáu inni ddeall ac olrhain gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru, rhannu contractau traws-sector cydweithredol yn gyfrannau i ganiatáu i'r sector busnesau bach a chanolig eu maint wneud cynnig am ranbarthau unigol, a chynhyrchu canllawiau caffael arfer gorau wrth ddelio â busnesau bach a chanolig yn seiliedig ar y gwaith yn y sector bwyd.

Pathfinder projects fully address today's motion. They are an innovative approach aimed at reducing perceived barriers between food suppliers and public-sector food buyers, while also linking policies for improved nutritional health with the use of fresh food. My predecessor launched these projects at a successful conference in Builth Wells in February. He reflected upon the huge step changes made in the pace of promotion and investment in the agri-food industry in Wales, and also our growing confidence in our produce. The conference also highlighted the need for public sector buyers and food suppliers to work together. The key findings were that, while there was considerable scope for progress, action was required by both buyers and suppliers. A different approach to procurement was required, to the extent permitted by EU legislation, to contribute positively to the health and environment of our people, as well as to social and economic development. An improved understanding of the Welsh food sector and product base was also felt to be beneficial. It was felt that suppliers would benefit from a better understanding of how to tender.

**John Griffiths:** Carwyn, do you accept that school meals provide a good example of the benefits that could be gained if we incorporated the changes outlined as being possible in this work? Far too often, school meals use poor-quality, cheap produce, which offers little nutritional value. Through implementing the changes outlined we could make real gains in improving the health and behaviour of pupils, not to mention the economic and environmental benefits.

**Carwyn Jones:** I agree, in tandem with giving suppliers the information that they need to find out how best to tender and what public-sector procurement obligations are. The situation you outline illustrates the discredited face of compulsory competitive tendering which, thankfully we no longer have.

To take the pathfinder programme forward, a programme of activities has begun. First, an improved database of Welsh food-sector

Mae prosiectau arloesol yn mynd i'r afael yn llawn â chynnig heddiw. Maent yn ymagwedd arloesol a anelir at leihau'r rhwystrau canfyddedig rhwng cyflenwyr bwyd a phrynwyr bwyd yn y sector cyhoeddus, gan gysylltu polisiau hefyd ar gyfer gwella iechyd maethol â'r defnydd o fwyd ffres. Lansiodd fy rhagflaenydd y prosiectau hyn mewn cynhadledd lwyddiannus yn Llanfair ym Muallt fis Chwefror. Ystyriodd y newidiadau sylweddol enfawr a wnaed yn hyrwyddo a buddsoddi yn y diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru, a'n hyder cynyddol hefyd yn ein cynnyrch. Amlygodd y gynhadledd hefyd yr angen i brynwyr yn y sector cyhoeddus a chyflenwyr bwyd gydweithio. Y canfyddiadau allweddol oedd bod angen i brynwyr a chyflenwyr fel ei gilydd weithredu, er bod cryn gyfle i wneud cynnydd. Yr oedd angen ymagwedd wahanol tuag at gaffael, i'r graddau a ganiatawyd yn ôl deddfwriaeth yr UE, i gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd ac amgylchedd ein pobl, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd. Teimlwyd hefyd bod gwell dealltwriaeth o'r sector bwyd a chynnyrch yng Nghymru yn fuddiol. Teimlwyd y byddai cyflenwyr yn elwa ar well dealltwriaeth o sut i dendro.

**John Griffiths:** Carwyn, a dderbyniwch fod prydau ysgol yn enghraifft dda o'r buddiannau y gellid eu hennill pe baem yn ymgorffori'r newidiadau a amlinellwyd fel rhai posibl yn y gwaith hwn? Yn amlach na pheidio, mae prydau ysgol yn defnyddio cynnyrch rhad, o ansawdd gwael, heb fawr ddim gwerth maethol iddo. Drwy weithredu'r newidiadau a amlinellwyd gallem sicrhau manteision gwirioneddol i wella iechyd ac ymddygiad disgyblion, heb sôn am y buddiannau economaidd ac amgylcheddol.

**Carwyn Jones:** Cytunaf, ynghyd â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflenwyr i ddarganfod y ffordd orau o dendro a beth yw goblygiadau caffael yn y sector cyhoeddus. Mae'r sefyllfa a amlinellwyd yn dangos natur anffodus tendro cystadleuol gorfodol nad yw gennym bellach, diolch byth.

Er mwyn datblygu'r rhaglen arloesol, mae rhaglen o weithgareddau wedi cychwyn. Yn gyntaf, cynhyrchwyd cronfa ddata well o

suppliers has been produced, linked to the national procurement website. Secondly, a national supplier development programme has been established, which will address the development and change required in the supply base and supply chains operating in Wales. Thirdly, information on contract opportunities will be available nationally, linked to the national procurement website and the Wales euro information centre. Fourthly, activities have been arranged to examine the potential for co-operatives, working with the Wales Co-operative Centre and, fifthly, to bring suppliers and buyers together locally, such as 'meet-the-buyer events'. I attended such an event about two years ago, when suppliers—mainly in south Wales, but some from the North—met with representatives from Sainsbury's to discuss their requirements and how best to meet them. Sixthly, local pilot projects have been formed to develop exemplar best practice. Lastly, a public-sector procurement focus group will be established, made up of buyers and caterers, which will publish best practice guidance and will act as a consultation group to support the programme. If you want evidence of the benefits that this approach brings, you need only consider the excellent work of the Powys Food Links and the Powys public procurement partnership. They have worked together to pilot joined-up thinking on opportunities for local food supply.

The Welsh public sector spends at least £60 million per year on food produce. Over time, we aim to improve the quality and volume of bids received from local suppliers, and promote greater flexibility and innovation in the procurement approach taken by the Welsh public sector. I am pleased to report that we are ahead of our colleagues in other administrations. The Department for Environment, Food and Rural Affairs has cast jealous eyes towards Wales and, in Scotland, a recent report on sustainable development stated that

'the contrast between Scotland and Wales is stark. Despite far more limited powers, the Welsh Assembly has pioneered a coherent

gyflenwyr y sector bwyd yng Nghymru, wedi ei chysylltu â'r wefan gaffael genedlaethol. Yn ail, sefydlwyd rhaglen datblygu cyflenwyr genedlaethol, a fydd yn mynd i'r afael â'r datblygiad a'r newid sydd ei angen yn y sylfaen gyflenwi a'r cadwyni cyflenwi sy'n gweithredu yng Nghymru. Yn drydydd, bydd gwybodaeth am gyfleoedd contract ar gael yn genedlaethol, wedi ei chysylltu â'r wefan gaffael genedlaethol a chanolfan wybodaeth Ewrop Cymru. Yn bedwerydd, trefnwyd gweithgareddau i archwilio'r potensial ar gyfer cwmnïau cydweithredol, gan weithio gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru ac, yn bumed, dod â chyflenwyr a phrynwyr at ei gilydd yn lleol, fel yn y digwyddiadau cyfarfod â'r prynwr. Mynychais ddigwyddiad o'r fath tua dwy flynedd yn ôl, pan gyfarfu cyflenwyr—yn bennaf o'r De, ond rhai o'r Gogledd—â chynrychiolwyr o Sainsbury's i drafod eu gofynion a'r ffordd orau o'u bodloni. Yn chweched, lluniwyd prosiectau peilot lleol i ddatblygu arfer gorau enghreifftiol. Yn olaf, caiff grŵp ffocws caffael yn y sector cyhoeddus ei sefydlu, yn cynnwys prynwyr ac arlwywyr, a fydd yn cyhoeddi canllawiau arfer gorau ac a fydd yn gweithredu fel grŵp ymgynghorol i gefnogi'r rhaglen. Os ydych am gael tystiolaeth o'r buddiannau a ddaw yn sgîl yr ymagwedd hon, nid oes ond rhaid ichi ystyried gwaith rhagorol Cysylltiadau Bwyd Powys a phartneriaeth gaffael gyhoeddus Powys. Maent wedi cydweithio i dreialu meddylfryd gydgyssylltiedig o ran cyfleoedd ar gyfer cyflenwi bwyd yn lleol.

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario o leiaf £60 miliwn y flwyddyn ar gynnyrch bwyd. Dros amser, ein nod yw gwella ansawdd a nifer y cynigion a dderbynnir gan gyflenwyr lleol, a hyrwyddo mwy o hyblygrwydd ac arloesedd yn yr ymagwedd gaffael a fabwysiedir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr wyf yn falch o nodi ein bod ar y blaen i'n cydweithwyr mewn gweinyddiaethau eraill. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi edrych yn genfigennus ar Gymru ac, yn yr Alban, nododd adroddiad diweddar ar ddatblygu cynaliadwy

fod y gwrthgyferbyniad rhwng yr Alban a Chymru yn amlwg iawn. Er gwaethaf pwerau mwy cyfyngedig o lawer, mae Cynulliad

and integrated approach to sustainable development.’

There is much still to do, but we can be confident that we are on the way to making change in this important area.

I now turn to the amendments. I oppose amendment 1, because there is no lack of progress on helping small and medium-sized enterprises in Wales. On amendment 2, substantial progress has been made in assisting small and medium-sized food producers, and we want to extend this support towards strengthening the links between public sector procurement and Welsh suppliers. On amendment 3, as I have explained, the Welsh procurement initiative is already working on best practice procurement guidance that will address these issues. On amendment 4, the WDA, under the agri-food partnership, is already working to develop local food supply chains. On amendment 5, in order to establish the success of the pilot schemes, we need to fully assess the impact and we anticipate doing so within 12 months; a deadline of 6 months is too short. On amendment 6, the WDA has already started work in this area, namely to establish the amount of local produce procured by the Welsh public sector. On amendment 7, the motion specifically focuses on strengthening the links between public sector procurement and all Welsh suppliers, including small family farms which, as stated in ‘Farming for the Future’, we believe to be the fundamental basis for farming in Wales.

Cymru wedi arloesi ymagwedd gydynol ac integredig tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Mae llawer i'w wneud o hyd, ond gallwn fod yn hyderus ein bod ar y trywydd iawn i wneud newidiadau yn y maes pwysig hwn.

Trof yn awr at y gwelliannau. Gwrthwynebam welliant 1, gan nad oes diffyg cynnydd o ran helpu busnesau bach a chanolig eu maint. O ran gwelliant 2, gwnaed cynnydd sylweddol i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig eu maint, ac yr ydym am ehangu'r cymorth hwn tuag at gryfhau'r cysylltiadau rhwng caffael yn y sector cyhoeddus a chyflenwyr Cymru. O ran gwelliant 3, fel yr eglurais, mae menter caffael Cymru eisoes yn gweithio ar ganllawiau caffael arfer gorau a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn. O ran gwelliant 4, mae'r WDA, o dan y bartneriaeth bwyd-amaeth, eisoes yn gweithio i ddatblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol. O ran gwelliant 5, er mwyn sefydlu llwyddiant y cynlluniau peilot, mae angen inni asesu'r effaith yn llawn a rhagwelwn y byddwn yn gwneud hynny o fewn 12 mis; mae terfyn amser o 6 mis yn rhy fyr. O ran gwelliant 6, mae'r WDA eisoes wedi dechrau gweithio yn y maes hwn, sef sefydlu swm y cynnyrch lleol a gaffaelir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. O ran gwelliant 7, mae'r cynnig yn canolbwyntio'n benodol ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng caffael yn y sector cyhoeddus a holl gyflenwyr Cymru, gan gynnwys ffermydd teuluol bach sef sail sylfaenol ffermio yng Nghymru yn ein barn ni, fel y nodwyd yn ‘Ffermio ar gyfer y Dyfodol’.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.56 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.56 p.m.*

**Brynle Williams:** I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 1: delete point 2 and replace with:

*notes with concern the lack of progress being made to help small and medium sized food producers in Wales.*

I propose amendment 5. In point 3 after ‘Assembly’ insert ‘within six months’.

**Brynle Williams:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 1: dileu pwynt 2 ac ychwanegu:

*yn nodi â phryder nad oes camau wedi'u cymryd i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig yng Nghymru.*

Cynigiaf welliant 5. Ym mhwynt 3 ar ôl ‘Cynulliad Cenedlaethol’, ychwanegu ‘ymhen 6 mis’.

I declare an interest as a north Wales farmer. I support the amendments tabled by Plaid Cymru and the Liberal Democrats. I hope that the ruling Labour group will take the amendments on board and vote in favour of them all, irrespective of which party group tabled them. In discussing an important issue such as this, we should rise above party politics.

It is important that time and money are invested in promoting our wonderful Welsh produce. I agree with point 1 of the motion, although this should have been further promoted in the first National Assembly. The key to success will be to monitor the progress made, as well as for Assembly Members to consider progress made in their constituencies.

I am concerned about the lack of help at present for small and medium-sized businesses in Wales, hence the need for amendment 1. Many family businesses are suffering as a result of the lack of assistance from the Assembly. Many have suffered badly as a result of late payments, and many are still suffering as a result of the outbreak of foot and mouth disease. If Welsh produce is marketed correctly and people are made aware of the benefits of eating Welsh produce, I am sure that many businesses throughout the principality will benefit.

We must be provided with regular updates on progress, as this will motivate and encourage businesses. It would be good if an all-party working group monitored progress on a regular basis, ensured that everything was going to plan and consulted regularly with businesses to discover their views on how the situation is changing.

The Welsh Local Government Association states that the largest customer, the Welsh public sector, should be the smartest customer. However, in order to develop this, we need excellent marketing and excellent produce, which we have. I am aware that there are many examples of good practice in local government. One example is the Welsh purchasing consortium. We must use its research and knowledge to assist us in

Datganaf fuddiant fel ffermwr o'r Gogledd. Cefnogaf y gwelliannau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gobeithiaf y bydd y grŵp Llafur sydd mewn grym yn ystyried y gwelliannau ac yn pleidleisio o blaid pob un, waeth pa blaid a'u cyflwynodd. Wrth drafod mater pwysig fel hwn, dylem godi uwchlaw gwleidyddiaeth plaid.

Mae'n bwysig bod amser ac arian yn cael eu buddsoddi i hyrwyddo ein cynnyrch gwych yng Nghymru. Cytunaf â phwynt 1 y cynnig, er y dylai hyn fod wedi cael ei hyrwyddo ymhellach yn y Cynulliad Cenedlaethol cyntaf. Yr allwedd i lwyddiant fydd monitro'r cynnydd a wnaed, yn ogystal â sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn ystyried y cynnydd a wnaed yn eu hetholaethau.

Pryderaf ynglŷn â'r diffyg cymorth ar hyn o bryd i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, a dyna pam mae angen gwelliant 1. Mae llawer o fusnesau teuluol yn dioddef o ganlyniad i ddiffyg cymorth gan y Cynulliad. Dioddefodd llawer yn enbyd o ganlyniad i daliadau hwyr, ac mae llawer yn dioddef o hyd o ganlyniad i'r argyfwng clwy'r traed a'r genau. Os caiff cynnyrch Cymreig ei farchnata'n gywir ac os gwneir pobl yn ymwybodol o fuddiannau bwyta cynnyrch Cymreig, yr wyf yn siŵr y bydd llawer o fusnesau ledled y wlad yn elwa ar hyn.

Rhaid inni gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar gynnydd, gan y bydd hyn yn ysgogi ac yn calonogi busnesau. Byddai'n dda o beth pe bai gweithgor pob plaid yn monitro cynnydd yn rheolaidd, gan sicrhau bod popeth yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad ac yn ymgynghori'n rheolaidd â busnesau i ganfod eu barn ar sut y mae'r sefyllfa yn newid

Dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai'r cwsmer mwyaf, sef y sector cyhoeddus yng Nghymru, ddylai fod y cwsmer mwyaf craff. Serch hynny, er mwyn datblygu hyn, mae angen marchnata yn rhagorol a chael cynnyrch rhagorol, ac mae hynny gennym. Gwn fod sawl enghraifft o arferion da mewn llywodraeth leol. Un enghraifft yw consortiwm prynu Cymru. Rhaid inni ddefnyddio ei ymchwil a'i wybodaeth i'n

ensuring collaboration between the Welsh procurement initiative teams—

helpu i sicrhau cydweithrediad rhwng timau menter caffael Cymru—

**Janet Ryder:** Will you take an intervention on that point?

**Janet Ryder:** A dderbyniwch ymyriad ar y pwynt hwnnw?

**Brynle Williams:** I only have a paragraph of my speech left, after which you can intervene all you want, my dear.

**Brynle Williams:** Dim ond paragraff o'm haraith sydd ar ôl, ac wedyn gallwch ymyrryd faint bynnag a fynnoch, fy merch i.

**Janet Ryder:** So you will not give way?

**Janet Ryder:** Felly nid ildiwch?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Brynle Williams is not giving way.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid yw Brynle Williams am ildio.

**Brynle Williams:** I urge all Members to support the amendments, as this will send a message to the people of Wales.

**Brynle Williams:** Anogaf bob Aelod i gefnogi'r gwelliannau, gan y bydd hyn yn anfon neges at bobl Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 2: dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

**Rhodri Glyn Thomas:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 2: delete point 2 and replace with:

*yn galw ar y Llywodraeth i roi rhagor o gefnogaeth i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig i ennill busnes lleol yn y sector cyhoeddus.*

*calls on the Government to provide greater support towards helping small and medium-sized food producers win local public sector business.*

Cynigiaf welliant 3. Rhoi pwynt 3 newydd a newid y rhifau'n unol â hynny:

I propose amendment 3. Insert as new point 3 and renumber accordingly:

*yn galw ar y Llywodraeth i bennu safonau caffael a fydd yn ffafrio cynnyrch ffres o safon uchel sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.*

*calls on the Government to set procurement standards that would favour fresh, high-quality products produced locally.*

Cynigiaf welliant 4. Rhoi pwynt 3 newydd a newid y rhifau'n unol â hynny:

I propose amendment 4. Insert as new point 3 and renumber accordingly:

*yn galw ar y Llywodraeth i ddatblygu seilwaith i sicrhau cadwyni cyflenwi lleol.*

*calls on the Government to develop infrastructure to ensure local supply chains.*

Nid oeddwn yn sylweddoli bod Sainsbury's yn rhan o'r sector cyhoeddus hyd y clywais y Gweinidog yn sôn amdano wrth agor y ddadl. O ran y cynnig, mae pawb yn cefnogi'r angen i gaffael cynnyrch lleol, nid yn unig er mwyn cefnogi busnesau lleol—sy'n dod â manteision economaidd i'r busnesau ac i'r economi leol—ond hefyd er mwyn sicrhau bod y cynnyrch a ddefnyddir yn y sector cyhoeddus o'r safon uchaf posibl. Gobeithiaf bod pob Aelod yn derbyn bod cynnyrch Cymru o'r safon uchaf, a'n bod hefyd yn cyrraedd y safonau uchaf posibl o ran glendid

I did not realise that Sainsbury's was part of the public sector until I heard the Minister mention it in his opening speech. On the motion, everyone supports the need to procure local produce, not only to support local businesses—which brings economic benefits to the businesses and to the local economy—but also to ensure that the produce used in the public sector is of the highest possible quality. I hope that all Members accept that Welsh produce is of the highest quality, and that we also reach the highest possible standards in terms of hygiene and

a diogelwch. Byddai caffael cynnyrch lleol yn sicrhau bod y bwyd a ddarperir i blant yn ein hysgolion o'r safon uchaf posibl. A yw'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn bwriadu sicrhau, pan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno brecwast am ddim i blant ysgol, mai cynnyrch lleol a ddefnyddir i baratoi'r brecwast hwnnw? Byddai bwyd o'r safon uchaf yn helpu plant i ymateb yn well yn yr ysgol.

4.00 p.m.

Gallai bwyd o ansawdd da hefyd helpu cleifion yn ein hysbytai. Mae'r gwasanaeth iechyd yn gwario symiau aruthrol o arian ar ddarparu bwyd—gwerir hyd at £500 miliwn y flwyddyn. Pe bai'r arian hwnnw'n mynd i'r diwydiant yng Nghymru a Phrydain, byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr iddo.

Pwrpas ein gwelliannau yw cryfhau'r cynnig a chyfeirio'n benodol at yr hyn sydd angen ei wneud. Yn anffodus, mae'r Llywodraeth hon yn hunanfodlon ynglŷn â phopeth a gyflawnir ganddi. Yr ydym yn croesawu'r hyn a ddywedwyd, ond mae'r Gweinidog ei hun yn cydnabod nad oes digon wedi'i wneud yn y maes hwn. Nid wyf yn deall, felly, pam nad yw'n derbyn y gwelliant sy'n galw am fwy o gydweithio. Bu i'r Gweinidog sôn am reoliadau a deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n ein hatal rhag prynu cynnyrch lleol. Mae'r rheoliadau hynny dan drafodaeth yn Senedd Ewrop ar hyn o bryd ac maent yn debygol o gael eu newid. Pe baem yn rhoi pwyslais ar dendro sy'n sicrhau canlyniadau economaidd buddiol, yn hytrach na'r gost isaf, gallem sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei gaffael. Mae'n bosibl gwneud hynny yn Ffrainc a'r Eidal, ac nid oes rheswm pam na ellid ei wneud yng Nghymru.

Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw sicrhau bod awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n atebol i'r Cynulliad yn dilyn polisi o gaffael bwyd ffres, maethlon ac o'r ansawdd gorau posibl a hynny yn lleol. Anogaf y Gweinidog i ailystyried ei benderfyniad i wrthod ein gwelliannau. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 o eiddo'r Torïaid gan ei fod yn gwneud y cynnig yn afresymegol; ar un llaw, maent yn croesawu'r cynnydd a wnaed ond, ar y llaw arall, yn condemnio'r ffaith na gymerwyd camau yn y maes hwn—nid oes modd

safety. Procuring local produce would ensure that the food provided for children in our schools would be of the highest possible standard. Does the Minister for Education and Lifelong Learning intend to ensure, when the Government introduces free breakfast for schoolchildren, that local produce is used in the preparation of those breakfasts? Food of the highest quality would assist children's responsiveness in school.

Good quality food could also help hospital patients. The health service spends a phenomenal amount of money on the provision of food—up to £500 million a year. If that money went to the industry in Wales and Britain, it would make a big difference.

Our amendments aim to reinforce the motion and draw particular attention to what needs to be done. Unfortunately, this Government insists on being self-satisfied about its achievements. We welcome what we have heard, but the Minister has himself acknowledged that not enough has been done in this area. I do not understand, therefore, why he does not accept the amendment that calls for greater collaboration. The Minister referred to the European regulations and legislation that prevent us from buying local produce. The European Parliament is currently discussing these regulations, which are likely to be amended. Were we to place an emphasis on ensuring that tendering processes secure economically beneficial outcomes, rather than the lowest cost, we could ensure that local produce is procured. That is possible in France and Italy, and there is no reason why it cannot be done in Wales.

It is the Government's responsibility to ensure that local authorities and agencies accountable to the Assembly adhere to a policy of procuring food that is fresh, nutritious, of the highest possible quality and produced locally. I urge the Minister to reconsider his decision to reject our amendments. We will not support the Tories' amendment 1 as it makes the motion seem illogical; on the one hand, they welcome the progress made in this area but, on the other, they condemn the fact that no steps have been



gwneud y ddau beth.

**Mick Bates:** I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 6: add at the end of the motion as a new point:

*calls on the Minister to consider placing a duty on ASPBs and local authorities to report annually on the amount of local produce they have procured.*

I propose amendment 7. Add at the end of the motion as a new point:

*recognises local food procurement by the public sector as a vital means of support for the small family farms that are prevalent in the agricultural sector in Wales.*

I welcome much of the Minister's statement. However, there is an element of complacency about how these principles are put into practice and measured. We would do well to remind ourselves why it is important to relocalise food production. Food imports to the European Union have increased by 279 per cent in the past 30 years. The UK is a net importer of food and, in the 1980s, the UK trade gap in food and drink was £3.5 billion. In 1999, that gap was £8.3 billion.

World trade is rewarding a few large, wealthy farmers, supermarkets and multinational food companies, all at the expense of small and medium-sized farms in developing countries and Wales.

**Janet Ryder:** Will you take an intervention?

**Mick Bates:** I will in a moment; I wish to get going first.

It was the president of the National Farmers' Union, Ben Gill, who suggested that trade globalisation may have been responsible for the outbreak of foot and mouth disease in Britain. We need to reduce imports by increasing local production and use. This would result in safer food and better animal welfare, as well as a dramatic reduction in

taken—you cannot do both.

**Mick Bates:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 6: ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

*Yn galw ar y Gweinidog i ystyried ei gwneud yn ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol i roi adroddiad blynyddol ar faint o gynnyrch lleol y maent wedi'i gaffael.*

Cynigiaf welliant 7. Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cydnabod bod caffael bwyd lleol yn y sector cyhoeddus yn ffordd allweddol o gefnogi ffermydd teuluol bach sydd mor amlwg yn y sector amaethyddol yng Nghymru.*

Croesawaf lawer o ddatganiad y Gweinidog. Fodd bynnag, mae elfen o laesu dwylo ynglŷn â'r modd y rhoddir yr egwyddorion hyn ar waith a'r modd y cânt eu mesur. Byddai'n syniad atgoffa ein hunain pam mae'n bwysig cynhyrchu bwyd yn lleol eto. Mae mewnforyn bwyd i'r Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu 279 y cant yn y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r DU yn fewnforiwr bwyd net ac yn y 1980au, y bwlech masnachu yn y DU mewn bwyd a diod oedd £3.5 biliwn. Yn 1999, yr oedd y bwlech hwnnw yn £8.3 biliwn.

Mae masnach y byd yn gwobrwyo rhai ffermwyr, uwchfarchnadoedd a chwmnïau bwyd amlwladol mawr, cyfoethog, ar draul ffermydd bach a chanolig eu maint mewn gwledydd datblygedig ac yng Nghymru.

**Janet Ryder:** A dderbyniwch ymyriad?

**Mick Bates:** Gwnaf yn y funud; dymunaf ddechrau arni yn gyntaf.

Ben Gill, sef Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, a awgrymodd mai globaleiddio masnach fu'n gyfrifol efallai am yr argyfwng clwy'r traed a'r genau ym Mhrydain. Mae angen inni leihau mewnforyn drwy gynyddu cynhyrchiant a defnydd lleol. Byddai hyn yn arwain at fwyd mwy diogel a gwell lles anifeiliaid, yn

carbon emissions, which would help to tackle climate change. All of this fits in perfectly with our sustainable development duty embodied in clause 121 of the Government of Wales Act 1998.

**Janet Ryder:** As regards world trade, do you agree with the points put forward by the Trade Justice Movement in its attempts to secure fair prices for local traders? Do you welcome the fact that Wrexham County Borough Council was one of the first councils in Wales to sign a trade justice agreement and to acknowledge that that was backed by the National Farmers Union, which sees the advantage, through that agreement, of getting a fair price for local farmers' produce from the county council? Do you also look forward to other county councils signing similar agreements?

**Mick Bates:** You are right. All too often, free trade is not fair trade. That is why it is important to follow Wrexham's example.

I will now return to sustainable development, particularly how we can help tackle carbon emissions. Trade-related transportation is one of the fastest growing sources of carbon emissions and a significant factor in climate change. It is clear that the food chain contains too many hidden costs: significant environmental damage, economic decline of our rural communities and an increase in health bills. That dramatic impact is a consequence of so-called efficient methods of production and increase in competition. They may have driven down world food prices, but our customers are alienated from food production and our small Welsh farms continue to disappear.

The Liberal Democrats have long promoted rebuilding our local economies through better food procurement. That is central to increasing and improving local economies. A study in Cornwall showed that every £10 spent on local food results in £25.90 being

ogystal â gostyngiad dramatig mewn gollyngiadau carbon, a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn oll yn cydweddu'n berffaith â'n dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy a ymgorfforir yng nghymal 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Janet Ryder:** O ran masnach y byd, a gytunwch gyda'r pwyntiau a gyflwynwyd gan y Mudiad Cyfiawnder Masnach yn ei ymdrechion i sicrhau prisiau teg i fasnachwyr lleol? A groesawch y ffaith mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i lofnodi cytundeb cyfiawnder masnach ac i gydnabod bod hynny wedi ei ategu gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, sy'n gweld y fantais, drwy'r cytundeb hwnnw, o gael pris teg am gynnyrch ffermwyr lleol gan y cyngor sir? A ydych hefyd yn edrych ymlaen at weld cynghorau sir eraill yn llofnodi cytundebau tebyg?

**Mick Bates:** Yr ydych yn iawn. Yn amlach na pheidio, nid yw masnach rydd yn fasnach deg. Dyna pam mae'n bwysig dilyn esiampl Wrecsam.

Dychwelaf yn awr at ddatblygu cynaliadwy, yn arbennig sut y gallwn helpu i fynd i'r afael â gollyngiadau carbon. Mae trawsgludo sy'n gysylltiedig â masnach yn un o'r ffynonellau o ollyngiadau carbon sy'n tyfu gyflymaf ac yn ffactor o bwys o ran newid yn yr hinsawdd. Mae'n amlwg bod y gadwyn fwyd yn cynnwys gormod o gostau cudd: difrod sylweddol i'r amgylchedd, dirywiad economaidd ein cymunedau gwledig a chynnydd mewn biliau iechyd. Canlyniad y dulliau effeithlon bondigrybwyll o gynhyrchiant a chynnydd mewn cystadleuaeth yw'r effaith ddramatig honno. Efallai eu bod wedi gorfodi prisiau bwyd y byd i ostwng, ond maent wedi dieithrio ein cwsmeriaid oddi wrth gynhyrchu bwyd ac mae ein ffermydd bach yng Nghymru yn parhau i ddiflannu.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi hyrwyddo'r gwaith o ailadeiladu ein heconomïau lleol ers amser maith drwy gaffael bwyd yn well. Mae hynny'n ganolog i gynyddu a gwella economïau lleol. Dangosodd astudiaeth yng Nghernyw fod

returned to the local economy. That compares with £14 for every £10 spent in a supermarket. Some of that money is returned to our Welsh farms, making them viable businesses to support families and sustain our communities. The Minister referred to his predecessor. Credit must go to Mike German, who announced these food procurement projects when he was the Minister responsible for rural development. I am particularly pleased with that since—although Janet Ryder referred to Wrexham—Powys has long led the way on this. Through our local agenda 21 and our Powys food links, we have the best examples of such projects. I will quote Antony Lewis, the chair of Powys Health Care NHS Trust, who ran a pilot project on procurement in Llanidloes hospital:

‘We are anxious to support our local agricultural economy wherever possible. We have to comply with legislation on procurement, but a strong local economy and high quality food is good for the health of local people and therefore is cost-effective for the NHS.’

The two main challenges for us are the procurement policies and continuity of supply. Many researchers have highlighted that we can find ways to assist local procurement. Cardiff University has shown that, by breaking down large contracts into smaller parts and by insisting on freshness, we can produce good local contracts.

**Ann Jones** *rose*—

**Mick Bates:** I do not have time to give way.

However, to ensure the security and continuity of our aspirations, which are embodied in this motion and the amendment, we need to ensure that we know what is happening out there and how much local food our local authorities and ASPBs provide. In response to amendment 6, the Minister stated that the Welsh Development Agency would undertake that. The poor old WDA has too much to do already—

bob £10 a werir ar fwyd lleol yn arwain at roi £25.90 yn ôl i'r economi leol. Mae hynny'n cymharu â £14 am bob £10 a werir mewn archfarchnad. Caiff peth o'r arian hwnnw ei ddychwelyd i'n ffermydd Cymreig, gan eu gwneud yn fusnesau dichonol i gefnogi teuluoedd a chynnal ein cymunedau. Cyfeiriodd y Gweinidog at ei ragflaenydd. Rhaid canmol Mike German, a gyhoeddodd y prosiectau caffael bwyd hyn pan oedd yn Weinidog dros ddatblygu gwledig. Yr wyf yn arbennig o fodlon ar hynny gan fod Powys—er i Janet Ryder gyfeirio at Wrecsam—wedi arwain y blaen ar hyn ers amser maith. Drwy ein hagenda 21 leol a'n cysylltiadau bwyd â Phowys, mae gennym yr enghreifftiau gorau o brosiectau o'r fath. Dyfynnaf Antony Lewis, cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys, a fu'n gyfrifol am brosiect peilot ar gaffael yn ysbyty Llanidloes:

Yr ydym yn awyddus i gefnogi ein heconomi amaethyddol leol lle bynnag y bo'n bosibl. Rhaid inni gydymffurfio â deddfwriaeth ar gaffael, ond mae economi leol gref a bwyd o safon yn dda i iechyd pobl leol ac felly yn gost effeithiol i'r GIG.

Y ddwy brif her i ni yw'r polisiau caffael a pharhad cyflenwadau. Mae sawl ymchwilydd wedi dangos y gallwn ddod o hyd i ffyrdd o helpu'r broses gaffael yn lleol. Dangosodd Prifysgol Caerdydd y gallwn gynhyrchu contractau lleol da, drwy rannu contractau mawr yn rhannau llai a thrwy fynnu cael bwyd ffres.

**Ann Jones** *a gododd*—

**Mick Bates:** Nid oes gennyf amser i ildio.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau diogelwch a pharhad ein dyheadau, a ymgorfforir yn y cynnig hwn a'r gwelliant, mae angen inni sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd a faint o fwyd lleol a ddarperir gan ein hawdurdodau lleol a'n cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mewn ymateb i welliant 6, dywedodd y Gweinidog y byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn ymgymryd â hynny. Mae gan y WDA ormod i'w wneud yn barod—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Mick, you must wind up. You have had six minutes.

**Mick Bates:** Let us give this responsibility to our ASPBs and local authorities. Only then will we be able to compare and set down benchmarks on local procurement. I urge the Minister to change his mind and support this amendment; it will make ASPBs and local authorities report annually on how much local food they buy.

**The Deputy Presiding Officer:** I have to call the Minister at 4:18 p.m., which gives us around eight and a half minutes to continue this debate. Not everyone will get the opportunity to speak given that I have received six requests to do so, but, clearly, the shorter your speeches, the better.

4.10 p.m.

**Peter Law:** I am pleased to have the opportunity to speak in this debate and support the Minister. I hope that he notes that after yesterday. These initiatives are excellent and we must encourage people to use Welsh produce as much as possible. I am pleased that Janet Ryder mentioned the Wrexham initiative. We are proud of what Wrexham does. I hope that such a scheme will be rolled out across Wales because it mirrors what the co-operative movement has done in its shops in terms of selling fair trade chocolate bars and so on. Although it is not Welsh produce, it gives producers a fair share. That has not happened often enough in the past. If our successful food-producing companies are to compete in the modern world—and we all support that—they must have the best equipment. I refer, unusually, to a procurement exercise. The National Assembly must set a good example in terms of procurement. A factory in my constituency, Desk Link, manufactures office equipment. We were pleased when the First Minister opened the factory in October 2001. It employs 140 staff, and it received a regional selective assistance grant of over £1 million. However, it cannot tender to supply office equipment to the Assembly. Some Members of the first Assembly will remember that the company wrote to us about that issue. It has been suggested that a two-

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mick, rhaid ichi ddirwyn i ben. Cawsoch chwe munud.

**Mick Bates:** Gadewch inni roi'r cyfrifoldeb hwn ar ein CCNC ac ar awdurdodau lleol. Dim ond wedyn y gallwn gymharu a phennu meincnodau ar gaffael yn lleol. Anogaf y Gweinidog i newid ei feddwl a chefnogi'r gwelliant hwn; bydd yn gwneud i CCNC ac awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar faint o fwyd lleol a brynant.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rhaid imi alw'r Gweinidog am 4.18 p.m., sy'n rhoi tuag wyth munud a hanner inni barhau â'r ddatl hon. Ni chaiff pawb y cyfle i siarad o gofio fy mod wedi cael chwe chais i wneud hynny, ond, yn amlwg, po fyrraf fo'ch areithiau, gorau oll.

**Peter Law:** Yr wyf yn falch o gael y cyfle i siarad yn y ddatl hon a chefnogaf y Gweinidog. Gobeithiaf ei fod yn nodi hynny ar ôl ddoe. Mae'r mentrau hyn yn rhagorol a rhaid inni annog pobl i ddefnyddio cynnyrch Cymreig gymaint â phosibl. Yr wyf yn falch i Janet Ryder sôn am fenter Wrecsam. Yr ydym yn falch o'r hyn a wna Wrecsam. Gobeithiaf y caiff cynllun o'r fath ei gyflwyno ledled Cymru oherwydd mae'n adlewyrchu'r hyn y mae'r mudiad cydweithredol wedi ei wneud yn ei siopau o ran gwerthu bariau siocled masnach deg ac yn y blaen. Er nad yw'n gynnyrch Cymreig, rhydd gyfran deg i gynhyrchwyr. Nid yw hynny wedi digwydd yn ddigon aml yn y gorffennol. Er mwyn i'n cwmnïau llwyddiannus sy'n cynhyrchu bwyd gystadlu yn y byd modern—ac yr ydym oll yn cefnogi hynny—rhaid iddynt gael yr offer gorau. Cyfeiriaf, yn anarferol, at ymarfer caffael. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol osod esiampl dda o ran caffael. Mae ffatri yn fy etholaeth i, Desk Link, yn gweithgynhyrchu offer swyddfa. Yr oeddem yn falch pan agorodd y Prif Weinidog y ffatri ym mis Hydref 2001. Mae'n cyflogi 140 o staff, a chafodd grant cymorth rhanbarthol dewisol o fwy nag £1 filiwn. Fodd bynnag, ni all dendro i gyflenwi offer swyddfa i'r Cynulliad. Bydd rhai o Aelodau'r Cynulliad cyntaf yn cofio i'r cwmni ysgrifennu atom

year extension would be allocated to the company that won the first tender. That is not setting a good example, and I hope that we will set a better examples in the future. That factory employs 140 staff in a highly deprived area, and the regional selective assistance was provided to establish it. People expect fair tendering opportunities.

I raise another point. Although it is not a cardinal sin, it is strange that people walk around the National Assembly for Wales carrying bottles of English water. I have nothing against English water, and I enjoy being part of the United Kingdom, but that would not happen in Scotland. This is a centre for democracy in Wales, and people visit this country because they want to see something of Wales. I hope that the House Committee will take that into account, as there are plenty of good bottled water suppliers in Wales. We need to be more aware of issues such as that. I support today's motion; it is important that we support Welsh companies and Welsh produce, and I look forward to the Minister's good work in the future.

I welcome the publication of the paper and some, but not all, of its suggestions. It contains some obvious improvements and project completions that are well overdue; some are innovative, but others could prove to be highly damaging to the city. Sadly, the paper exposes the county council's shameful lack of support for the motorist. By motorist, I do not just mean highly-paid executives in posh cars—such as the Assembly Cabinet—but also young couples starting out in life, families, pensioners on fixed incomes, and the business people that are considering Cardiff as a potential city for investment.

The county council highlights some of the major problems that face the city and acknowledges that certain road-building projects are necessary to ease the transport burden. The peripheral distributor road—the completion of which I have long argued for—is the final piece in the bay road network, but it has not been addressed for over eight years. With the completion of the opera house next door and the new Assembly building, we must see the completion of the road network. The failure to complete this project demonstrates that funding is stagnant and underlines the city's disjointed approach to investment. The paper confirms the importance of the peripheral distributor road in stating that

'the full potential of Cardiff Bay will not be realised until this important piece of transport infrastructure is completed.'

The local authority has calculated that the total capital investment deficit—not only for the peripheral distributor road, but also for other projects that Cardiff needs to undertake—is around £400 million. This funding gap does not take into account the likely investment that is needed in our rail and bus services, which is why a public-private partnership would be the sensible way to proceed.

The council's paper, and the previous paper, 'A Change of Gear: Implementing Cardiff's Transport Strategy Through Partnership', both point to some exciting improvements in

Croesawaf gyhoeddi'r papur a rhai, ond nid pob un, o'i awgrymiadau. Mae'n cynnwys rhai gwelliannau amlwg a phrosiectau i'w cwblhau sydd ymhell ar ei hôl hi; mae rhai yn arloesol, ond gallai eraill gael effaith andwyol iawn ar y ddinas. Yn anffodus, mae'r papur yn datgelu diffyg cefnogaeth eofn y cyngor sir i'r modurwr. Nid dim ond swyddogion ar gyflogau breision mewn ceir crand—fel Cabinet y Cynulliad—a olygaf pan gyfeiriaf at fodurwyr, ond hefyd barau ifanc sy'n dechrau ar daith bywyd, teuluoedd, pensïynwyr ar incwm sefydlog, a'r bobl fusnes sy'n ystyried Caerdydd yn ddinas bosibl i fuddsoddi ynddi.

Mae'r cyngor sir yn amlygu rhai o'r problemau mawr sy'n wynebu'r ddinas ac yn cydnabod bod rhai prosiectau adeiladu ffyrdd yn hanfodol er mwyn lleddfu'r baich trafniadaeth. Y ffordd ddosbarthu ymylol—yr wyf wedi hir ddadlau dros ei chwblhau—yw'r darn olaf yn rhwydwaith ffyrdd y bae, ond nid ymdriniwyd â hyn ers mwy nag wyth mlynedd. Gyda chwblhau'r tŷ opera y drws nesaf ac adeilad newydd y Cynulliad, rhaid inni weld y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gwblhau. Mae methu â chwblhau'r prosiect hwn yn dangos bod arian yn ddisymud ac yn tanlinellu ymagwedd ddi-drefn y ddinas tuag at fuddsoddi. Mae'r papur yn cadarnhau pwysigrwydd y ffordd ddosbarthu ymylol gan nodi

na fydd Bae Caerdydd yn cyflawni ei lawn botensial hyd nes i'r darn pwysig hwn o seilwaith trafniadaeth gael ei gwblhau.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyfrifo bod cyfanswm y diffyg buddsoddiad cyfalaf—nid dim ond ar gyfer y ffordd ddosbarthu ymylol, ond hefyd ar gyfer prosiectau eraill y mae angen i Gaerdydd ymgymryd â hwy—oddeutu £400 miliwn. Nid yw'r bwlch ariannu hwn yn ystyried y buddsoddiad tebygol sydd ei angen yn ein gwasanaethau rheilffordd a bysiau, a dyna pahan mai partneriaeth cyhoeddus-preifat fyddai'r ffordd synhwyrol ymlaen.

Mae papur y cyngor, a'r papur blaenorol, 'A change of Gear: Implementing Cardiff's Transport Strategy Through Partnership', ill dau yn cyfeirio at rai gwelliannau cyffrous

public transport: a rail loop around the city for light rail; the completion of a circle line from Coryton to Radyr and Morganstown; and the creation of a core bus network. These are exciting changes, but the reports shy away from outlining how much public transport operators, consumers and others will be expected to pay, which demonstrates the council's lack of confidence. Curiously, the county council is quick to identify others who would have to pick up a large chunk of the bill.

The council's recognition of the need to improve the road network sits merely as a platitude to the motorist, on whom it is about to launch an incredible assault. The plan searches for families, organisations and businesses that can dig deep into their pockets. Since 1997, those families, organisations and businesses have become somewhat adverse to a pick-pocketing Government that has enjoyed 53 tax alterations and a county council that has increased local council taxes by 100 per cent over the same period. Is it any wonder that the people of Cardiff view this plan with well-placed suspicion? The paper, however, identifies four specific new charges—or taxes, depending on your outlook—to tackle some of the cost implications.

There are taxes on the motorist, the first of which the council calls a congestion charge, which will be £1 per day. That does not immediately appear threatening, except that it will not entice people out of their cars and onto public transport, which is the document's central theme, as a single journey on public transport costs more than £1. It also fails to realise that many people take more than one journey in a day. It is not just a question of going to work and then back home. However, according to the council, such a scheme could net £27 million per annum. The basis for this is linked to London, and it suggests that the congestion charges would be applicable. Congestion charges might work in Cardiff were it a congested city. However, in comparison to many UK cities, it is not a congested city. Yes, it is busy at peak times, and certain other times of day, but it is not a congested

mewn trafndiaeth gyhoeddus: dolen reilffordd o amgylch y ddinas ar gyfer rheilffordd ysgafn; cwblhau lein gylch o Coryton i Radur a Phentre-poeth; a chreu rhwydwaith bysiau craidd. Mae'r rhain yn newidiadau cyffrous, ond nid yw'r adroddiadau yn amlinellu faint y bydd disgwyl i gwmnïau trafndiaeth gyhoeddus, defnyddwyr ac eraill ei dalu, sy'n dangos diffyg hyder y cyngor. Yn rhyfedd ddigon, mae'r cyngor sir yn ddigon parod i nodi eraill y byddai'n rhaid iddynt dalu cyfran fawr o'r bil.

Nid yw cydnabyddiaeth y cyngor o'r angen i wella'r rhwydwaith ffyrdd yn ddim ond ystrydeb i'r modurwr, y mae ar fin dechrau ymosodiad anhygoel arno. Mae'r cynllun yn chwilio am deuluoedd, sefydliadau a busnesau a all fynd yn ddwfn i'w pocedi. Er 1997, mae'r teuluoedd, sefydliadau a busnesau hynny wedi mynd ychydig yn wrthwynebus i Lywodraeth sy'n dwyn arian ganddynt ac sydd wedi mwynhau 53 o newidiadau i dreth, a chyngor sir sydd wedi cynyddu trethi cyngor lleol 100 y cant dros yr un cyfnod. A oes unrhyw syndod bod pobl Caerdydd, yn gwbl gyfiawn, yn amheus o'r cynllun hwn? Mae'r papur, fodd bynnag, yn nodi pedwar taliad newydd penodol—neu drethi, yn dibynnu ar eich safbwynt—i fynd i'r afael â rhywfaint o'r goblygiadau o ran cost.

Mae trethi i'r modurwr. Geilw'r cyngor y cyntaf o'r rhain yn dreth tagfeydd, a fydd yn £1 y dydd. Nid yw hynny'n ymddangos fel bygythiad ar yr olwg gyntaf, ond ni fydd yn denu pobl o'u ceir i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, sef thema ganolog y ddogfen, gan fod un daith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn costio mwy na £1. Nid yw ychwaith yn sylweddoli bod llawer o bobl yn gwneud mwy nag un daith y dydd. Nid mater o fynd i'r gwaith a dychwelyd adref yn unig mohono. Fodd bynnag, yn ôl y cyngor, gallai cynllun o'r fath gynhyrchu £27 miliwn y flwyddyn. Mae'r sail ar gyfer hyn yn gysylltiedig â Llundain, ac awgryma y byddai'r taliadau tagfeydd yn berthnasol. Gallai taliadau tagfeydd weithio yng Nghaerdydd pe bai'n ddinas lle ceir llawer o dagfeydd. Fodd bynnag, o gymharu â nifer o ddinasoedd yn y DU, nid yw'n ddinas â thagfeydd. Ydy, mae'n brysur yn ystod oriau

city with the problem of the standstill that is experienced in London. To support the possible outcome, the paper points to the 20 per cent reduction in traffic as a result of London's congestion charge. However, comparing Cardiff to London, I have not noticed Cardiff's heavily used bus lanes or underground railway network. Forgive me if I have missed something, but it is foolish to assume that a massive reduction in congestion—as the document puts it—could occur without significant changes to our public transport system. It cannot be attained as easily as the council thinks by introducing a congestion charge of £1 per day.

Secondly, taxes on business are suggested. This is the main problem with the report. Cardiff County Council has estimated that charging businesses around £900 per car parking space per year will net the city's treasury about £900 million. However, contrary to popular myth, Cardiff is not exactly a booming city in terms of new business investment—you need only look at the number of empty buildings and business units, which are likely to remain so for some time. Like any other city, Cardiff must compete, and taxing businesses will not help to meet that end. Many companies can easily relocate or shift the burden of the tax onto their employees. Such an unacceptable tax would have a damaging impact.

Thirdly, the possibility of supplementary business rates means more money being taken from the pockets of businesses on top of the car parking space tax. Fourthly, the local authority has identified road tolls as a possibility—another tax on top of the congestion charge, which would also be payable by motorists. The local authority has calculated that this scheme could realise £12 million per annum. However one views the charges, families and businesses will see them as merely another tax. In total, Cardiff County Council has estimated that these taxes could provide at least £48 million per year in addition to any other funding identified by the council, provided by the Assembly, or found through the proposed public-private

brig ac adegau eraill o'r dydd, ond nid yw'n ddinas â thagfeydd lle nad yw traffig yn gallu symud o gwbl fel a geir yn Llundain. I gefnogi'r canlyniad posibl hwn, cyfeiria'r papur at y gostyngiad o 20 y cant mewn traffig o ganlyniad i dâl tagfeydd Llundain. Fodd bynnag, o gymharu Caerdydd â Llundain, nid wyf wedi sylwi ar lonydd bysiau Caerdydd y gwneir defnydd helaeth ohonynt na'r rhwydwaith rheilffyrdd tanddaearol. Maddeuwch imi os wyf wedi colli rhywbeth, ond annoeth yw tybio y gellid cyflawni gostyngiad enfawr mewn tagfeydd—fel y noda'r ddogfen—heb newidiadau sylweddol i'n system trafndiaeth gyhoeddus. Ni ellir cyflawni hynny mor hawdd ag y tybia'r cyngor drwy gyflwyno tâl tagfeydd o £1 y dydd.

Yn ail, awgrymir codi trethi ar fusnesau. Dyma brif broblem yr adroddiad. Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi amcangyfrif y byddai codi tua £900 y flwyddyn fesul lle parcio ar fusnesau yn cynhyrchu tua £900 miliwn i drysorlys y ddinas. Fodd bynnag, yn groes i'r gred boblogaidd, nid yw Caerdydd yn ddinas lewyrchus o ran buddsoddiad gan fusnesau newydd—nid oes ond rhaid ichi edrych ar nifer yr adeiladau gwag a'r unedau busnes, sy'n debygol o barhau'n wag am beth amser. Fel unrhyw ddinas arall, rhaid i Gaerdydd gystadlu, ac ni fydd trethu busnesau yn helpu i gyflawni'r nod hwnnw. Gall llawer o gwmnïau adleoli yn ddirfferth neu symud baich y dreth ar eu cyflogaion. Byddai treth mor annerbyniol yn cael effaith andwyol.

Yn drydydd, mae'r posibilrwydd o drethi busnes atodol yn golygu cymryd mwy o arian o bocedi busnesau yn ogystal â'r dreth lleoedd parcio. Yn bedwerydd, mae'r awdurdod lleol wedi nodi tollau ffyrdd fel posibilrwydd—treth arall ar ben y tâl tagfeydd, a fyddai hefyd yn cael ei thalu gan fodurwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi cyfrifo y gallai'r cynllun hwn godi £12 miliwn y flwyddyn. Beth bynnag fo eich barn am y taliadau, bydd teuluoedd a busnesau yn eu gweld fel dim mwy na threth arall. Gyda'i gilydd, mae Cyngor Sir Caerdydd wedi amcangyfrif y gallai'r trethi hyn ddarparu o leiaf £48 miliwn y flwyddyn yn ogystal ag unrhyw arian arall a nodir gan y cyngor, a ddarperir gan y Cynulliad, neu a geir drwy'r

partnership.

The paper clearly makes heavy demands of those least able to resist—motorists, families and businesses. They will, sadly, just have to pay what they are told to pay. They will find it difficult to resist these charges. Nobody tends to stick up for these groups, and it is easy for local authorities to tax families and businesses while ignoring the possibility of funding from Government and other sources. The paper is light on its demands on public transport users. It is one-sided in that it quickly identifies the easy route for fund raising, but it does not outline any strategy for how the council might persuade the Assembly Government of Cardiff's needs as a capital city. The recent ULTra debacle—the driverless Cardiff bay taxi scheme—which was to be built to the tune of some £20 million and is now, thankfully, shelved, demonstrated the ill-thought-out approach to our public transport system. Is it any wonder that the people of Cardiff view this paper with more than a little suspicion? However, I would not be doing my duty as a representative of the capital city if I failed to suggest a few alternatives.

5.10 p.m.

First, if we are serious about improving public transport, we should be serious about transport operators dipping into their bank accounts. They will benefit from having a more accessible, integrated and modern transport network, as people will be more inclined to use it. This might be covered by the work behind the public-private partnership, although that is not expressed and built upon in the document. Secondly, if people are to enjoy a better system of public transport, small increases in fares are only fair. One of the paper's deficiencies is that it fails to identify people who use public transport as possible contributors to the financial hole faced by the council. Again, this may happen, but it does not form part of a coherent strategy or of the underlying principles in the paper. It is only fair that those people who use public transport, and

bartneriaeth cyhoeddus-preifat arfaethedig.

Mae'r papur yn amlwg yn rhoi baich trwm ar y rhai sy'n lleiaf abl i'w wrthsefyll—modurwyr, teuluoedd a busnesau. Yn anffodus, bydd rhaid iddynt dalu yr hyn y dywedir wrthynt am ei dalu. Byddant yn ei chael hi'n anodd i wrthsefyll y taliadau hyn. Nid oes neb yn tueddu i achub cam y grwpiau hyn, ac mae'n hawdd i awdurdodau lleol drethu teuluoedd a busnesau tra'n anwybyddu'r posibilrwydd o gael arian gan y Llywodraeth a ffynonellau eraill. Nid oes llawer o ofynion yn y papur o ran defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n unochrog yn yr ystyr ei fod yn gyflym i nodi'r llwybr hawdd ar gyfer codi arian, ond nid yw'n amlinellu unrhyw strategaeth ar gyfer sut y gallai'r cyngor argyhoeddi Llywodraeth y Cynulliad o anghenion Caerdydd fel prifddinas. Dangosodd yr helynt ddiweddar gydag ULTra—y cynllun tacsï di-yrwr ym mae Caerdydd—y bwriadwyd ei adeiladu am gost o ryw £20 miliwn ac sydd bellach, diolch i'r drefn, wedi'i roi o'r neilltu, yr ymagwedd ddifeddwl tuag at ein system trafndiaeth gyhoeddus. A yw'n syndod bod gan bobl Caerdydd amheuan mawr ynghylch y papur hwn? Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyflawni fy nyletswydd fel cynrychiolydd y brifddinas pe na bawn yn awgrymu ychydig o syniadau amgen.

I ddechrau, os ydym o ddifrif ynghylch gwella trafndiaeth gyhoeddus, dylem fod o ddifrif ynghylch sicrhau bod cwmnïau trafndiaeth yn defnyddio mwy o'u harian. Byddant yn elwa ar gael rhwydwaith trafndiaeth mwy hygrych, integredig a modern, gan y bydd pobl yn fwy tebygol o'i ddefnyddio. Efallai y cwmpesir hyn gan y gwaith y tu ôl i'r bartneriaeth cyhoeddus-preifat, er na fynegir hynny ac na ddatblygir hynny yn y ddogfen. Yn ail, os yw pobl am fwynhau gwell system trafndiaeth gyhoeddus, byddai codi prisiau tocynnau ychydig ond yn deg. Un o ddiffygion y papur yw nad yw'n nodi pobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus fel cyfranwyr posibl i'r twll ariannol y mae'r cyngor ynddo. Unwaith eto, gall hyn ddigwydd, ond nid yw'n rhan o strategaeth gydlynol nac yn rhan o egwyddorion sylfaenol y papur. Mae ond

who will benefit from being able to get to the various parts of the city that cannot presently be reached, should be expected to help cover part of the cost—not much money, but small increases—as a contribution.

Thirdly, the council needs to convince the Assembly Government of Cardiff's needs as a capital city. The fact that Cardiff is a capital city is a trump card. There are more pressures on this city than on any other part of Wales as it represents the nation as the capital. Therefore, Cardiff County Council needs to present a coherent strategy to the Assembly Government for funding, because the document identifies the Assembly Government's neglect of its duty to support the council's role in representing the capital city. These suggestions have not been fully addressed by Cardiff council. Its admission is tantamount to accepting that only motorists should help to cover the cost. Why, after all, is the paper so thin on alternative options?

As the city of Cardiff approaches its centenary as a city, and its fiftieth anniversary as the nation's capital, we need a transport system that reflects the realities of life. The paper's dogmatic attack on families and businesses reflects the usual arguments supported by the beard-and-sandals brigade that taxing motorists and businesses is the way to develop public transport. It is not, and it will not work. People will always need their cars, but they also need convincing that trains and buses can be just as effective.

**Lorraine Barrett:** Thank you, Jonathan, for allowing me a minute in which to speak. On congestion, I spotted a few BMWs and Jaguars in the Assembly car park, which, I believe, belong to the Tory group.

I listened to Jonathan's somewhat predictable attacks on Cardiff County Council and its paper. However, I did not hear any suggestions from him about what he would do to deal with what Professor Begg, a transport professor at Robert Gordon University, Aberdeen, says is a worrying

yn deg disgwyl i'r bobl hynny sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ac a fydd yn elwa ar allu cyrraedd amrywiol rannau o'r ddinas na allant eu cyrraedd ar hyn o bryd, helpu i dalu rhan o'r gost—nid arian mawr, ond cynnydd bach—fel cyfraniad.

Yn drydydd, mae angen i'r cyngor argyhoeddi Llywodraeth y Cynulliad o anghenion Caerdydd fel prifddinas. Mae'r ffaith bod Caerdydd yn brifddinas yn fantais fawr. Mae mwy o bwysau ar y ddinas hon nag ar unrhyw ran arall o Gymru gan ei bod yn cynrychioli'r genedl fel ei phrifddinas. Felly, mae angen i Gyngor Sir Caerdydd gyflwyno strategaeth gydlynol i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu, gan fod y ddogfen yn nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn esgeuluso ei dyletswydd i gefnogi rôl y cyngor i gynrychioli'r brifddinas. Nid yw cyngor Caerdydd wedi mynd i'r afael yn llawn â'r awgrymiadau hyn. Mae ei gyfaddefiad yn gyfystyr â derbyn mai dim ond modurwyr ddylai helpu i dalu'r gost. Wedi'r cyfan, pam mae cyn lleied o opsiynau amgen yn y papur?

Wrth i ddinas Caerdydd nesáu at ei chanmlwyddiant fel dinas, a'i hanner can mlwyddiant fel prifddinas y genedl, mae angen system drafnidiaeth arnom sy'n adlewyrchu realiti bywyd. Mae ymosodiad dogmataidd y papur ar deuluoedd a busnesau yn adlewyrchu'r dadleuon arferol a gefnogir gan y criw barfog a sandalog mai codi trethi ar fodurwyr a busnesau yw'r ffordd o ddatblygu trafndiaeth gyhoeddus. Nid felly y mae, ac ni fydd yn gweithio. Bydd pobl angen eu ceir bob amser, ond hefyd bydd angen eu darbwyllo y gall trenau a bysiau fod yr un mor effeithiol.

**Lorraine Barrett:** Diolch ichi, Jonathan, am ganiatáu munud imi siarad. O ran tagfeydd, sylwais ar ambell i BMW a Jaguar ym maes parcio'r Cynulliad sydd, mi gredaf, yn eiddo i grŵp y Toriaid.

Gwrandewais ar ymosodiadau Jonathan ar Gyngor Sir Caerdydd a'i bapur, a oedd braidd yn rhagweladwy. Fodd bynnag, ni chlywais unrhyw awgrymiadau ganddo ynghylch yr hyn y byddai'n ei wneud i ymdrin â'r duedd o dagfeydd yn y ddinas, sy'n destun pryder yn ôl yr Athro Begg, athro trafndiaeth ym

trend of congestion in the city. Professor Begg acknowledges that the council is right to consider options such as congestion charges. However, he also suggests that other action, such as increased pedestrianisation and more bus and cycle lanes, will help to control congestion problems. He believes that tough action needs to be taken now.

**Jenny Randerson:** I have no objection to a congestion charge in principle. However, it would not work in Cardiff, because the congestion is on the roads into Cardiff, far more so than in the city centre. Therefore, you would have to have some sort of reverse congestion charge working on a donut principle. In principle, it is entirely wrong to propose, as Cardiff council's paper does, using a public-private partnership as the source of money for that partnership. A charge on motorists will apparently be used to build more roads. However, if you are going to impose a congestion charge, that money should be used to improve public transport. Cardiff council cannot impose a congestion charge until we have a good public transport system. Cardiff Bus is currently consulting on new bus routes. Interestingly, it is more a case of moving routes around rather than a major increase in the number of routes.

Ten years ago, Sue Essex and I attended a conference in London about a light rapid transit system. We are still waiting for that.

**Owen John Thomas:** Nid yw Caerdydd yn ynys. Nid yw cynllun Cyngor Sir Caerdydd yn ymateb i'r ffaith bod Caerdydd yn brifddinas sydd yn gwasanaethu rhanbarth y ddinas, sy'n cynnwys 1,250,000 o bobl yn y Cymoedd, ym Mro Morgannwg ac yn y ddinas ei hun.

Nid oes dim yn y cynllun y mae yn ei roi gerbron sydd yn diwallu anghenion yr ardal honno, yn cadarnhau bod Caerdydd, fel prifddinas, yn uno'r genedl, nac yn ei gwneud yn bosibl i bobl deithio yma o bob rhan o Gymru i ymweld â'n sefydliadau cenedlaethol. Mae rhai pobl yn teimlo nad

Mhrifysgol Robert Gordon, Aberdeen. Mae'r Athro Begg yn cydnabod bod y cyngor yn iawn i ystyried opsiynau megis taliadau tagfeydd. Fodd bynnag, awgryma hefyd y bydd camau eraill, fel troi mwy o ardaloedd yn lleoedd i gerddwyr yn unig a mwy o lonydd ar gyfer bysiau a beiciau, yn helpu i reoli problemau tagfeydd. Cred fod angen cymryd camau llym yn awr.

**Jenny Randerson:** Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i dâl tagfeydd mewn egwyddor. Fodd bynnag, ni fyddai'n gweithio yng Nghaerdydd, gan mai ar y ffyrdd i mewn i Gaerdydd y mae'r tagfeydd gan amlaf, yn hytrach nag yng nghanol y ddinas. Felly, byddai'n rhaid cael rhyw fath o dâl tagfeydd gwrthdro yn gweithio ar egwyddor toesen. Mewn egwyddor, mae'n gwbl anghywir cynnig, fel y gwna papur cyngor Caerdydd, defnyddio partneriaeth cyhoeddus-preifat fel ffynhonnell arian ar gyfer y bartneriaeth honno. Defnyddir tâl a godir ar fodurwyr yn ôl y sôn i adeiladu mwy o ffyrdd. Fodd bynnag, os codwch dâl tagfeydd, dylai'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio i wella trafndiaeth gyhoeddus. Ni all cyngor Caerdydd godi tâl tagfeydd hyd nes bod gennym system trafndiaeth gyhoeddus dda. Mae Bws Caerdydd yn ymgynghori ar lwybrau bysiau newydd. Yn ddiddorol ddigon, mater o newid llwybrau ydyw yn hytrach na chynnydd mawr yn nifer y llwybrau.

Ddeng mlynedd yn ôl, mynychodd Sue Essex a minnau gynhadledd yn Llundain ar system gludo ysgafn a chyflym. Yr ydym yn dal i aros am hynny.

**Owen John Thomas:** Cardiff is not an island. Cardiff County Council's scheme does not take account of the fact that Cardiff is a capital city that serves the region of the city, which includes 1,250,000 people in the Valleys, the Vale of Glamorgan and the city itself.

There is nothing in the scheme that it is proposing to meet the needs of that area, nothing that confirms the fact that Cardiff, as the capital city, unites the nation, nor anything that makes it possible for people to travel here from all parts of Wales to visit our national institutions. Some people feel that

yw'r sefydliadau hynny'n perthyn iddynt hwy gan fod Caerdydd mor bell o lle y maent yn byw. Felly, ni chefnogaf y cynllun hwn.

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** I thank Jonathan for raising this issue as it gives me an opportunity to comment on Cardiff's transport plan, 'Keeping Cardiff Moving'. The paper sets out an interesting approach to implementing the vision set out in Cardiff County Council's statutory local transport plan, which it submitted to the Assembly Government in August 2000. The Government is always ready to support new approaches to funding transport development and it is happy to work with the county council in taking forward practical solutions. The development of a public-private partnership on this scale, as outlined in 'Keeping Cardiff Moving', will need careful appraisal to determine its value for money. Robin Shaw, the National Assembly's director of transport, has been invited to join the project panel. However, the council is responsible for making any decisions on the disposal of its assets as part of any partnership with the private sector. We cannot earmark any additional funding in anticipation of a partnership being established. The proposals, as Jonathan mentioned, are for developing a public-private partnership over the next 25 years in order to provide up to £400 million of transport infrastructure investment. Those are ambitious plans, and Cardiff County Council should be commended for considering innovative ways of delivering its transport agenda.

Reference has been made to the eastern bay link road and completion details of that key proposal are in the council's local transport plan. Given its current cost of around £180 million, it is not affordable within existing budgets. A great deal of money has been invested in Cardiff bay over the past 15 years, and the eastern bay link was part of a plan dating back to the 1970s, as indicated in the document.

**Nick Bourne:** The Plaid Cymru Member, having said how important this issue was for Cardiff, appears to have left the Chamber.

those institutions do not belong to them as Cardiff is so far from where they live. Therefore, I do not support this scheme.

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Diolchaf i Jonathan am godi'r mater hwn gan ei fod yn rhoi cyfle imi wneud sylwadau ar gynllun trafndiaeth Caerdydd, 'Keeping Cardiff Moving'. Mae'r papur yn nodi ymagwedd ddiddorol tuag at weithredu'r weledigaeth a nodir yng nghynllun trafndiaeth lleol statudol Cyngor Sir Caerdydd, a gyflwynodd i Lywodraeth y Cynulliad yn Awst 2000. Mae'r Llywodraeth bob amser yn barod i gefnogi ymagweddau newydd tuag at ariannu datblygiad trafndiaeth ac mae'n fodlon gweithio gyda'r cyngor sir i ddatblygu atebion ymarferol. Bydd angen arfarnu'r broses o ddatblygu partneriaeth cyhoeddus-preifat ar y raddfa hon, fel yr amlinellir yn 'Keeping Cardiff Moving', yn ofalus er mwyn penderfynu ei werth am arian. Gwahoddwyd Robin Shaw, cyfarwyddwr trafndiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, i ymuno â phanel y prosiect. Fodd bynnag, y cyngor sy'n gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniadau ar waredu ei asedion fel rhan o unrhyw bartneriaeth â'r sector preifat. Ni allwn glustnodi unrhyw arian ychwanegol rhag ofn i bartneriaeth gael ei sefydlu. Mae'r cynigion, fel y crybwyllodd Jonathan, yn ymwneud â datblygu partneriaeth cyhoeddus-preifat dros y 25 mlynedd nesaf er mwyn darparu hyd at £400 miliwn o fuddsoddiad seilwaith trafndiaeth. Mae'r rheini'n gynlluniau uchelgeisiol, a dylid canmol Cyngor Sir Caerdydd am ystyried ffyrdd arloesol o gyflawni ei agenda trafndiaeth.

Cyfeiriwyd at ffordd gyswllt ddwyreiniol y bae ac mae manylion cwblhau'r cynnig allweddol hwnnw yng nghynllun trafndiaeth lleol y cyngor. O gofio ei gost bresennol o tua £180 miliwn, nid yw'n fforddiadwy o fewn y cyllidebau presennol. Buddsoddiwyd swm sylweddol o arian ym mae Caerdydd dros y 15 mlynedd diwethaf, ac yr oedd ffordd gyswllt ddwyreiniol y bae yn rhan o gynllun sy'n dyddio o'r 1970au, fel y nodwyd yn y ddogfen.

**Nick Bourne:** Ymddengys bod yr Aelod Plaid Cymru wedi gadael y Siambr, er iddo ddweud pa mor bwysig oedd y mater hwn i



Gaerdydd.

**Andrew Davies:** The Butetown link road was completed in 1995. The budget for local authority capital funding through transport grant was £83 million in 1995-96. However, Williams Hague, the then Secretary of State for Wales, planned to reduce it to £49 million in 1997-98, and to £34 million by 1999-2000. Therefore, William Hague faced the same issues of balancing demands and affordability. The provision for transport grant is £75 million, which increases to £91 million in two years' time. However, we must ensure a balanced approach that recognises the needs of the whole of Wales—I emphasised that in answers to earlier questions—in funding local authority roads and public transport infrastructure projects. The Assembly is continuing to fund the Wentloog to St Mellons road link scheme via the transport grant. The programme will be delayed this year because the council is seeking planning permission for the scheme and related works together. When completed, the scheme will provide a direct route between Wentloog and the strategic road network, including the new intermodal euro freight terminal, and will greatly improve local access between Wentloog and St Mellons. The scheme is estimated to cost £22 million.

I wholeheartedly reject Jonathan's allegation that the Assembly Government has neglected Cardiff's transport needs. As Jenny Randerson implied, travel in and out of Cardiff can only be considered in terms of the wider regional context. There is already sustained investment in the transport infrastructure of Cardiff and the surrounding area. The Assembly Government has provided over £28 million to Cardiff County Council in transport grant funding over the past five years, in addition to funding the Wentloog and St Mellons road link. Although Cardiff was allocated just over £3 million in transport grant for 2003-04, that does not represent the true level of benefit that Cardiff is receiving from our transport investment. I pay tribute to my predecessor, Sue Essex, for establishing the south Wales transport

**Andrew Davies:** Cwblhawyd ffordd gyswllt Butetown yn 1995. Y gyllideb ar gyfer ariannu cyfalaf awdurdod lleol drwy'r grant trafndiaeth oedd £83 miliwn yn 1995-96. Fodd bynnag, yr oedd William Hague, Ysgrifennydd Gwladol Cymru bryd hynny, yn bwriadu ei gostwng i £49 miliwn yn 1997-98, ac i £34 miliwn erbyn 1999-2000. Felly, yr oedd William Hague yn wynebu yr un problemau o gydbwysu galw a fforddiadwyedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grant trafndiaeth yn £75 miliwn, sy'n codi i £91 miliwn ymhen dwy flynedd. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ymagwedd gytbwys sy'n cydnabod anghenion Cymru gyfan—pwysleisiais hynny mewn atebion i gwestiynau cynharach—o ran ariannu prosiectau seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus awdurdodau lleol. Mae'r Cynulliad yn parhau i ariannu cynllun ffordd gyswllt Gwynllŵg i Laneirwg drwy'r grant trafndiaeth. Bydd oedi gyda'r rhaglen eleni gan fod y cyngor yn ceisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun a gwaith cysylltiedig ar yr un pryd. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y cynllun yn darparu llwybr uniongyrchol rhwng Gwynllŵg a'r rhwydwaith ffyrdd strategol, gan gynnwys yr orsaf ryngfoddol newydd ar gyfer nwyddau o Ewrop, a bydd yn gwella'r mynediad lleol rhwng Gwynllŵg a Llaneirwg yn sylweddol. Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio £22 miliwn.

Gwrthodaf yn llwyr honiad Jonathan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi esgeuluso anghenion trafndiaeth Caerdydd. Fel yr awgrymodd Jenny Randerson, dim ond yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach y gellir ystyried teithio i mewn ac allan o Gaerdydd. Mae buddsoddiad cyson eisoes yn seilwaith trafndiaeth Caerdydd a'r cylch. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu dros £28 miliwn i Gyngor Sir Caerdydd ar ffurf arian grant trafndiaeth dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal ag ariannu ffordd gyswllt Gwynllŵg a Llaneirwg. Er i ychydig dros £3 miliwn gael ei ddyrannu i Gaerdydd mewn grant trafndiaeth ar gyfer 2003-04, nid yw hynny'n adlewyrchu'r budd gwirioneddol a gaiff Caerdydd o'n buddsoddiad mewn trafndiaeth. Talaf deyrnged i'm rhagflaenydd, Sue Essex, am sefydlu

consortia, including the South Wales Integrated Fast Transit consortium, of which Cardiff is a member. It has completed a detailed transportation study, resulting in a package of comprehensive and integrated improvements to public transport services and infrastructure measures along the transport corridors leading to Cardiff and the bay. This year, over £8 million was allocated to develop integrated transport solutions in south-east Wales. They include developing bus corridors, quality bus partnerships and improvements to rail and bus stations. Cardiff will also benefit greatly from the reopening of the Vale of Glamorgan railway and the Ebbw valley line, planned for 2005. The Assembly Government's support for improvements on the Valley lines is already showing a return and, taken together, these schemes will significantly reduce the amount of traffic that commutes into Cardiff daily.

5.20 p.m.

An estimated 30,000 people travel into Cardiff every day for work and shopping. At peak hours, around 30 per cent of those commuters currently travel into the city centre by train. Similar improvement on bus services has not taken place. While I appreciate the funding constraints, it should have been possible to make greater progress with the money provided by the Assembly Government and the council.

Giving priority to buses is the cornerstone of achieving our aim. For example, funding has been provided to plan improvements on the northern corridor, but specific projects have not yet emerged. Cities like Edinburgh, Leeds, Nottingham, Oxford and York have made incremental improvements over several years, and there is no reason why that should not happen in Cardiff. Therefore, I hope that the council does not concentrate solely on the long-term vision that it has outlined but also pursues an incremental approach.

The council has included several methods by which prospective partners may seek to raise funding, including road-user charging and

consortia trafnidiaeth de Cymru, gan gynnwys consortiwm Teithio Cyflym Integredig De Cymru, y mae Caerdydd yn aelod ohono. Mae wedi cwblhau astudiaeth trafnidiaeth fanwl, gan arwain at becyn o welliannau cynhwysfawr ac integredig i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a mesurau seilwaith ar hyd y coridorau trafnidiaeth sy'n arwain i Gaerdydd a'r bae. Eleni, dyrannwyd dros £8 miliwn i ddatblygu atebion trafnidiaeth integredig yn ne-ddwyrain Cymru. Maent yn cynnwys datblygu coridorau bysiau, partneriaethau bysiau o ansawdd a gwelliannau i orsafoedd trenau a bysiau. Bydd Caerdydd yn elwa'n fawr hefyd yn sgîl ailagor rheilffordd Bro Morgannwg a lein glyn Ebwy, a gynlluniwyd ar gyfer 2005. Mae cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i welliannau ar Valley lines eisoes yn dwyn ffrwyth ac, o'u cymryd gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau hyn yn lleihau'n sylweddol y drafnidiaeth sy'n cymudo i Gaerdydd yn ddyddiol.

Amcangyfrifir bod 30,000 o bobl yn teithio i mewn i Gaerdydd bob dydd i weithio ac i siopa. Yn ystod oriau brig, mae tua 30 y cant o'r cymudwyr hynny yn teithio i mewn i ganol y dref ar drenau ar hyn o bryd. Ni welwyd gwelliant tebyg ar wasanaethau bysiau. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau ariannu, dylai fod wedi bod yn bosibl gwneud mwy o gynnydd gyda'r arian a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r cyngor.

Rhoi blaenoriaeth i fysiau yw congllfaen ein nod. Er enghraifft, darparwyd arian i gynllunio gwelliannau ar y coridor gogleddol, ond nid yw prosiectau penodol wedi dod i'r amlwg eto. Gwnaeth dinasoedd fel Caeredin, Leeds, Nottingham, Rhydychen a Chaerfrog welliannau graddol dros nifer o flynyddoedd, ac nid oes rheswm pam na ddylai hynny ddigwydd yng Nghaerdydd. Felly, gobeithiaf nad yw'r cyngor yn canolbwyntio ar y weledigaeth hirdymor a amlinellodd yn unig, ond ei fod hefyd yn mynd ar drywydd gwelliannau graddol.

Mae'r cyngor wedi cynnwys sawl dull y gall darpar bartneriaid ei ddefnyddio i geisio codi arian, gan gynnwys codi tâl ar ddefnyddwyr

workplace parking levies. The council maintains that these charges will not be introduced until the local transport infrastructure has significantly improved, and my colleagues and I agree wholeheartedly with that view. The Government will be responsible for approving any charging scheme and, before considering such a scheme, we want to see major improvements in bus and rail services into Cardiff. It would be essential to introduce park-and-ride schemes, dedicated bus lanes and quality bus partnerships agreed between local authorities and bus operators.

I am glad to have had the opportunity to present the Assembly Government's case. Cardiff, as the capital city, needs good transport facilities and services. We will work together to develop this scheme. The wider regional consortium, consisting of the 10 authorities making up the South East Wales Transport Board, has developed from the two existing consortia, the South Wales Integrated Fast Transit Consortium and the Transport Integration in the Gwent Economic Region Consortium. Cardiff is a large, metropolitan area and the Assembly's resources should be concentrated strategically. Supporting a mix of rail and bus services and infrastructure together with walking and cycling opportunities, and recognising the contribution of commuters, shoppers and other visitors from Valleys and other communities to the prosperity of the city is the way forward in developing a transport system that is fit for our capital.

**The Deputy Presiding Officer:** That completes our business for this afternoon.

ffyrdd a thollau parcio yn y gweithle. Mae'r cyngor yn honni na chaiff y taliadau hyn eu cyflwyno hyd nes y bydd y seilwaith trafnidiaeth leol wedi gwella'n sylweddol, ac mae fy nghyd-Aelodau a minnau yn cytuno'n llwyr â'r farn honno. Y Llywodraeth fydd yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gynllun codi tâl a, chyn ystyried cynllun o'r fath, yr ydym am weld gwelliannau mawr mewn gwasanaethau bysiau a rheilffordd i mewn i Gaerdydd. Byddai'n hanfodol cyflwyno cynlluniau parcio a theithio, lonydd bysiau penodedig a phartneriaethau bysiau o ansawdd y cytunir arnynt rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau.

Yr wyf yn falch imi gael y cyfle i gyflwyno achos Llywodraeth y Cynulliad. Fel y brifddinas, mae angen cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth da ar Gaerdydd. Cydweithiwn i ddatblygu'r cynllun hwn. Mae'r consortiwm rhanbarthol ehangach, sy'n cynnwys y 10 awdurdod sy'n ffurfio Bwrdd Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, wedi datblygu o ddau gonsortiwm presennol, sef Consortiwm Teithio Cyflym Integredig De Cymru a Chonsortiwm Integreiddio Trafnidiaeth yn Rhanbarth Economaidd Gwent. Mae Caerdydd yn ardal fawr, fetropolitan a dylid canolbwyntio adnoddau'r Cynulliad yn strategol. Cefnogi cymysgedd o wasanaethau a seilwaith rheilffordd a bysiau ynghyd â chyfleoedd cerdded a seiclo, a chydabod cyfraniad cymudwyr, siopwyr ac ymwelwyr eraill o'r Cymoedd a chymunedau eraill i ffyniant y ddinas yw'r ffordd ymlaen o ran datblygu system drafnidiaeth sy'n addas i'n prifddinas.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.23 p.m.  
The meeting ended at 5.23 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)

Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Essex, Sue (Llafur – Labour)  
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Law, Peter (Llafur – Labour)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Marek, John (Annibynnol – Independent)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)